

ECO'R WYDDFA

RHIF 82

MEHEFIN 1983

Pris 20c

CEFFYL YN HELP ELIFFANTOD



Red Alligator ar yr Wyddfa a'r offer pwysig arno

Sut y gall ceffyl o'r Waunfawr helpu chwe eliffant i groesi mynyddoedd yr Alpau? Na, nid un o gliwiau Croesair yr Eco wedi mynd ar goll ydi o! Mae 'na ateb diddorol i'r cwestiwn.

Ceffyl Neidio cryf 14 llaw ydi Red Alligator gyda gwaed Cob Cymreig yn ei wythiennau, eiddod Mrs Renee Thomas a'i merch Sian, Stablau Reidio Snowdonia, Waunfawr. Mae Mrs Thomas wedi bod yn trefnu teithiau merlota hanner, a diwrnod cyfan, ar y mynyddoedd am wyth mlynedd. Yn yr hydref mae'n bwriadu dechrau teithiau dau a phedwar diwrnod. I wneud y math yma o weithgaredd mae'n rhaid i'r ceffylau fod mewn cyflwr da iawn. Mae enw da i geffylau Mrs Thomas ymhlith ymwelwyr i'r Stablau Reidio ac felly nid yw'n syndod i'r cryfaf a'r mwyaf cymwys o'i cheffylau gael ei ddewis i brofi offer technegol fydd yn cael ei ddefnyddio ar eliffantod fydd yn croesi'r Alpau yn Hydref 1984.

Tasg Red Alligator fore Sadwrn gwyntog a glawog Mai 14 oedd cael ei dywys hanner y ffordd i fyny'r Wyddfa gydag electrodau wedi'u glynu arno. Prif bwrpas yr ymarfer oedd profi o ba bellter y gellid 'darllen' gwybodaeth ynglŷn â chalon yr anifail. Er mai ar eliffantod y defnyddir yr offer yn y pen draw dywedodd trefnydd yr arbrawf, Mr Wolf Zeuner, a'r ymgynghorydd technegol, Mr Ralph Shayler, wrth yr Eco nad yw'n bwysig iawn beth yw maint yr anifail sy'n ei brofi.

Athro Swoleg mewn ysgol yn Henffordd yw Mr Zeuner, gŵr a chanddo ddiddordeb heintus mewn

eliffantod. Bu'n byw yn India am gyfnod ac yno cafodd gyfle i astudio'r anifeiliaid yn wyddonol fanwl. Mae'n deithiwr a mynyddwr brwdfrydig ac mae ganddo ddiddordeb mawr mewn han hanes. Y stori o hen hanes sydd wedi mynd â'i fryd yn llwyr ers degawd bellach yw'r un am y Cadfridog Hannibal a arweiniodd ei ddynion a 34 o eliffantod dros yr Alpau i geisio concro Rhufain yn y flwyddyn 218 C.C.

Yn 1984, 2200 blwyddyn yn ddiweddarach bydd yntau yn dilyn camau Hannibal gyda byddin o dechnegwyr ac arbenigwyr o bob math - a chwe eliffant. Bydd ffilm ddogfen o'r daith yn cael ei gwneud ar gyfer y teledu o dan y teitl 'Operation Hannibal'.

Dywedodd Sian Thomas oedd yn tywys ei cheffyl yn ystod yr arbrawf fod Red Alligator yn mynnu mynd yn ei flaen o'r Hanner Ffordd a bu angen cryn berswadio arno i'w droi yn ôl - prawf pendant o'i frwdfrydedd a'i ffitrwydd.

Roedd yn rhaid cillio ychydig o flew y cheffyl cyn glynu'r electrodau arno a bu'n rhaid i Mrs Thomas fynd at y fferylllydd yn Llanberis i brynu rasel. "I ddyn neu ddynes?" oedd cwestiwn naturiol dynes y siop. Dychmygwch yr edrychiad amheus gafodd Mrs Thomas pan ddywedodd mai ceffyl oedd ei hangen!

Gweithdy Nasareth

Ar ôl bod yn wag am yn agos i ddwy flynedd bydd Capel Nasareth ger Pontrug unwaith eto yn cael ei ddefnyddio i gynnal gwaith. Cwmni ymgwymerwyr trydanol, T.W. Broadbent, sydd wedi prynu'r adeilad a Gweithdy Nasareth fydd ei enw newydd.

Mae cwmni Broadbent's bellach yn adnabyddus i bobl y fro hon fel y contractwyr sy'n gyfrifol am gyflenwi a gosod sistem fewnol drwy'r gwaith yng Ngorsaf Drydan Dinorwig, yn ogystal â weirio yr holl gynllun. Golyga hyn eu bod wedi defnyddio tua 9,000 o geblau ar gyfer pŵer, golau, rheoli, offer a larwm, a'r cyfan o'r gwaith dur, terfynellau a'r daearu sy'n gysylltiedig â hyn i gyd. Rheolir y cyfan o'r ceblau gan gyfrifiadur.

Dechreuodd eu cytundeb â'r Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan yn 1978, ac mae 90 y cant o'u gweithwyr yn ddynion lleol. Ymhyfydant yn y ffaith iddynt dderbyn unarddeg prentis ar y dechrau, ac mae bob un ohonynt bellach yn drydanwr trwyddedig. Roedd y 'ffactor leol' yma'n ystyriaeth bwysig yn eu penderfyniad i brynu Gweithdy Nasareth. Teimlant fod y dynion lleol wedi rhoi gwasanaeth teilwng i'r cwmni ac un ffordd o gadw'r medrusrwydd yma pan ddaw eu cytundeb â'r B.C.C.T. i ben, yw trwy sefydlu cangen yn y fro.

Pan holodd yr Eco swyddogion y cwmni, nid oedd penderfyniad ynglŷn â'r nifer fydd yn cael eu cyflogi nac ychwaith ynglŷn ag unrhyw swyddi newydd gaiff eu creu o ganlyniad i sefydlu Gweithdy Nasareth.

Gwasanaeth yn hytrach na gwneuthur yw natur y diwydiant a byddant yn canolbwyntio ar waith lleol o bob math. "O blwg i bwerdy,"



Dau Gymro Cymraeg o Feirionnydd, Alan Griffiths o Lanbedr, Ardudwy a Dafydd Williams o'r Bontddu fydd rheolwyr Gweithdy Nasareth.

meddai un ohonynt, "bydd ein gwasanaeth yr un mor deilwng."

Mae'r cwmni sydd â'i bencadlys yn Huddersfield, Swydd Efrog, yn barod wedi sefydlu gwaith tebyg i'r un a fwriedir ym Mhontrug yn yr Alban - menter a fu'n llwyddiannus iawn. Os y ceir yr un llwyddiant yma, caiff y gweithwyr gyfle i fod yn gyfranddalwyr. Cofrestrir bob gweithiwr â BUPA.

Cwmni preifat cyfyngedig yw T.W. Broadbent's a sefydlwyd 92 o flynyddoedd yn ôl yn Kirkheaton ger Huddersfield. Eiddo'r gweithwyr yw tua 40 y cant o'r cyfranddaliadau a'r teulu sydd berchen y 60 y cant gweddill.

CARTREF PARHAOL I'R CLWB O'R DIWEDD



Aelodau o Glwb Mud a Byddar Gwynedd yn cyfarfod am yr ail waith yn eu cartref newydd, sef yr hen Eglwys Babyddol yn Llanberis. Ar y dde i'r llun mae Tom Jones, Llanberis, llywydd y Clwb a Vivian Williams o Hogia'r Wyddfa. Gwaith Vivian oedd cyflwyno siec i bwyllgor yr aelodau.

Dechreuodd y Clwb sydd ag aelodaeth o tua 30 o bobl mud a byddar o bob rhan o Wynedd gyfarfod yn y Drill Hall tua dwy flynedd yn ôl. Maent yn dod at ei gilydd, unwaith y mis i gymdeithasu yn eu dulliau arbennig eu hunain, ac i ymlacio drwy chwarae pŵl, yfed te, gwyltio'r teledu neu 'siarad'. Gwelodd gohebwyr yr Eco, Sue Lonnergan, sy'n weithiwr cymdeithasol gyda'r byddar, yn 'cysylltu' â dwy hen wraig sy'n fud, byddar a dall.

Bu'r eglwys Babyddol gyfagos ar werth am rai misoedd cyn i'r Clwb ystyried y lle fel cartref newydd. Aeth dirprwyaeth at y Tad McNamara, ddechrau'r flwyddyn ac yr oedd yn fodlon gwerthu'r adeilad am bris rhesymol.

Diolch i ymdrechion Tom Jones, 34

Stryd Newton, Llanberis, trefnwyd cyngerdd yn y Majestic, Caernarfon ym mis Ebrill yn arbennig i gasglu arian i'r Clwb. Nos Sadwrn, Mai 14 cyflwynodd Vivian, ar ran Hogia'r Wyddfa, oedd yn canu yn y cyngerdd, siec am £788 i'r clwb. Rwan, edrychant ymlaen at fedru gorffen talu am y lle.

Ymhyfydant yn y ffaith fod ganddynt bwyllgor o blyth yr aelodau sy'n frwdfrydig ac effeithiol, a chwbl gyfrifol.

Mae'r clwb angen llawer o bethau i wneud y lle yn gartref iawn - llestri, cadeiriau esmwyth, addurniadau ac yn y blaen. Buasai Tom Jones yn falch pe bai unrhyw un fedr gyfrannu yn y fath fodd yn cysylltu ag o yn y cyfeiriad uchod.

ECO'R WYDDFA

RHIF 82
MEHEFIN 1983

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Ponrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO:

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

MEHEFIN 30

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

MEHEFIN 21

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

Apêl

Annwyl Olygydd,

Dychmygwch y ddelfryd o gael Corff i Warchod Buddiannau'r Gymraeg - corff y gallech gyfeirio ato'n syth pan wedir neu pan sarheir y Gymraeg dan unrhyw amgylchiad - mewn siop, swyddfa, gan gyngor, corff neu unigolyn. Corff a allai lunio siarter o hawliau'r iaith a dwyn i gyfraith unrhyw un a fyddai'n gweithredu'n groes i'r siarter hwnnw. Corff a allai gymryd camau pendant i atal penodiadau di-Gymraeg, corff a allai sicrhau addysg Gymraeg i holl blant Cymru, corff a allai atal y mewnlifiad aruthrol, corff a allai sicrhau tai a gwaith i'r Cymry. Corff y byddai ganddo swyddfa barhaol, staff digonol, cyllid digonol ac a fyddai'n gweithredu 24 awr y diwrnod.

Yn anffodus, breuddwyd yw'r fath syniad. Yn ei le mae gennym realiti a'r realiti hwnnw yw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: cymdeithas sy'n ceisio cyflawni'r un gwaith â'r uchod ond heb y cyllid, heb y staff, swyddfa na'r adnoddau digonol.

Braf fyddai llunio apel am arian ychwanegol i gynyddu'r gwaith presennol. Ond nid felly y mae; rhaid apelio am arian i gadw'n pennau uwchben y dŵr. Realiti pethau yw mai mudiad yn dibynnu ar leiafrif ydym, er mai'r mwyafrif sy'n elwa ar ein gwaith.

Mwyafrif pobl Cymru fydd yn manteisio ar addysg Gymraeg i'w plant pan sicrhair hynny. Mae'n debyg mai lleiafrif bychan a fydd yn ymateb i'r apêl hon ond gallai fod yn llawer mwy na'r lleiafrif sy'n cyfrannu ar hyn o bryd. Gyda llaw, carwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r lleiafrif hwn am eu cefnogaeth gyson hyd yma ac mae'n ddrwg gennym orfod dod ar eu galw drachefn. Pwyswn ar i gannoedd ohonoch gyfnerthu eu cefnogaeth nhw.

Disgyn o'r awyr a wnaeth y sianel i lawer o bobl Cymru. I Gymdeithas yr Iaith, golygodd bethau mor ddiramant â biliau, mwy o filiau, bygythiad llys, torri'r ffôn, atal cyflenwadau, mynd ar ofyn pobl, poendod meddwl a phryder, apelio, apelio.

Dibynnwn yn llwyr ar eich cefnogaeth chwi ein cyd-Gymry. Nid oes na chronfa nac ymddiriedolaeth, na chymorthdal na threth gyhoeddus i'n cynnal wrth ein gwaith o geisio sicrhau'r hawl i Gymry fyw eu bywydau yn naturiol fel Cymry Cymraeg. Os cyfrennwch yn ariannol tuag at gynnal y gwaith hwnnw gallwn eich sicrhau y bydd hynny'n dwyn ffrwyth ar ei ganfed.

Er mwyn Cymru,

Meredydd Evans.

O.N. Cyfraniadau i Swyddfa'r
Gymdeithas, 5 Maes Albert,
Aberystwyth

EISIAU

Tŷ 4-5 llofft, 2 erw neu fwy, man
tawel o fewn 12 milltir i Fangor.
Ffôn: Caerdydd 66442.

"TRE'R FFIN"

Annwyl Olygydd,

Hoffwn hysbysu darllenwyr 'Eco'r Wyddfa' am gyhoeddiad newydd er budd Cronfa Eisteddfod yr Urdd yn yr Wyddgrug 1984.

Llyfryn o farddoniaeth, straeon byrion, portreadau a llythyrau - cyfres o argraffiadau a geir. 'Tre'r Ffin' yw'r teitl a Wrecsam yw'r dref honno. £1 yw pris y gyfrol a gellir archebu copi wrth ddanfon at yr awdur, Aled Lewis Evans, 70 Ffordd Glyn, Erddig, Wrecsam gan amgau stamp dosbarth cyntaf. Gyda phob diolch i 'Eco'r Wyddfa' am hysbysrwydd.

Aled Lewis Evans
(cyfeiriad uchod)

D.H. DAVIES

Annwyl Olygydd,

Tebyg fod enw D.H. Davies ar dudalen 10, rhifyn Mai 83 wedi peri penbleth i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

Bachgen o Ty'n y Fawnog, Dinorwig, oedd Dafydd H. Davies, ac ewythr fy nhad. Mae'nith iddo, sef Miss Florence Davies, yn byw yn Felin Bach heddiw, a gwelir cyfeiriad at y teulu yn ei lythyr dyddiedig "June 24th, 1917" o faes y frwydr yn Ffrainc. Dyma llythyr olaf sydd yn fy meddiant, rhyw bum wythnos cyn ei gollu yn Ypres rhwng Mehefin 31 ac Awst 4, 1917.

Darllen llyfr y Parch William Morris ar Hedd Wyn wnaeth i mi feddwl am gysylltu enw Dafydd H. Davies a brwydr Ypres. Ar dudalen 104, mae cyfeiriad am "ddeulanc o ardaloedd Cymreig fel Trawsfynydd, sef Dinorwig a Llanybydder."

Diolch i David Gwyn, Siôn Dafydd a Mr W. Derfel Gruffydd am yr ymdrechion ar fy rhan. Hefyd, diolch i'r Eco am gyhoeddi yr hanes, ac am y llun o 'Wal 22'.

Yr eiddoch yn ddiffuant,
Cecil Wyn Owen
Brynffynnon
Star, Gaerwen
Môn

Dyma gynnwys y copi o'r llythyr a anfonodd Mr Owen atom. Nid ydym wedi newid dim.

"June 24th 1917. 40370, 14 Batt
RWF
A coy 2 Plott BEF
France

Annwyl Chwaer,

Gair neu ddau mewn atebiad i dy lythur a da genuf gael clywad eich bod yn iach fel fel ac yr wyf finau ar hun o brud, mi rwif wedi guru un llythur i John Parry ond heb gael dim yn ol eto ag i Evor Tan y Bwlch mi gefais lythur gin yr hen lank hefyd ond mi rwif heb i ateb eto, mae bod ar yr Active Service yma yn beth go bwisig ac mae yn bur anodd cael petha yn sgwar ti weli newwedig hefo Paracle ond mi rwif yn derbyn pop peth yn iawn hud yn hun. Wel does genif ddim newud i ti y tro yma ond ein bod yn cael tywud braf iawn ar hun o brud, dyma fi yn guru blodun i ti

odd ar y battle field fel y buddwn yn dyid, Wel does genif ddim eto ond mi yraf lythur i Ewirth Pen y Bwlch pan gaf gyfla ac mi rwif yn anfon fy cofion atoch i gid fel teulu Tan y Bwlch, Felin Bach Pen y Bwlch a pawb heb enwi neb.

hun yn fur a bler wddi wyrth
dy Frawd Dafudd."

Anfonodd Mr Owen atom hefyd gopi o Ffurflen y Fyddin B 104-83 dyddiedig Awst 29, 1917 yn datgan fod D.H. Davies "ar goll" - Gol.

Y GYNGRES GELTAIDD

Annwyl Olygydd,

Eleni daw'r Gyngres Geltaidd i Gymru, a chynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth, 25-30 Gorffennaf, yr wythnos cyn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Apeliwn at y Cymry twym-galon i ymuno â'r Gyngres (dim ond punt y flwyddyn yw'r tâl aelodaeth) a dyfod i Aberystwyth i gyfarfod â'u cyd-Geltaid. Bydd pobl Iwerddon, yr Alban, Llydaw, Cernyw ac Ynys Manaw yn cael eu calonogi wrth gyfarfod â phobl ifainc sy'n siarad Cymraeg yn naturiol ac yn ymhyfrydu yn eu Cymreictod. Da fyddai cael arweinwyr cymdeithas, yn athrawon, gweinidogion a swyddogion ieuencid i ymuno â ni er mwyn iddynt fedru helpu a chynghori'r rhai sy'n ceisio hybu ieithoedd lleiafrifoedd. Gwneir llawer o waith y Gyngres trwy sgysysiau anffurfiol.

Mae digon o hwyl i'w gael; trefnir teithiau, nosweithiau llawen, cynghreddau ac ar y nos Wener olaf cynhelir cyngerdd Celtaidd. Thema'r Cyngres yw Cyfathrebu. Daw Mr Owen Edwards, Pennaeth s4C i annerch ac i ddangos enghreifftiau o raglenni teledu Cymraeg. Bydd pob gwlad yn rhoi anerchiad ar ryw agwedd ar Gyfathrebu a cheir trafodaethau.

Cymdeithas ddiwylliannol yw'r Gyngres Geltaidd, a dyma gyfle i ddod i wybod am ddiwylliant y gwledydd Celtaidd a dod i adnabod y bobl. Gorau po gyntaf i chi holi ynglŷn â llety, maes carafan neu wersyll. Sgrifennwch at Mr Delwyn Phillips, 20 Stryd Newydd, Aberystwyth, Dyfel. Tel. 615509.

Yn gywir,

Mari Ellis,
4 Laura Place
Aberystwyth

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

BETHEL

DYMUNIADAU GORAU i Tony Thomas, Llys Derfel fydd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Fehefin 10, oddi wrth y ddwy nain a'r teulu i gyd ac i Tegwen Williams, Granville fydd yn 18 oed ar 28 o Fehefin.

MERCHED Y WAWR - Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Miss Mari Wyn Meredydd o Fencillech yn trefnu blodau. Cyflwynodd Miss Meredydd y blodau i'r llywydd, ysgrifennydd a'r trysorydd a hefyd gwnaeth drefniant o flodau gwyllt i Mrs Muriel Jones, Bryn Banon sy'n gwella ar ôl damwain. Diolchwyd iddi gan Mrs Elizabeth Evans, Blaen Parc ac enillwyd y raffl gan Mrs Mair Jones, Glan Gors. Y gwestwagedd oedd Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd, Mrs Hughes, Penrhos a Mrs Betty Jones Penybuarth.

Penderfynwyd casglu £1 gan bob aelod o'r gangen eleni a'i anfon tuag at gronfa bws i'r anabl yn Ysbyty'r Meddwl Gogledd Cymru yn Ninbych. Dylai hyn wneud cyfanswm o £55. Derbynnir yr arian yn ddiolchgar gan Mrs Mabel Jones, Eithinog. Hefyd anfon £10 o gronfa'r gangen tuag at ymgyrch y pwyllgor anabl o Ferched y Wawr at baratoi lluniaeth yn y Rali yng Nglynllifon.

Bydd aelodau'r gangen yn casglu o amgylch y pentref at y Spastics ac hefyd yn cynorthwyo i gasglu at yr Henoed.

Trefnir y daith ddirgel ar Fehefin 8. Bydd y bws yn cychwyn am 6.15 o Benrhos. Enwau ac arian i Mrs Mabel Jones neu Mrs Gwyneth Williams erbyn Mehefin 1af (cyntaf) yn ddi-ffael. Awgrymir i'r aelodau wisgo dillad cynnes ac esgidiau cyfforddus.

Diolchodd y llywydd i'r ysgrifennydd a'r trysorydd am eu gwaith diflino yn ystod y tymor, ac hefyd i'r pwyllgor am eu cydweithrediad. Diolch i'r holl aelodau am eu ffyddlondeb i'r cyfarfodydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Ebrill 7. Derbyniodd y gangen wahoddiad i ymuno â changen y Waunfawr a Brynrefail mewn cwis yn y Waunfawr. Cafwyd croeso ardderchog yno.

Ebrill 14. Aeth rhai o'n haelodau i Theatr Gwynedd i recordio 'Ond o ddirfi Madam Sera'.

Ebrill 21. Y gŵr gwadd yn y cyfarfod oedd Mr William Iolen Hughes, Rhiwlas. Cawsom sgwrs ar englynion a diarhebon. Diolchwyd iddo gan Mrs A.E. Williams. Dymunwyd gwellhad buan i Miss Nansi Jones, Y Berth. Enillwyd y raffl gan Miss Nansi Humphreys, Tŷ Rhos. Rhoddwyd y te gan Mrs Betty Hughes a Mrs Mair Parry y ddwy o Lanrug. Mai 19. Roedd y noson yma yng ngofal Mrs Mair Harding-Roberts

pryd y soniodd am y penderfyniadau ar gyfer y A.G.M. yn Llundain - 1) Artificial Product Embryos, 2) Hospice Care, 3) Pensiwn gweddwon, Pensiwn galwedigaethol, 4) Caniatad Cynllunio i Adeiladau Amaethyddol - pasiwyd y pedwar yn unfrydol. Diolchwyd iddi gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa. Rhoddwyd y te gan Mrs Bessie Ellis, 15 Cremlyn a Mrs Nora Parry, Caernarfon. Cydymdeimlwyd â Mrs Mary Williamsf, 39 Bro Rhos yn ei phrofedigaeth. Llongyfarchwyd Mrs Margaret Hughes, 6 Bro Rhos am fod yn nain unwaith eto.

Mai 20. Aeth rhai o'r aelodau i'r Wyl Wanwyn yn Bryn y Neuadd, Llanfairfechan.

YR YSGOL FEITHRIN - Fore dydd lau Mehefin 16 cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y neuadd i unrhyw un â phlentyn fydd yn ddwy a hanner erbyn Medi 1. Dewch i'r neuadd erbyn 10 o'r gloch, pryd caiff eich plentyn chwarae yn yr Ysgol Feithrin tra bo'r mamau'n cael sgwrs a phaned.

Mae trip yr Ysgol Feithrin eleni'n mynd i Bwllheli dydd Mercher Gorffennaf 6. Enwau mor fuan ag sydd bosibl i Mrs Lynwen Morris, Sian Robinson neu Ann Elis.

Dymuna holl famau'r Ysgol Feithrin ddiolch yn fawr iawn i bawb am y gefnogaeth ardderchog a gawsom noson y Bingo. Diolch hefyd i Mr W.G. Roberts, Llanberis a'i 'gefnogwr' ddaeth o Lanberis.

YSGOLION SUL - Mae trip ysgol Sul Cysegr yn mynd i Butlins, Pwllheli ddydd Sadwrn, Mehefin 25. Enwau mor fuan â sydd bosibl i Mr Goronwy Jones, Glan Gors. Mae trip Ysgol Sul Bethel yn mynd i Rhyll eleni eto dydd Sadwrn Mehefin 25.

YR URDD - Mae nifer dda o blant yr Urdd yn brysor ddwywaith yr wythnos yn ymarfer ar gyfer Cymanfa'r Carnifal. Mrs Ann Hopcyn yn dysgu'r canu, a Mrs Rita Williams yn gyfrifol am yr adrodd.

LLONGYFARCHIADAU i Ian a Kelvin Roberts, Bro Rhos, Islwyn a Ruth Parry, Tan y Buarth ac Angharad Elis, Cilgeran ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol. Gwobrwywyd hwy yn Nghapel Seilo, Caernarfon Mai 19. Derbyniodd holl blant y Cysegr a eisteddodd yr arholiad dystysgrifau hefyd, llongyfarchion iddynt i gyd.

DAWSWYR MORRIS - Gwnaeth Noson Goffi elw da iawn nos Wener Mai 13 i gyfrif y Genethod. Maent yn dechrau eu tymor mewn cystadleuaeth yn yr Oval Caernarfon fore Sadwrn, Mehefin 11. Bydd y bys yn cychwyn am chwarter i ddeg. Bydd gorymdaith hefyd yn cychwyn

AR EU BEICIAU - AT ACHOS DA



Nos Fawrth, Mai 24 cynhaliwyd dwy daith feicio nodedig i gasglu arian ar gyfer ymchwil i lleostomy. Trefnwyd y casglu ar ran Cymdeithas lleostomy, Adran Gogledd Cymru, sy'n dathlu 21 mlynedd o fodolaeth eleni gan Mrs E. Rowlands o Lanrug, sy'n aelod o bwyllgor y Gymdeithas.

Beicwyr Llanberis cyn dechrau eu taith 10 milltir sydd yn y llun uchod. Roedd grŵp larall yn cychwyn eu taith yn Lanrug.

Bydd Mrs Rowlands yn falch iawn o dderbyn unrhyw gyfraniadau ariannol gan ddarllenwyr yr Eco sy'n barod i gefnogi'r achos hwn. Ei chyfeiriad yw Llys Forgan, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 4498.

am 1.30 o faes parcio'r hen orsaf. Bydd y genethod yno hefyd. Dymunwn bob llwyddiant iddynt eto eleni. Fe'u hyfforddir gan Mrs Nan Owen, Berwyn a Mrs Gwenda Jones.

CYDYMDEIMLO - Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mr John H. Jones, Rhoslan a fu farw yn ei gartref Mai 10.

LLONGYFARCHIADAU i Dr a Mrs Emrys Read, Llwydiarth ar enedigaeth mab bychan, brawd i Meilir Emrys.

Y CARNIFAL - Cofiwch am y Carnifal fydd yn dechrau gyda chymanfa yng nghapel Bethel am 7 nos Sul Mehefin

26. Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu gyda rhywbeth at ddant pawb rwy'n siŵr. Mae rhaglen y carnifal eisoes ar werth, pris 25c gan gynnwys mynediad i'r cae ddydd Sadwrn. Nos Lun bydd disgo i'r plant yn y Neuadd a chwaraeon yn y cae chwarae nos Fawrth. Nos Fercher bydd bingo yn y Neuadd a Helfa Drysor yn cychwyn o'r Neuadd nos lau. Bydd rowndiau terfynol y gystadleuaeth 5 bob ochr yn y cae chwarae nos Wener gyda'r Carnifal ei hun yn cychwyn o'r cae chwarae am 1 ddydd Sadwrn.

AIL WYNT - DIOLCH I'R MERCHED

Mae Cymdeithas Merched Llanberis (Llanberis Women's Fellowship) wedi lansio yr hyn a elwir ganddynt yn 'Operation Portox'. Eu bwriad yw casglu digon o arian i brynu setiau ocsigen sy'n hawdd i'w cludo; maent yn costio £150 yr un. Bydd yr offer hwylus yma yn galluogi nifer o'r rhai sy'n dioddef ac yn gaeth i'w cartrefi i fwynhau bywyd llawnach; bydd cyfle, er enghraifft, i rai sy'n dioddef o glefyd y llwch i gael benthg set yn rhad ac am ddim os dymunant fynd i rywle am dro diwrnod (tripiau, ac yn y blaen).

Felly, cynhelir Ffair Fefus (Strawberry Fayre) ar Fehefin 25 am

2 o'r gloch y tu allan i Westy Dolafon, Llanberis. Os daw'r glaw i amharu ar bethau, yna symudir popeth i'r Ganolfan.

Bydd Cymdeithas y Merched hefyd yn cynnal Bingo Elusen gydag ymborth yng Ngwesty'r Grosvenor, Llanberis ar Gorffennaf 7. Gobeitia'r trefnwyd yn fawr y bydd y pentrefwyr yn cefnogi'r ddau ddigwyddiad yma gan mai er lles pobl lleol y'u cynhelir. Bydd croeso cynnes i bawb. Agorir y ffair gan y Cynghorydd Francis Jones, ac ynddi ceir adloniant a rhywbeth at ddant pawb, yn blant ac oedolion, ar yr amryiol stondinau.

Wil a Val Guy TREFLYN STORES BETHEL

Ffôn: Y Felinheli
670237

Stoc helaeth o ddillad plant
Legwarmers (£1.70)
Anklewarmers (95c)

Snwcer - sialc, tips
Ciws Riley - a byrddau hefyd
os dymunwch

Teganau, Diodydd, Melysion,
Bwydydd a Dafedd

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug


Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Mai 10 cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol Cangen Llanrug o Ferched y Wawr. Llywyddwyd gan Mrs Ann Llwyd Jones, llywydd y gangen. Cydymdeimlwyd â Mrs Roberts, Arwyn a'r teulu yn eu profedigaeth sydyn o colli priod, tad a thaid annwyl.

Trefnir taith ddirgel ar Fehefin 14 a disgwylir yr arian dyladwy am gludiad a bwyd erbyn Mehefin 10. Dewiswyd y swyddogion a ganlyn ar gyfer y flwyddyn nesaf: Is-ysgrifennydd: Mrs Lovatt, Is-drysorydd: Mrs Jean Roberts, Dosbarthwr y Wawr: Mrs J. Williams, Gohebwyd y Wasg: Mrs Katie Williams a Miss Megan Humphreys. Aelodau newydd ar y pwyllgor: Miss Phyllis Ellis, Mrs Beth Jones, Mrs Beryl Thomas a Mrs Menna Williams.

Difyrwyd yr aelodau ag adloniant hwyliog doniol ar ddiwedd y noson. Parti Mrs Mair Jones Ogwen yn actio Pws Meri Mew; Mrs Bethanne Williams yn adrodd stori am Mwt y Gath. Cafwyd unawd gan Mrs Menna Williams a phortread o fachgen bach yn canu Nant y Mynydd a'i fam (Mrs Margaret Parry) yn ei wyllo gyda llygaid barcud, gan Mrs Ann Llwyd Jones.

Cyfraniad Parti Penisarwaun oedd Triawd y Buarth, aelodau'r parti wedi eu gwisgo'n ddeniadol a'u symudiadau'n ysgafn a nwyfus. Y cyfeilydd oedd Mrs Lovatt. Paratowyd paned o de gan Mrs Nansi Roberts, Mrs Dorothy Williams, Mrs Jennie Williams a Mrs Katie Williams a diolchwyd iddynt gan Mrs Olwen Llewelyn. Enillydd y raffl oedd Mrs Jennie Roberts.

GENI: Yn ysbyty Bron Glais Aberystwyth ar Fai 11 ganed mab, John Glyn, i Alan ac Alison Livatt, Tremain, Llannon, Wyr bach arall i Mr a Mrs George Lovatt, Brwynog.

YR YSGOL FEITHRIN: Bu'r mis diwethaf yn un prysur iawn yn hanes yr ysgol. Tynnwyd lluniau'r plant, hefyd y grŵp 'Mam a'i Phram' gan Mr Len Jones, Cwm-y-glo. Ar Ebrill 20 gyda phawb yn cydweithio cawsom Ffair Wanwyn yn yr ysgol gynradd, a diolchwn i bawb am eu cefnogaeth arferol. Enillwyd y raffl oedd: Cyw lâr: Ceri Pierce, Caernarfon, Barrel Bisgedi: Mair Roberts, Llanberis, Pecyn Glanhau Modur: Myfi Roberts, Llanrug, Helfa Drysor: Nancy Jones, Tanycoed. Enw'r ddol: Morfudd Jones, Llanrug (Mair oedd ei henw).

Cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol yn yr ysgol gynradd ar Ebrill 28 gyda Mrs Olwen Rees Jones, Swyddog Deintyddol Arfon yn sgwrsio am bwysigrwyd ein dannedd a'r fwydlen ddyddiol.

Mwynhaodd pawb luniaeth ysgafn. Cafwyd sylwadau gan Mrs Ceinwen Davies, Trefnydd Arfon a Môn am uchafbwynt yr Wyl Feithrin ym Mharc Eirias yng nghwmni enwogion Cymru a'r arddangosfa yn y llyfrgell ym Mangor. Trefnwyd bws gyda Llanberis i leihau'r costau i Fae Colwyn. Cafwyd diwrnod blinedig ond llawn hwyl a sbri i'r plant yng nghwmni Superted, Wil Cwac Cwac a Mabon gydag Edward yn canu tra bwytai pawb eu picnic. Gresyn iddi droi'n law, ni chafwyd gorymdaith y plant yn eu mygydau ar thema Arch Noa.

CYMDEITHAS CHWIORYDD Y CAPEL MAWR: Nos lau, Mai 5 cynhaliwyd Noson Goffi yn y festri. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Nansi Roberts, Manod. Anfonwyd cofion at chworydd oedd yn absennol oherwydd gwaeledd a llesgedd. Diolchwyd am roddion mewn arian a

nwyddau. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Myfi Roberts, Tai Plastirion a Mrs Gaynor Williams, Penterfyn. Diolchwyd iddynt gan Mrs Nansi Roberts. Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor.

CLWB BLODAU'R GRUG: Cyfarfu'r clwb yn y Sefydliad Coffa ddydd lau, Mai 12. Cydymdeimlwyd â dau o'n haelodau oedd wedi cael profedigaeth o golli eu priod yn ystod y mis, sef Mr Richard Owen, 1 Rhos Rug a Mrs A.M. Roberts, Arwyn.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Lola Butler ar ôl triniaeth lawfeddygol ac i Miss Mary Jones, Y Fedwen a gafodd ddamwain.

Y gŵr gwadd oedd y Rhingyll Eifion Jones o Heddlu Gwynedd a chafwyd araith addysgiadol a defnyddiol ganddo ar ddiogelu tai a gwahanol agweddau eraill o bwys i bensiynwyr a rhai yn byw ar ben eu hunain. Diolchwyd iddo gan Mr Orwig Roberts ac eiliwyd gan Mr Ifor Williams. Rhoddwyd y te gan Miss Roberts, Y Fron, Mrs Griffiths, Fron Ganol a Mrs Orwig Roberts, Elidir View. Enillwyd y raffl gan Mr Orwig Roberts.

HAFAN ELAN: Nos Fawrth, Mai 17 treuliodd nifer o'r ardalwyr noson ddifyr yn Theatr Gwynedd yn gweld recordio rhaglen deledu gyda Trebor Edwards a Margaret Williams yn brif artistiaid. Gellir gweld y rhaglen ar S4C nos Sadwrn, Mehefin 25. Trefnwyd y noson gan Mrs Dilys Jones (Warden), 18 Hafan Elan a diolchwn iddi am ei llafur i sicrhau noson lwyddiannus.

EGLWYS SANT MIHANGEL: Cynhaliwyd Festri'r Pasg yng Nghanolfan Hafan Elan yn ystod y mis. Ail-etholwyd y wardeiniaid sef Mr Arthur Jones, 18 Hafan Elan a Mrs Elizabeth Jones, 11 Bryn Moelyn. Etholwyd y canlynol o'r newydd ar y Cyngor Plwyfol Eglwysig sef Mrs Joyce Jones, Mrs Margaret Jones, Mrs Dilys Jones, Mrs Frank Jones, Mr Barlow a Mr Cledwyn Williams.

Diolchodd y Rheithor i'r plwyfolion, am eu croeso a'u cefnogaeth er pan ddaeth i blwyf Llanrug.

Cafwyd adroddiad pensaer, bydd y gost o atgyweirio'r eglwys oddeutu £16,000.

Derbyniwyd gwahoddiad y Pwyllgor Carnifal i gynnal Noson Goffi a Disco yn ystod yr wythnos garnifal a'r elw tuag at gronfa'r eglwys. Cynhelir Noson Goffi nos Lun, Mehefin 20 a'r Disco nos Fercher, Mehefin 22.

Y SEINDORF: Cynhaliwyd y gystadleuaeth unawd a phedwarawd flynyddol yn yr Ysgol Gynradd ar Fai 17. Mr F. Flynn, Rhos on Sea oedd y beirniad a'r cyfeilyddion oedd Mrs Mair Hughes a Mrs Carys Jones. Cyflwynwyd y gystadleuaeth gan Mr Emyr Jones o Gaernarfon.

Dyma'r canlyniadau: Unawd agored: 1. Christine Leggett, 2. O. Glyn Hughes, 3. Gareth W. Hughes. Dan 16: 1. Berwyn Owen, 2. Arwyn Roberts, 3. Dyfed Jones. Dan 19: 1. Christine Leggett, 2. Kevin Richardson, 3. Lesley Williams. Dan 12: 1. Sian W. Jones, 2. Paul Hughes, 3. David Jacobs. Air Varie: 1. Christine Leggett, 2. Gareth W. Hughes, 3. James Jones.

Deuawdau 1: Gwyrfaï ac Elfyn Williams. Pedwarawd neu 'Ensemble' - Wythawd sef Gwyrfaï ac Elfyn Williams, John Tame, Gareth W. Hughes, Raymond Jones, O. Glyn Hughes, Christine Leggett, Reg Moon. Enillwyd y pontwn oedd Mrs Myfanwy Jones, Pontrhythallt a Miss Joan Hughes, Hen Golwyn.

MARW: Yn ysbyty Eryri Caernarfon, yn 85 oed, bu farw Mrs Ann Mary Owen, 1

Rhos Rug. Cydymdeimlir yn ddiffuant â'i phriod, Mr Richard Owen, ei meibion a'i merched a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Bu farw Mr John Elwyn Roberts yn ei gartref, Arwyn, Ffordd Glanmoelyn ar Fai 4. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Mrs A.M. Roberts, ei fab Gareth, ei ferch Ann a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs Betty Hughes, 1 Gorffwysfa yn ei phrofedigaeth o golli chwaer, Mrs M. Griffith, Caernarfon a Mrs Gaynor Williams, Penterfyn ar farwolaeth ei chwaer, Mrs Edith Williams, Penrhosgarnedd. Hefyd Mr John Wyn Owen, Llain y Delyn ar farwolaeth ei frawd, Mr R.B. Ellis, Y Rhyl.

MARW: Cyn-Rheithor Llanrug: Dydd Llun, Mai 23 daeth tristwch mawr i ardal Llanrug a Chwm-y-glo gyda'r newydd am farw annisgwyl y Parch D. Gwynfor Williams, Rhosneigr a fu'n reithor yn ein plith am nifer o flynyddoedd hyd ei symudiad i Ynys Môn ychydig dros flwyddyn yn ôl. Gŵr a'r hen Sir Feirionnydd ydoedd. Treuliodd ei ieuencid yn ardal oedd Llanfrothen a Thanygrisiau Ffestiniog. Ar ôl gadael yr ysgol bu'n gweithio mewn amryw o leoedd cyn iddo fynd i Goleg Harlech i baratoi ei hunan ar gyfer yr offeiriadaeth yn yr Eglwys yng Nghymru. Aeth ymlaen o Goleg Harlech i Goleg y Brifysgol Bangor lle graddiodd yn B.A. Ar ôl iddo gwblhau ei gwrs mewn Diwinyddiaeth bu'n Gurad ym Mhorthmadog a Chaernarfon cyn iddo ddod yn Reithor Llanrug a Chwm-y-glo. Rhoddodd wasanaeth teilwng i'r ardal ac yn arbennig i Eglwys St Mihangel Llanrug a St Gabriel Cwm-y-glo. Gwnaeth le cynnes iawn iddo ei hun yng nghalonau ei blwyfolion a thrigolion yr ardal o bob enwad; ac y mae hiraeth mawr ar ei ôl yng nghalonau'r rhai a gawsant y f raint o'i adnabod ac i gydweithio ag ef. Yr

oedd yn gerddor da, yn ganwr swynol ac yn holl o ganu'r piano a'r delyn. Ein cysur yw sylweddoli fod ein hannwyl frawd bellach yng nghwmni'i waredigion yn clodfod i dragwyddoldeb yr Arglwydd a wasanaethodd mor gywir yn ystod ei arhosiad ar y ddaear. Cydymdeimla ardal gyfan â'i wraig a'i fam yn eu trallod. Gweddiwn am i'r Arglwydd eu nerthu a'u cysuro ym mhob modd.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - Cynhaliwyd pwyllgor o'r Gymdeithas Undebol nos lau Mai 12 i drefnu rhaglen ar gyfer tymor 1983-84. Bydd y daith hanesyddol i ardal Ffestiniog Mehefin 11, gyda'r Parch W.O. Roberts yn arwain. Enwau i law yr Ysgrifenyddes, Mrs E.W. Thomas erbyn dydd Sadwrn, Mehefin 3.

MAES LLAFUR - Gwobrwyd y plant canlynol o Ysgol Sul Pontrhythallt, am ddysgu'r Maes Llafur, yn y Maes Llafur: Kevin a Martin Davies, Gwion a Rhodri ap Llwyd, Catrin a Dyfed Thomas, Judith a Delyth Jones, Iwan Llŷr, lolo Griffith, Sharon Thomas, Barry a Jean Roberts, ac yn adran yr oedolion: Miss Anne Cullen, Mrs E.W. Thomas a Mrs M. Lloyd Williams.

ALUN YN GALW - Clywyd llais un o blant Pontrhythallt ar y rhaglen Alun yn Galw, fore dydd lau, sef Mr Eric Green, gynt o'r Pandy. Mae ef wedi ymgartrefu yn yr Iwerddon ers rhai blynedd, a hyd ei ymdeoliad yn gweithio fel saer maen. Croesawyd ei frawd Idris i'r ardal yn ddiweddar. Mae ef yn cartrefu yn Kent.

PENCAMPWYR Y SEINDORF



Sian W. Jones - enillydd dan 12 oed



Berwyn Owen - enillydd dan 16 oed



Christine Leggett - enillydd tair adran

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF ATGYWEIRIO TAI GWAIR

E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

DYDDIADAU I'W COFIO

Gorffennaf 1-9: Wythnos Garnifal Waunfawr
Gorffennaf 3-9: Wythnos Garnifal Deiniolen
Gorffennaf 8-16: Wythnos Garnifal Llanberis
Gorffennaf 2: Triplau Ysgolion Sul Llanberis
Triplau Ysgolion Sul Penisarwaun 'Pesda Roc' ar Faes Rygbi Bethesda
Gorffennaf 7: Bingo Elusen dan nawdd Cymdeithas y Merched yng Ngwesty'r Grosvenor
Gorffennaf 8: Bingo a Llanuaeth er budd 'Muscular Dystrophy' yng Ngwesty'r Gwynedd
Gorffennaf 23: Helfa Drysor Cangen Plaid Cymru, Deiniolen
Gorffennaf 24-30: Wythnos Garnifal Cwm-y-glo

Ffiniau'r Gorffennol

CYMRU LOS ANGELES 1946

Awn am dro heddiw i Los Angeles a chawn ddigon o hanesion am Gymry Califfornia er stalwm. Dewi Jones, gynt o Gwm-y-glo anfonodd yr hanesion canlynol i fy nhad yn 1946. (Gwêl Herald 1af Ebrill 1946)

Meddai fy nhad, "Derbyniais record gramaffon o lais Dewi Jones yn canu emyn 'Williams Panycelyn'. "Pererin wyf mewn anial dir," ar y dôn, 'Gwinllan' a chyn dechrau canu cyflwynu'r datganiad er cof am hen gyfeillion ymadawedig Bro Eryri. Ar y tu arall i'r record y mae pedwarawd, sef Dewi Jones (First Tenor), Joseph Williams Ffestiniog (Second Tenor, Ellis Williams, Cwm-y-glo (First bass), David Pritchard, Cwm Penmachno (Second bass), yn canu "Clychau Aberdyfi" o drefniant yr hen gerddor Ap Madog. Mrs Joseph Williams sy'n cyfeilio sef Priscilla, merch Mr a Mrs Dafydd Owen o'r Waunfawr gynt, yr adroddwr penigamp, a chred Dewi Jones ei fod yn hanner brawd i'r diweddar Richard Morris (Dic Môr) - y canwr penillion enwog o'r Waunfawr gynt, fel y'i cofir. Cantorion gwyh yw'r tri chyfaill arall yn y record hefyd. Yng nghartref Mr W.D. Lewis y gwnaed y record hon, fel gwaith cartef, brodor o Benrhyndeudraeth yw Mr W.D. Lewis, y mae ef yn unawdydd, canys gwelaf ei enw yn canu unawd yng nghyngerdd Gwyl Dewi a

gynhaliwyd yng Nghapel Cymraeg y Presbyteriaid Los Angeles. Y cadeirydd oedd y gweinidog sef y Dr Parry gynt, o Benrhyndeudraeth. Yr oedd parti o Gymry'n canu yno dan arweiniad Gwilym Isaac. Enwau eraill a wasanaethai yn y cyngerdd oedd: Unawd Megan Peris Williams, a'i phriod, Mr Rees Williams, gyda hi'n canu deuawd. Brodores o Lanberis yw Megan Peris, merch y diweddar John Hughes. Canai hi "O na byddai'n haf o hyd." Canai Dewi Jones "Hen Wlad Fy Nhadau" a chanai Harriet Taylor "Bwthyn yr Amddifad". Enwau eraill ar y rhaglen oedd Mrs Marietta McCoy; Trefor Thomas; Howell Wyn Jones; Owen Thomas; Marion John Henderson; William Ellis James a Mrs Griffith. Mrs W.M. Roberts oedd yn gwneud te iddynt.

Yr oedd Dewi Jones yn fardd ac yn llenor. Ef oedd yn ysgrifennu'r golofn adnabyddus a phoblogaidd "O Fro'r Efyngyl" i'r 'Drych' bob wythnos bron, ac felly yr oedd mewn mantais i adnabod a chael hanes llawer o'r cymry oddi cartref. Ymfudodd Dewi Jones i'r Taleithiau oddeutu dechrau'r ganrif hon. Brodores o Odrau Mynydd Hiraethog oedd ei briod. Yr oedd ganddynt ddau fab.

Mewn llythyr arall, dywedodd Dewi Jones, "Gwelsom amryw o blant yr hen fro wedi dod ynghyd i'r Capel Cymraeg i ddatlu Gwyl Dewi Sant; yn eu plith yr oedd Morris D. Parry, Tŷ Beili, Nant Peris gynt, sef

brawd y cerddor David Parry, Llanrwt yn edrach yn dda. Hugh Jones brawd Mr Tom Jones, Sycharth, Bontnewydd, o Gwm-y-glo gynt neu'r "Cwm 'Cw" chwedl yr hen drigolion. (Enw cartref Owain Glyndŵr oedd Sycharth.) Un arall a welsom yn y cyngerdd oedd Hugh Morris, Y Fachell ac amryw o Lanberis, Deiniolen, Waunfawr, Dinorwig a Phenygroes, Llanllyfni etc. Y mae William D. Jones (Wil Alis) y reidiwr beic enwog hwnnw o Fethel gynt, mewn amgylchiadau cysurus yng Nghanada meddir: ond cwyno y mae Owen Hughes (Glasgoed) yng Nghanada.

Bu Mrs Wright, gwraig Richard Williams gynt o'r Waunfawr, a'i merch Frances yn edrych am Gymry Canada rai hafau yn ôl, gan dystio eu bod yn gysurus eu byd yno. Y mae Griffith Evans, brawd Kate o'r Waun, yn byw yn agos atom yma: cymeriad doniol yw ef.

Sut y mae John Owen Pant Defaid ac amryw eraill o hogiau'r Waun, a oedd yn gweithio yn y Glyn gynt?

Cofiaf yn dda am hen gylchwyliu Eryri gynt, lle y byddai cystadleuaeth ar ganu i rai dros

hanner cant oed. Gwared y gwirion! Ychydig feddyliwn y pryd hwnnw y buaswn yn canu fy hunan dros drigain oed." Yr eiddoch - Dewi Jones.

Y LLONG NAPOLEON

Darllenais hanes gwthio llong o'r enw 'Napoleon' i'r môr yng Nghaernarfon rhyw ganrif yn ôl. Enw'r capten oedd William Thomas. Pregethodd y Parch William Williams (Caledryn), gweinidog gyda'r Annibynwyr ar fwrdd y llong cyn ei gollwng i'r dŵr. Ei destun oedd Deut 33, 18-19. Wrth fedyddio a lansio'r llong adroddodd Caledryn englyn o'i waith ef ei hun, fel y canlyn:

Y don na wged dani, - na chwerwed
Mellt na chorwynt wrthi:
Sêr a lloer wrth groesi'r lli,
Tyner y bônt ohoni.

Caledfryn

ER COF

Fy mam yn y nef mae hi - onid e
Un fam nid aeth iddi:
A gweld hon yno'n heini
A fydd ddarn o'm nefoedd i.

Llyfni Huws

CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR: Cawsom sgwrs hwyliog a diddorol iawn gan Mr R. Gordon Williams yng nghyfarfod mis Ebrill ar ei ymweliad â Siena fel aelod o Gymdeithas Cyfeillgarwch Cymru a Sieina. Diolchwyd iddo gan Miss Mat Pritchard. Rhoddwyd y te gan Mrs Ifanwy Jones a Mrs Heulwen Evans.

Hanes Crair a Thrysor amryw o'r aelodau a gawsom ym mis Mai ac aeth y straeon difyr â ni o Gwm Glas i Yalta ac o Madeira i'r Clegir, gyda chipolwg ar deulu Siôr IV a holi hanes hen, hen gwpan. Treuliwyd noson bleserus dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones a gobeithio y bydd modd trefnu yr un math o noson rywbyrd eto.

Mrs Watkins a Mrs G. Chick a roddodd y te a gwobr y raffl a enillwyd gan Mrs Margaret Williams. Geobeithir trefnu Trip Dirgel erbyn mis Mehefin. Pasiwyd i gael stondin amrywiol yn y Carnifal ddiwedd mis Gorffennaf.

CARNIFAL: Mae'r Carnifal i'w chynnal yn y cae chwarae pnawn Sadwrn, Gorffennaf 30 ynghyd â Ffair Stondinau wedi eu trefnu gan y gwahanol fudiadau. Cynhelir Cymanfa Ganu yn y Tabernacl nos Sul, Gorffennaf 24 ac yn ystod yr wythnos bwriedir cael Helfa Drysor nos Fercher ac Ymryson Dartiau nos lau. Bydd rhaglenni gyda mwy o

fanylion ar gael yn y Cwm ymhellach ymlaen.

CLWB POBL Y CWM: Croesawyd Mr R. Ellis o Gaernarfon, sydd yn Is-lywydd Cymdeithas Henoedd Arfon i'r Clwb pnawn lau, Mai 5ed gan y llywydd. Bu Mr Ellis ar ei wyliau yn Ne Affrica yn ddiweddar, a chawsom sgwrs ddiddorol ar ei daith yno, ynghyd â sleidiau yn dangos amrywiol olygfeydd. Diolchwyd iddo gan Mr H. Pritchard, Bryn Gwynedd.

Rhoddwyd y te gan Mrs Williams, Pantafon a Mrs Roberts, Bryngro, a'r raffl gan Mrs Pritchard, Bryn Gwynedd.

Yn y cyfarfod dilynol rhoddodd Mr R. Roberts, Bryn Gro sgwrs ynghyd â sleidiau o wahanol leoedd lle bu ar ei wyliau, a hefyd rhai lleol. Diolchwyd iddo gan y llywydd. Croesawyd Mrs R.H. Parry yn aelod newydd o'r Clwb. Rhoddwyd y te gan Miss E. Davies, Noddfa a Mrs E. Jones, Seiont House a'r raffl gan Mr R.H. Parry. Enillwyd y raffl gan Mrs Jones, Nant y Mynydd. Bydd pleserdaith blynyddol y Clwb yn ymweld â Bae Colwyn a'r cylch ddydd lau, Mehefin 16.

CEFNOGWCH

EIN

HYSBYSEBWYR

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

LLANBERIS

Gohebydd – Mrs Siân Thomas, Tŷr Ysgol, (Llanberis 870220)

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Peris Thomas a Mrs Katie Williams.

Darllenwyd llythyrau oddi wrth nifer o fudiadau a'u trafod. Cafwyd Ffair Prynu a Gwerthu, ac enillwyd y raffl oedd Mrs Gwen Edwards, Mrs Katie Morris, Mrs Arfonia Evans a Mrs Netta Jones.

Fel canlyniad i drafodaeth rhwng yr Heddlu a'r Cyngor Cymuned, daeth Sgt Owen, pennaeth Adran Llanberis o'r Heddlu, atom, a chafwyd trafodaeth ddifyr iawn ar broblemau lleol – yn enwedig problem y defaid yn y gerddi a'r ffyrdd. Teimlai'r aelodau fod atebion Sgt Owen i'w cwestiynau wedi bod yn help ac yn gysurlawn iawn iddynt.

Diolchwyd i Sgt Owen, a'r gwestwagedd am y noson sef Mrs A.B. Jones, Mrs Hannah Jones, Mrs Netta Jones a Mrs Arfonia Evans gan Mrs M.E. Owen.

Bu amryw o'r aelodau yn ymweld â Gorsaf Drydan Dinorwig ac ar Fai 26 bu Mr Oswyn Rees o Gaernarfon yn egluro'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwir fwynhawyd ei araith yn fawr iawn.

CYMANFA FLYNYDDOL YR ANNIBYNWYR:

Ar y Sul olaf o Ebrill cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Llanberis, Cwm-y-glo, Penisarwaun a Deiniolen. Eleni tro Capel Nant Padarn ydoedd gwahodd y Gymanfa, ond nid oedd yn bosibl ei chynnal yn y Ffestri, ni fuasai lle yno, felly trwy garedigrwydd cyfeillion Jerusalem cynhaliwyd Gymanfa Nant Padarn yng Nghapel Jerusalem.

CYFARFOD Y PLANT: Yn y prynhawn cynhaliwyd Cyfarfod y Plant, gyda Mrs Meira Bryn Hughes, Y.H. yn llywyddu. Arweinydd y Canu yn y prynhawn a'r nos oedd Mr John Jones o Ddeiniolen, a Mr Robert Lloyd wrth yr organ.

Agorwyd y gwasanaeth gan Darryl Griffiths a pharti Cyd-adrodd o Ysgol Sul Nant Padarn.

Rhwng yr emynau cafwyd cyfraniadau gan blant Ysgolion Sul Jerusalem, Bosrah ac Ebenezer.

Y casglyddion oedd Bryn Roberts, Geraint Thomas, Neil Owen a Darryl Griffiths.

GWASANAETH Y NOS: Llywyddwyd gan y gweinidog – y Parch Hugh John Hughes, a chyflwynodd y darlenniad a'r weddi i agor y gwasanaeth.

Gwir fwynhawyd cyfraniad 'Lleisiau Eryri' a'r ddeuawd gan Rhiannon Pritchard ac Amanda Sellars – gyda Mrs Ann Pritchard yn cyfelio a Mr Gwyn Williams gyda'r cornet. Cafwyd noson o ganu brwdfrydig a bywiog iawn a mynegodd yr arweinydd, Mr John Jones, ei ddiolch i bawb am y mwynhad a'r pleser a gafodd gyda'r plant a'r oedolion.

Cyflwynwyd y diolchiadau i bawb gan y gweinidog a'r fendith gan y Parch Trefor Lewis o Ddeiniolen.

UNDEB Y MAMAU: Ar Ebrill 12 cyfarfu aelodau o Eglwysi Sant Peris a Sant Padarn dan arweiniad y Parch A.W. Cherry. Y gŵr gwadd y mis hwn oedd y Parch Aled Edwards, Penisarwaun a mwynhawyd araith ar 'Alcoholiaeth'. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Nancy Jones, Nant Peris. Rhoddwyd y te gan Mrs Denness Hughes, Mrs E. Jones, Mrs Pugh a Mrs T. Lloyd Evans. Diolchwyd iddynt gan Mrs Nellie Roberts a Mrs Cheesman. Bydd y trip blynyddol yn mynd i'r Amwythig ar Fai 17.

Ar ddechrau Mai cynhaliwyd

gwasanaeth i'r aelodau gan y Parch A.W. Cherry. Y gwahoddedigion oedd y Canon R.D. Roberts a'i briod, pryd y cafwyd darlith ddifyr iawn ar ganeuon gwerin a hen alawon Cymreig, a bu ei briod yn canu yr alawon swynol. Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Nancy Jones, Nant Peris. Rhoddwyd y te gan Mrs Cheesman, Mrs Agnes Owen, Mrs W.H. Parry a Mrs Jane Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Nellie Robert a Mrs T. Lloyd Evans.

LLWYDDIANT GYDA'R PIANO:

Llongyfarchiadau i'r plant a ganlyn ar eu llwyddiant yn arholiadau canu'r piano: Gradd 3: Vera L. Jones, Nia Williams; Gradd 4: Alison Povey, Hannah V. Rudkin, Gradd 6: Einir Parry, Gradd 7: Bethan W. Jones. Damcaniaeth – Gradd 2: Leri Gwennan, Gradd 3: Cheryl Edwards, Jane V. Parry, Helen M. Pritchard, Catrin Lloyd Roberts, Gwenno Parry, Jennifer Ellis, Ffion Jones. Gradd 4: Lisa L. Rudkin.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir cydymdeimlad â Mr Ted Thomas, Pant Du o golli ei chwaer rai wythnosau'n ôl. Roedd wedi symud i fyw ers blynyddoedd bellach i Lerpwl, lle y bu farw.

Hefyd ein cydymdeimlad â Mr R. Ellis Williams, Rhes y Faenol sydd wedi colli brawd yng nghyfraith yn Llanrug a Danny a Stanley Roberts a Selwyn Hughes hwythau ewythr.

Ychydig ddyddiau'n ôl cafodd Mrs Nancy Rowlands, Stryd y Dŵr wybodaeth am farwolaeth ei chefnider ym Mhorthmadog.

JUDO: Yn y cystadlaethau Judo a gynhaliwyd yng Nghaergybi yn ddiweddar enillodd Maxine, merch Mr a Mrs Meirion Thomas, Lôn Tŷ Du yr ail safle yn ei dosbarth a derbyn y Fedal Arian.

Derbyniodd ei chaer, Michelle, anrhydedd a chlod uchel iawn am safon ei gwaith yng Ngholeg Addysg Bellach, Llandrillo. Bydd yn cwblhau ei chwrs yn y coleg ar ddiwedd y tymor yma. Dymunir iddo bob llwyddiant.

CLWB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol aelodau Clwb y Mamau Ifan yn y Ganolfan. Cafwyd adroddiad o waith y flwyddyn a phenodwyd swyddogion newydd – Llywydd: Mrs Moray Roberts, Newton Hall, Ysgrifenyddion: Mrs Mary Lynne Carr a Mrs Mona Williams. Trysorydd: Mrs Dilys Roberts, Stryd y Ffynnon.

MARWOLAETHAU:

Miss Olwen Davies: Mai 2, dydd ei phen-blwydd yn 99 mlwydd oed, bu farw yr hynaf o drigolion ardal Llanberis. Miss Olwen Davies oedd hi, merch hynaf a'r olaf o blant y diweddar John ac Elisabeth Davies, Bon Marche Llanberis.

Bu hi a'i rhinei o'i blaen yn cadw busnes am flynyddoedd maith – ond pan oedd yn ifanc ym Mhant Cafn yr arferent fyw. Cofiai am y teuluoedd oedd yn byw yn y tyddynnod a'r gymdogaeth agos – a chofiai dai Gwaun Cwm Brwynog – pob un â theulu'n byw ynddynt. Arferai hi a'i rhieni fynd i Gapel Jerusalem ond pan symudodd y teulu i Goed y Ddôl dyma ymaelodi yn y Capel Newydd – yr oedd Jerusalem yn fam eglwys iddo – Capel Nant Padarn. Yno y bu'n aelod am weddill ei hoed.

Chwarelwr oedd ei thad ac yna pan aethant i fyw i'r Stryd Fawr dechreuodd ei fusnes ei hun. O'r Gaerwen ar y llaw arall, mewn tyddyn bychan ym Mhenre' Berw y daeth ei mam. Oddi yno cerddai ei thaid a'i hewyrth i'r Felinheli bob bore Llun ac aros yn y barics yn Chwarel Dinorwig weddill yr wythnos. Byddai wrth ei bodd yn

dweud amdanynt fel plant yn mynd â bara i'w thaid i fyny i'r barics – a chymaint hwyl a gaent. Byddai weithiau yn sôn am fywyd ysgol a'r hyn a wnaent – a'r cyngherddau ysgol a gynhelid i godi arian.

Yn ystod y cyfnod hir y bu fyw gwelodd newidiadau mawr yn y pentref. Medrodd, fodd bynnag, ei haddasu ei hun i'r newydd – mwynhau gwrandao ar y radio a gwyllo'r teledu, ond mynych y dywedai bod yr hen gymdeithas yn llawer gwell – pan oedd y teulu'r siarad â'i gilydd ac yn gwneud eu difyrrwch eu hunain – a'u gweithgareddau eu hunain ganddynt. Peidiodd y capeli â bod yn ganolfannau cymdeithas – ac yn eu sgîl y Gymraeg yn gryf a chadarn – ond parhaodd ei diddordeb yn ei chapel hyd y diwedd.

Bu Miss Davies yn ffodus iddi fedru deall a medru gwneud drosti ei hun am flynyddoedd, ac hyd rhyw ddwy flynedd yn ôl dalai i gymryd diddordeb. Yna daeth byddardod a dallineb a gwneud ei bywyd yn ynysig a llawer mwy unig. Cafwyd gwasanaeth ddydd ei hangladd yn Nant Padarn, y capel y meddyliai cymaint ohono, a'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Claddwyd ei gweddillion yn yr un gladdfa â'i rhieni a'i chwaer a'i brawd ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Mrs Elizabeth Ellen Williams: Mai 7 yn un o ysbytai Wrecsam, bu farw Mrs Elizabeth Ellen Williams, Rhes y Faenol. Gweddwyd i'r diweddar Evan Williams (Evan Dre') ydoedd ac roedd hi yn fwy adnabyddus fel Mrs Evie Williams. Bu'n byw ers amser gyda'i chwaer yn y Bala, ond bwriad y ddwy ydoedd dod yn ôl i'r ardal hon ac roedd cartref Mrs Evie Williams wedi ei ad-newyddu yn barod am eu dyfodiad yn ôl.

Roedd yn elod ffyddlon iawn yng Nghapel Nant Padarn, a bu'n weithgar eithriadol â Chlwb yr Henoed, yn aelod o'r pwyllgor ac yn ysgrifenyddes.

Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Llanbeblig ar Fai 11 – pryd y gwasanaethwyd gan y Parch John Pritchard, Abersoch, bachgen a godwyd yn Nant Padarn. Cynrychiolwyd yr Eglwys gan Mr Eurwyn Jones, Delfryn. Cydymdeimlir â'i chwaer a'r teulu yn eu galar.

DATHLU JIWBILI: Mis i ddathlu blwyddyn Jibili Cadlanciau Sant Ioan yng Nghymru fi mis Mai. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau yn yr ardal i blesio chwaeth pawb, hen ac ifanc. Nos Sadwrn, 23 trefnwyd Barbeciw yn y Ganolfan gyda'r Seindorf leol yn diddori'r dorf.

Nos Lun yn y Ganolfan cynhaliwyd Gyrfa Chwist.

Dydd Mawrth 24 cafwyd hwyl gyda Helfa Drysor yn cychwyn o Ysgol Dolbadarn dan arweiniad y Prifathro, Mr John Hugh Hughes.

Trefnodd Mr Gwilym Evans ddisgo yn Neuadd yr Ysgol i'r plant lleiaf ac yna i'r plant hynaf ar y nos lau. Cafwyd amser hapus iawn gan yr oll o'r plant. Yng nghwesty Dolbadarn cynhaliwyd Bingo.

CABARE: Bu noson hwyliog iawn yng Ngwesty Erw Fair nos Wener 14 pan y trefnwyd Cabare gan Hogia'r Wyddfa a rhai aelodau o'r Cwmni Drama Lleol. Daeth cynulliad da yno a phawb wedi mwynhau'r noson ac yn holi pryd y byddai noson gyffelyb yn cael ei threfnu.

LLONGYFARCHIADAU: i Gwenda a'i phriod Ray Harding, Min y Coed, ar enedigaeth geneth fach, Siân, chwaer fach i lwan.

Llongyfarchiadau i Lal a Heulwen ar fod yn daid a nain am yr eildro.

CLWB YR HENOED: Yn y Te Bach a drefnir ar gyfer aelodau Clwb yr Henoed ar bnawn Gwener,

penderfynwyd y byddai'r trip eleni yn mynd i'r Rhyl, dydd Sadwrn Mehefin 18, i gychwyn am 12 o'r gloch. Disgwylir i bob aelod anfon ei enw i'r ysgrifennydd neu un o'r pwyllgor.

YN YR YSBYTY: Mae nifer fawr o'r trigolion yn cwyno, ac nid yw'r tywydd gwlyb ac oer wedi bod o ddim help iddynt i wella. Mae amryw wedi eu symud i'r ysbty. Dymunir adferiad buan i'r cyfan, y rhai sydd gartref ac yn yr ysbty. Ym Mangor, Ysbyty Môn ac Arfon y mae Mr Hugh Owen, Maes Eilian, Mr Owen Davies, Stryd yr Wyddfa, yn St David's mae Mrs Edith Hughes, Cadfan, Stryd Goodman. Wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen y mae Mr Bob Owen, Coed Mawr ac yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Mr Robert Hughes, Lôn Padarn. Yn Ysbyty Walton Lerpwl y mae Kenneth Roberts, Stryd Goodman. Deallwn fod Mrs Martin Owen, Gwynfryn wedi disgyn yn ei chartref – brysiwch wella, Mrs Owen.

PWYLLGOR CYHOEDDUS LLANBERIS:

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus yn Y Ganolfan nos Lun, Mai 16 gan Bwyllgor Cyhoeddusrwydd Llanberis i drafod a cheisio cynllunio dulliau newydd os yn bosibl i ddenu trwmiaid i'r ardal. Llywyddwyd gan Mr Tom Jones, Stryd Newton. Cyflwynodd yr ysgrifenyddes Mrs Sue Lowe, Tyddyn Gadlas adroddiad llawn o weithgareddau'r flwyddyn.

Cafwyd trafodaeth helaeth ynglŷn â'r Bamffled a argraffwyd i roddi gwybodaeth i'r ymwelwyr am yr ardal a'r manau diddorol iddynt ymweld â hwy. Penderfynwyd argraffu mwy o'r pamffledi eleni, a sichrau fod aelodau o'r pwyllgor yn dosbarthu'r cyfan ymhell ac agos er rhoddi cyhoeddusrwydd i Lanberis.

Bu'r Pwyllgor Gwaith yn cynllunio arwyddion dwyieithog i'w gosod mewn manau amlwg ar gwr y pentref. Fe anfonwyd copiau o'r cynllun i Gyngor Bwrdeistref Arfon ac i Dafydd Wigley, yr Aelod Seneddol.

Rhoddwyd ystyriaeth i gwynion y pentrefwyr am flerwch y strydoedd, a dywedodd yr ysgrifenyddes fod Cyngor Arfon yn gwneud darpariaeth ar gyfer glanhau'r strydoedd.

Hefyd derbyniwyd cwynion y pentrefwyr at y difrod a wneir gan y defaid sydd yn crwydro drwy'r gerddi yn ystod y nos.

Ychwanegwyd tri aelod newydd ar y pwyllgor sef Mr Vernon Hughes, Beech Bank, Mr Dei Tomos, Ty'n Twll, Nant Peris a Mr Aneurin Jones, Gwesty Dolbadarn.

DIOLCH: Dymuna Mrs Nellie Roberts, Noddfa, Stryd Fawr ddiolch yn fawr iawn i'r llu cyfeillion am y rhoddion a'r cardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty'r Bwth Caernarfon.

BRENHINES Y CARNIFAL 1983:

Sharon Prydderch yw'r frenhines gyda Carys Wyn Owen yn gweinyddu arni gydag Olwen Harris. Derfel Owen fydd yn cario'r goron.



LLANBERIS (Parhad)

YR ECO YN PAKISTAN: Pwy fuasai'n meddwl am ddwy o enethod Llanberis yn cyfarfod â'i gilydd ac yn cyd-ddarllen 'Eco'r Wyddfa' yn Rawalpindi Pakistan? Dyna'n union fel y bu hi. Rai misoedd yn ôl cafodd priod Meira, merch Mrs Lowrie Davies, Maes Derlwyn swydd bwysig fel pennaeth adran iechyd yn Rawalpindi. (Bu Doctor Agah yn feddyg ym Mangor fel y gwyr amryw ohonom lle y cyfarfu â'i briod). Ddechrau'r mis fe symudodd Janet, merch Mrs Maud Burford, Tai Plastirion gyda'i phriod sydd yn gweithio gyda'r Cenhedloaedd Unedig i Pakistan - a dyna groeso gafodd y teulu yng nghartref Meira. Bydd Mrs Lowrie Davies yn anfon 'Yr Eco' bob mis i'w merch, ac hefyd yn i'w merch arall sydd yn byw yn Adelaide Awstralia. Yn y llythyr a dderbyniodd Mrs Davies gan ei merch, Meira, roedd yn dweud mor falch yr oedd hi a Janet o gael siarad Cymraeg a darllen hanes y pentref ac, wrth gwrs, y cyfan yn codi hiraeth mawr arnynt. Gwir y ddihareb ynte "Cynt y cwrdd dau ddyn na dau fynydd".

YR YSGOL FEITHRIN: Hoffai pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at wneud y Noson Goffi mor llwyddiannus.

Enillwyr y raffl - Mike Ellis, June Ward, Margaret Roberts, Catherine Williams, Dorothy Williams, Carys Williams, Andrea Roberts, Dorothy Williams, Nia, Enid Owen, Dilys Roberts.

Rhig y pys 812 ac Andrew Griffith oedd yr agosaf gyda 800.

DYWEDDIO: Menai Lloyd Hughes a Melvin Pitts: Llongyfarchiadau i Menai merch Breda a Hugh Wyn Hughes, 87 Maes Padarn, a Melvin, mab Gloria a William Pitts ar eu dyweddïad.

BRENHINES Y CARNIFAL 1983: Sharon Pryddach yw'r frenhines gyda Carys Wyn Owen yn gweinyddu

arni gydag Olwen Harris. Derfel Owen fydd yn cario'r goron.

NEWYDDION YSGOL DOLBADARN NOSON GOFFI AC ADLONIAINT - Yn ystod nosweithiau lau a Gwener y 23 a'r 24 o Fawrth cynhaliwyd Noson Goffi yn yr Ysgol.

Cafwyd gwledd o adloniant gan blant Adran y Babanod. Roedd pob dosbarth yn rhoi gwahanol eitemau, ac roedd digon hawdd gweld fod llawer iawn o sêr byd teledu'r dyfodol ar lwyfan neuadd Ysgol Dolbadarn y noson honno. Ardderchog iawn wir blant! Trefnwyd y noson i godi arian i goffrau'r ysgol. Gwnaethpwyd elw o £249.40.

Dymuna'r prifathro, y staff a'r plant ddiolch i Mr W. Davies, ac i Mrs Lovell a'i staff am eu cymorth i wneud y noson yn llwyddiannus, ac hefyd i chwi ardalwyr am gefnogir noson mor fendigedig.

FFARWELIO A CHROESAWU - Ar ddechrau'r tymor hwn trist iawn oedd ffarwelio dros dro ag un o athrawesau'r Babanod, sef Mrs Jennifer Roberts o Fethel.

Yn ei lle croesawn Mrs Eirwen Davies o Ryd Ddu. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

YN GWELLA - Da yw gweld fod Mrs Nellie Davies y lanhauwaig wedi gwella ar ôl ysbaid o salwch ac wedi dychwelyd, hefyd Mrs Gwen Hughes hithau wedi dod yn ôl ar ôl triniaeth lawfeddygol.

O SRI LANKA - Ar ôl treulio rhai misoedd yn byw yn Sri Lanka mae Eilian, Llifan a Manon Roberts wedi dychwelyd i'r ysgol.

Cyflwynwyd plat pres o siâp yr ynys - un hardd iawn, i'r ysgol gan y tri phlentyn.

NOFIO - Ers rhai misoedd mae plant yr adran gynradd yn mynd i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon i gael gwersi nofio.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf cafodd llawer o blant Safon 3 a Safon 4 arholiadau nofio. Derbyniasant fathodynau am eu hymdrechion. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

TELEDU LLIW - Ddechrau'r tymor hwn cawsom deledu lliw newydd sbon i'r ysgol. Prynwyd y deledu hon o Gronfa Ariannol yr Ysgol.

DEWIS CAPTEINIAID - Yn ddiweddar dewiswyd capteiniaid i dai'r ysgol gan y plant. Seiont - Paul Prydderch, Linda Prydderch. Padarn - Jonathan Cousins, Bethan Jones. Peris - Robert Gray-Williams, Bethan Owen.

MABOLGAMPAU'R YSGOL - Yn y mabolgampau a gynhaliwyd yn ddiweddar, daeth dau ddy yn gyfartal fuddugol, sef Seiont a Pheris efo 70 a hanner o farciau yr un. Roedd Padarn

yn drydydd clos iawn efo 63 o farciau. Dyma gapteiniaid y ddau ddy buddugol efo'r cwpan.

PÊL RWYD - Mewn twrnament pêl rwyd yn y Bontnewydd, bu tîm yr ysgol yn llwyddiannus dros ben.

Roedd pump ysgol leol yn cystadlu - Llanberis, Llanrug, Bontnewydd, Maesincla a'r Hendre. Llwyddodd tîm yr ysgol i gyrraedd y gêm derfynol, ac yno golli o un gôl i ddim. Cyflwynwyd medalau arbennig i'r tîm gan Emily Hughes, awdures llyfrau'r Tomosiaid. Llongyfarchiadau'r ardal i'r genod i gyd.

Tîm pêl rwyd yr ysgol efo'r medalau.



Capteiniaid Seiont a Pheris y tai buddugol



Tîm pêl rwyd yr ysgol

CYNGOR CYMDEITHAS LLANBERIS

Yn y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Angorfa ar Ebrill 28 dan gadeiryddiaeth y Parch Gwynfor Williams trafodwyd y materion canlynol:

Tir i ehangu'r fynwent newydd: Gan nad yw Cyngor Elgwysig Llanberis yn bwriadu ehangu'r fynwent mae'r Cyngor Cymdeithas wedi cyfeirio'r achos at Gyngor Arfon ac wedi gofyn iddynt ddod o hyd i ddarn addas o dir.

Gwnaethpwyd y sylw hefyd nad yw'r cerrig beddau'r fynwent mewn llinellau taclus. Anfonwyd y gwyn at y Cyngor Eglwysig yn y gobaiht y gallant osod gwell cynllun i'r beddau o hyn allan.

Hysbysebion: Bydd bob hysbysiad o'r Cyngor i'r wasg yn ddwyieithog o hyn ymlaen.

Cynllunio: Cafwyd ceisiadau oddi wrth: 32, Stryd Newton i ychwanegu un ystafell ar y llawr isaf, ac oddi wrth 9 a 10 Stryd Fictoria i ychwanegu ystafell ymolchi a chegin newydd.

Nid oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau.

Twll yn y lôn: Gofynnwyd i'r Cyngor

Sir i lenwi'r twll peryglus sydd yn y lôn o flaen 13 Ffordd Tŷ Du.

Glanhau Ffosydd: Gwnaethpwyd cais arall i'r Cyngor Sir i lanhau ac agor y ffosydd ger Teras Olgra.

Faniau sglodion: Gofynnwyd i'r Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â hawliau'r gwerthwyr 'chips' o faniau.

Defaid: Pasiwyd i anfon cŵyn arall i Gyngor Arfon ynglŷn â'r holl ddefaid sy'n crwydro'r pentref.

S4C: Anfonwyd cŵyn i Gyngor Arfon a gofynnwyd iddynt brysuero gyda'r trefniadau ynglŷn â'r gwasanaeth teledu i bobl Nant Peris.

Pleidlais o hyder: Yn yr etholiadau Cyngor Cymuned nos lau Mai 5 lleisiodd pobl Llanberis yn gryf eu hyder yn eu cyngorwyr. Fe'u hailletholwyd *en bloc* - i'w gwasanaeth am dymor arall.

Dyma'u henwau: Vera Griffith, Selyf Hughes, Cledwyn Jones, Francis Jones, Ken Jones, Lal Jones, Tom Jones, Bert Parry, William Roberts, Gwynfor Williams, John Williams a Gordon Williams (i gymryd lle Llion Jones).



Rhai o gynghorwyr cymdeithas Llanberis a Nant Peris yn Ysgol Dolbadarn ar ddiwedd y cyfrif pleidleisiau.



Plant Adran y Babanod Ysgol Dolbadarn a fu'n diddori pawb a fu yn noson goffi'r ysgol.

DRAENOG



Mae'n amser lecsiwn eto, a dwi'n edrach ymlaen! Dwi wedi cael briff, -

na dim trons newydd, ond deirectif gan y pen draenog yn Whitehall i gadw golwg ar Powyr Politics y fro yma - ac i riportio unrhyw conducts ynbicyming; 'dach chi'n gweld.

Y cyntaf yn y llyfr bach du ydi'r boi o Lanbêr sy wedi talu i fod yn member o un blaid ac yn sefyll lecsiwn leol yn enw plaid arall. Twt, twt, it won't wash at ol! Cym clîn!

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgyrn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

Siopau Stryd Fawr

- Snowdon Stores** - General Stores yn cadw bob dim, gan John Williams.
- Lorne House** - Papur papuro a phaent, gan John Roberts y Peintiwr.
- Siop Tap Scotch** - Mr a Mrs Roland Roberts yn ei chadw. Pam y'i galwyd yn 'Tap Scotch' ni wyddai neb. Paris House oedd enw'r tŷ. Roedd yn siop dda - digon o sgrams ar ddiwedd yr wythnos yno.
- Glasfryn** - Siop Mrs Hughes (Bryntyrch), eto siop am 'sgrams' a sôn am ei nionod picl, a'i phennog picl blasus.
- Penbryn** - Siop fywd eto a Mrs Rowlands yn ei chadw. Priododd â Twm Bach Mericia. Bu yn 'Tap Room' cyn hyn - siop i gael prynu cwrw a'i gario adref.
- Bedwargodd House** - Siop Martha Jones - yn gwau sanau, a gwerthu gwlanen cartref a gwlan. Roedd Margiad ei chyfnither yn gweithio gyda hi.
- Dinorwig House** - Siop Newydd oedd pawb yn ei galw a Catrin Williams yn gwneud taffi cartra - taffi triog at y frest.
- Siop Ingham** - (Y Llythyrdy heddiw). Siop sigarets a melysion. A chael trefnu tocyn os am fynd i'r America. 'Booking Office' oedd hi yn galw'r lle.
- Siop Sgidiau** - Drws Nesa, mam Ingham yn cadw siop gwerthu esgidiau. Aeth y siop ar dân un nos Sul a chariodd llawer o bobl esgidiau i'w cartrefi yn lle eu cadw yn y capel dros y ffordd.
- Glasgow House** - (Pete's Eat's heddiw). Siop Mrs Hume. Daeth yno ar ôl ei brawd Hopley oedd yn fferyllydd. Siop groser yn y ffrynt, a siop drygist ar yr ochr Stryd y Farchnad. Bu tân mawr yno a llosgwyd y siop drygist i'r llawr. Byddai'r hen Hopley yn chwilio bob bore drwy'r rwbel am ei sofrannau a gadwai yn y cypyrddau bach o gwmpas y siop. Symudodd Mrs Hume a'r teulu i 'Dolperis'.
- Balaclava, Stryd y Farchnad** - Siop Chips
- Prince of Wales** - Ar y gornel lle mae drws bach ar hyn o bryd, tafarn. Y gweddill o'r adeilad - llyfrgell
- Liverpool House** - High Class Groser a Drapery
- Alexandra House** - Barbwr, John Jones.
- Bon Marche** - Dodrefn, Drapery, llestri. Siop fodern iawn yr adeg honno. Pawb yn cael bob dim at gadw tŷ gan Mr a Mrs John Davies.
- Glandon** - Siop Hufen Ia a da-da yn cael ei chadw gan Mrs Kesia Parry. Pan symudodd hi oddi yno daeth Mrs Owen, chwaer crudd bach y Waun yno i gadw siop ffrwythau un ochr a siop grudd yr ochr arall.
- Caxton House** - Siop Jennie Evan Bach. Roedd hi yn byw yn Rhes y Faenol ac yn gwneud cacenni a 'porc peis' heb eu gwell yn unman. Un ochr i'r siop yn gwerthu'r bywd a'r ochr arall yn gwerthu papur sgwennu, penseli, amlenni, cardiau, inc a sialc.
- Green Bank** - Siop Esgidiau Humphrey Williams a'i phriod. Dyma'r unig siop sydd wedi aros fel ag y bu er y dechrau.
- Belmont House** - William Jones, Bwtchar, ar ei ôl, Siop Chips.
- Regent House** - Siop Twm Eames, becws yn y cefn a siop fara, byns etc yn y ffrynt.
- Grupton House** - General Stores gan Edward Jones. Tua 1914 gorfu iddo gau a daeth y Coparet i lawr o Llainwen Isaf i ddarn o'r adeilad, a'r hanner arall yn siop Fferyllydd gan Edwin Parry. Daeth ei fam ato, a'i chwaer a'i phriod, ac yntau yn cadw gweithdy crydd yno.
- Emporiwm Mrs Beal** - (Central Garage heddiw). Byddai pawb yn ei galw yn Siop Brymer am fod cysylltiad â siop o'r fath ym Mlaen Ffestiniog a Siop

Brymer y gelwid honno. Byddai amryw yn gweithio yno - teilwriaid i wneud siwtiau dynion. Cart a cheffyl yn cario newyddion allan i'r cyffiniau. Grisiau haearn crwn i fynd i'r 'drapery'. Yr arian yn dod i lawr o bob cownter i rhyw offis bach wrth y drws dim ond i chi ganu cloch. Roedd plant y pentre i gyd yn dotio at y cyfan.

- Siop Bwtcher** - Bwtcher Bont fyddai pawb yn ei alw am ei fod yn dod o Bontnewydd.
- Boderwydd** - Teiliwr a dillad dynion yn cael ei chadw gan R.E. Jones. Dyn galluog iawn. Daeth i'r ardal i weithio yn Siop Brymer ar y cychwyn.
- Siop Cadi Fawr** - Siop bob dim.
- Claremount House** - Barbwr. R.H. Jones a'i dad C. Jones yn beintiwr.
- Mafeking** - Siop bren ar y cychwyn yn cael ei chadw gan Miss Evans. Yna, codwyd dwy siop, a dau dŷ wrth gwrs. Miss Nel Evans a'i chwaer yn cadw siop dda-da yn un, a Mrs Evans ei chwaer yng nghyfraith yn cadw siop ddillad yn y llall.
- Eryri House** - Ar y dechrau 'Tap Room' oedd yno - a gelwid yn 'Tap Scotch'. Yna daeth Mr Francis a'i briod yno i gadw siop lestri a 'fancy goods' ar gyfer y 'fusutors'. Symudodd oddiyno i siop Symonds Ferndale a chadw yr un math o fusnes. Ar ôl Francis, daeth John Roberts (dyn dall) i gadw'r busnes yno. Heddiw, siop Wilson ydi hi i'r plant.
- Y Stelc** - Rhan o Westy Padarn Lake - cedwid siop werthu bara a chacenni gan John Lloyd Roberts, Newton Street. Rhoddodd y gorau iddi gan fod ganddo siop a becws yn Stryd Newton, a daeth 'Daniels' o Gaernarfon i gadw siop ffrwythau a llysiau.
- Ferndale** - Siop Mr a Mrs Francis.
- Arfon House** - Teiliwr - Harry Jones - a'i briod yn cadw llety i'r ymwelwyr.
- Caffi a siop sigarennau**, da-da gan Mrs Worfold.
- Beehive** - Drapery a dillad dynion yn cael ei chadw gan Morris Rowlands.
- Siop Mrs Hume** - Yn nhacen Dolperis - siop groser.
- Siop Drygist** - Wille P. Williams a'r llythyrdy yr ochr arall.
- Snowdon Valley** - Symudodd Mrs Hughes a'r teulu o Glasfryn i gadw siop chips a chaffi yn un rhan o'r adeilad.
- Snowdon Valley Hotel** - yn cael ei chadw gan Mr Thomas, tad Mrs Ingham. Symudodd oddiyno ac yna daeth y Star Supply Stores yno.
- Siop Roberts y Cigydd**
- London House** - Siop Beics yn cael ei chadw gan Mr a Mrs Parry Mona. Wedi iddyn nhw symud, siop hetiau.
- Gwalia House** - Griffith Jones, Y Teiliwr.
- Glandŵr** - Drapery a Groseri
- Siop Wille Becar** - William Roberts a becws yn y cefn. Roedd ganddo fan a merlen yn mynd â'r bara oddi amgylch i'r pentrefi cyfagos.
- Celtic House** - Siop esgidiau Twm Harri Jones. Wedyn bu'n siop bwtchar.
- Amserdy** - (Wyddfyd heddiw). Siop Evans Bach y Watchmaker. Gwerthu a thrwsio watsus.
- Siop Vaughan Williams** - Gwerthu llyfrau, cylchgronau, papurau newydd a rhwymu ac argraffu llyfrau.
- Y Banc** - Midland - ar y gornel
- Siop Griffith Jones** - y cigydd - ar y gornel arall i Stryd Turner. Wedyn Siop 'E.B. Jones'.
- Bodfair** - Siop Anti Gwen, da-da a manion bethau. Yna bu'n siop chips.
- Eldon House** - Siop Bob Dim a 'sgramia'
- Hafanna House** - Barbwr

CEUNANT


CYDYMDEIMLAD: Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Anwen Jones, Gwelfor ar gollu ei thad yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: i Einir a Gwenno Parri, Morwel ar lwyddo mewn arholiad dan nawdd yr Ysgol Gerdd Frenhinol - Gwenno mewn Theori Gradd IV ac Einir Piano, Gradd VI. Eu hathrawes yw Miss C. Williams, Llanberis

AR WERTH

Toyota Carina (R) 1977. 58,000 milltir yn unig. Cyflwr da. Cynigion. **G. Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug. Ffôn C'fon 4051**

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)

YM MYD YR ADAR gyda Ieuan Williams

harodd Deddf Cadwraeth 1982 i ryw raddau ar un adran o'r hobi
gadw adar, gan fod y Ddeddf yma yn cyfyngu ar y mathau o adar
ydeinig. Er hynny, parhâ yr adran yn un eithriadol ddi-ddorol ac
sicr mae angen amynedd Job (a mwy) i fod yn llwyddiannus
ewn magu rhai o'r adar brodorol yma.

Syndod i mi wrth sgwrsio gyda ffrindiau a chydabod yw eu hanwybodaeth
yr adar a welir o'n cwmpas yn feunyddiol. Mae'r adar a welir yn ein gerddi
gwrychoedd yn ddeniadol tu hwnt o syllu arnynt yn iawn ac y maent wedi
rhannu yn ddwy ran - y rhai sy'n bwyta hadau (*hardbills*) a'r rhai sy'n
ryta ffrwythau a phryfetach (*softbills*). Mae'n haws magu a meithrin y rhai
rau caled na'r rhai pigau meddal - mae honno yn grefft ar ei phen ei hun.

Hen syniad o rywun yn ymddiddori mewn adar brodorol oedd dyn mewn
ysus melfared, cap ar ochr ei ben a stwmp sigaret yng nghornel ei geg, gyda
neu ddau i ddenu eu cyfeillion gwyllt i drap. Buaswn yn anonest pe
wedwn fod y ddelwedd hon wedi llwyr ddiflannu, ond gallaf eich sicrhau
d yw'n bodoli i'r un graddau ag a fu flynyddoedd yn ôl. I fod yn wrthrychol,
fuasai gan y mwyafrif o'r adar a welir yn rhydd yn ein gerddi obaith yn ymyl
hai a fegir dan reolaeth yr adarwr, gan fod safon y rhai dof lawer yn well.

Yr aderyn a newidiodd fwyaf er gwel yn y broses yma yw'r Llinos Werdd
greenfinch). Mae'r aderyn yma yn eithaf lluosog yn ardal 'Eco'r Wyddfa' ac
nad yw'n aderyn dof, hawdd iawn yw ei ddenu i'r ardd, ac o sylwi arno
llwch ddarganfod a gwerthfawrogi y prydfferthwch sydd yn ei amrywiol
rddni. Mae'n hoff eithriadol o gnau mwnci, ac os rhoddwch rhai allan yn y
fn gallaf eich sicrhau y bydd y llinos werdd yno yn cystadlu amdanynt
da'r titw tomos.

Rhyw 12 mlynedd yn ôl 'roedd gan ŵr o Lanerchymedd, Mr Alf Williams y
iliog gorau ym Mhrydain, a chyfaill iddo, Mr Walter Jones o Ddolgarrog,
dag iâr dda iawn. Trosgwyddwyd yr iâr o Ddyffryn Conwy i Ynys Môn a'r
alyniad fu i'r llinosiaid gwyrdd gorau a welwyd erioed gael eu magu, a bu
dynt ennill gwobrau yn y sioeau bach a mawr gan gynnwys y genedlaethol
Mhalas Alexandria yn Llundain. Gwerthwyd degau o'u hepil ledled
ydain, ac erbyn heddiw mae y llinos werdd a welir yn y sioeau yn curu ei
eulu gwyllt i'r entychion, a gall y cwbl olrhain eu hachau i sied y diweddar
Williams yn Llannerchymedd.

Aderyn arall a elwodd dan reolaeth yw'r asgell arian (*chaffinch*). Mae'r lliw a
r ar yr adar dof yn llawer tywyllach na'r un a geir ar yr adar gwyllt. Un o'r
ai blaenllaw gyda'r rhain yw Mr Gwilym Roberts, Y Felinheli, a bu ganddo
iliog rai blynyddoedd yn ôl oedd yn ddi-guro. Dyma'r enghraifft orau o'r
gell arian a fu erioed yn ddi-os, ac amheuf a ddaw un tebyg byth eto. Y peth
saf i berffeithrwydd!

Mae'r nico (*goldfinch*) wrth gwrs wedi bod yn ffefryn erioed a phawb bron
ei adnabod. Anfarwolwyd ef gan Cynan ers llawer dydd ond gwestiwn
nyf ai'r un aderyn a welodd y bardd ym Macadonia ag a welir mewn ambell
e y dyddiau yma, gan gymaint y gwahaniaeth yn eu safon.

Ffefryn arall gan yr adarwyr yw'r llinos (*linnet*). Mae hwn eto yn llawer
wy lliwgar nag a feddylir ar yr olwg gyntaf, ac yn eithaf lluosog o'n cwmpas.
euliais oriau yn gwylio'r rhain yn yr eithin yng nghors Llwyn Bedw dros y
rdd i'm cyn-gartref yn Afallon, Bethel.

Aderyn swil iawn yw coch y berllan (*bullfinch*) ond mae ymysg y rhai mwyaf
wgar, ond yr unig beth a welir ohono yn aml yw ei grwmp gwyn yn diflannu
rigau'r winllan. Ymgartrefodd yr iâr yn dda iawn i'w bywyd dof, ond
ndyn fu'r ceiliog i wneud hynny ac mae'n rhaid fod yn amyneddgar iawn
da hwn.

Mae amryw o fathau eraill yn eithaf poblogaidd gan yr adarwyr, yn eu mysg
ac y mynydd (*bramblefinch*); pendew (*hawfinch*); llinos y mynydd (*twite*) er
d hwn yn llawer lluosocach yn yr Alban nag yng Nghymru; dreiniog (*siskin*)
n eithriadol ddo; a'r llinos fechan (*redpoll*) sydd eto wedi gwella tu hwnt i
ychymyg dan reolaeth - bron na ddywedwn fod y rhai a geir gan yr adarwyr
wywaith maint y rhai a welir yn wyllt.

Fel y dywedais mae math arall o adar hefyd - y pigau meddal. Mae angen
rydo'r rhain â *maggots* a bwyd meddal arall, ond mae yna garfan fechan o
arwyr yn eithaf llwyddiannus ac ymysg y mathau a gedwir mae'r fronfraith,
eryn du, drydwen, sigl ei chwt, eos, titw tomos, teloriaid, penddu, tingoch,
dryw fach.

Adran arall o'r hobi yw croesi y gwahanol fathau â'i gilydd. Er bod hyn yn
byn natur braidd ac na fuasai byth yn digwydd o dan amgylchiadau
turiol, mae'n sialens arall i'r adarwr. Mae cywion rhwng rhai yn ddeniadol
os ben, gyda'r croesiad rhwng y nico a choch y berllan ar y blaen, debygw'n
Byddai croesiad rhwng y nico a'r caneri yn boblogaidd iawn yn yh
ffennol a llawer o bobl yn cadw ceiliog o'r croesiad yma yn y gegin i ganu.
hynny, nod pob un a gymer ddi-ddordeb yn yr adran yma yw magu croesiad
ng y nico a'r caneri sydd yn felyn drosto (lliw'r caneri) a siâp nico arno.
ac ei wireddu amryw o weithiau, ond 999 gwaith o bob mil ceir siâp y caneri
liw tywyll y nico! Di-ffrwyth yw pob un o'r croesiadau hyn ac ni ellir magu
onynt.

d yn aml y gellir gweld Coch y
rllan yn sefyll mor lonydd (fel arfer
ae o'n greadur mor swil). Magwyd
yn gan adarwr lleol ac mae'r
drwy ar ei goes dde yn profi hynny
n nad yw'n bosibl rhoi modrwy ar y
es pan mae'r aderyn yn hŷn na
yw wythnos oed.



TYSTEB GENEDLAETHOL DR KATE ROBERTS



Annwyl Gyfeillion,

Mae ar genedl y Cymry ddyled
fawr i'r Dr Kate Roberts.

Cyfnod yw hwn sy'n ymdeimlo i'r
byw â gwerth tyngedfennol yr iaith
Gymraeg. Bu ymdrech daer a
hunan-aberthol drosti.

Rhoddodd Dr Kate Roberts oes
hir o wasanaeth i'r genedl a'r iaith.
Bu'n athrawes dda a gofalus.
Rhoddodd i ni storïau a nofelau sydd
bellach yn rhan o'n treftadaeth
lenyddol. Gwnaeth yr iaith Gymraeg
yn rhan annatod o'i bywyd ac o'i
manifesto gwleidyddol. Dywedodd
wrthym nad oes ystyr i frwydro
drosti oni bai ein bod yn ei pharchu
fel llestr glân a phrydferth.

Y mae'r plentyn a'r hynafgw'r
bellach yn gyfarwydd â'i chelfyddyd.
Cawn yn ei gwaith ddisgrifio
poenus-fanwl, ceinder iaith, arddull
hollol arbennig a chofnod llenyddol a
chymdeithasegol gwerthfawr iawn o
dalp helaeth o'r ugeinfed ganrif yng
Nghymru.

Y mae Dr Kate Roberts erbyn hyn
dros ei deg a phedwar ugain, a'i
meddwl yn gwbl glir, er bod ei chorff
yn llesgáu. Rhaid iddi felly wrth ofal
cyson.

Ystyr y llythyr yw rhoi cyfle i
brofi'n hymdeimlad a'n dyled enfawr
iddi trwy gyfrannu at deyrnged

genedlaethol i frenhines ein llên.

Gwn y gwnewch ymateb i'r llythyr
hwn. Carwn yn fawr weld llu yn
cyfrannu £25 a mwy, ond fe fydd pob
rhodd fechan a mawr yn cael
gwerthfawrogiad twymgalon.

Anfonwch eich cyfraniad yn
uniongyrchol at Mr Emyr Jenkins,
Cyfarwyddwr yr Eisteddfod
Genedlaethol, Swyddfa'r
Eisteddfod, 10 Park Grove,
Caerdydd, CF1 3BN.

Gobeithir medru cyhoeddi rhestr
o'r noddwyr adeg Eisteddfod
Genedlaethol Môn a throsglwyddo'r
Dysteb yn ystod wythnos yr
Eisteddfod.

Goronwy Daniel; Alun Talfan Davies,
Raymond Edwards, Islwyn Ffowc Elis,
Gwyn Efryl, Gwynfor Evans, W. Emrys
Evans, Idris Foster, Geraint Gruffydd,
Mathonwy Hughes, Emyr Jenkins, Bedwyr
Lewis Jones, Gwilym R. Jones, John
Gwilym Jones, James Nicholas, Thomas
Parry, Alwyn Roberts, Idwal Symonds,
Gwilym O. Williams, Rhydwen Williams,
W. Cynwil Williams.

TYSTEB GENEDLAETHOL DR KATE ROBERTS

Y mae'n bleser gennyf amgau £_____ tuag at Dysteb Genedlaethol Dr
Kate Roberts.

Oddi wrth:

TALER POB SIEC I "TYSTEB DR KATE ROBERTS"

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn
rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros
100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi
o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR,
CEUNANT, TAN-Y-COED
a BETWS GARMON

GARETH JONES
Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS,
CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL
a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,
Hyfrydle Road, Capel Coch,
Llanberis (870471)

DEINIOLEN, PENISARWAUN,
SEION, LLANDDEINIOLEN,
TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES
Clarke Terrace, Ffordd Llanberis,
Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW'
YNGLŷN Â'CH
HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR
EICH AELWYD **Prudential**

Capel y Fachwen 1862-1962

Wedi ei gladdu o dan domenydd chwarel yr Allt Ddu ers ugeiniau o flynyddoedd bellach y mae hen blas o'r enw 'Plas y Fachwen'. Perthynai'r tir oddiyno hyd at Ben Llyn i un fferm fawr, a dywedir bod cysylltiad yn yr hen amser rhwng y Plas hwn a Llys Orwig sydd yntau erbyn hyn yn furddun y tu allan i Frynrefail.

Tybir mai lle i ymneilltuo iddo yn yr haf oedd y plas ac mai dyna ystyr yr enw 'Fachwen' - sef cilfach neilltuedig. Esboniad arall yw bod 'bach' yn gyfystyr â 'cilfach' a 'gwen' yn golygu 'gwynfydedig' a dyna ni yn cael Cilfach Gwynfydedig.

Yn ddiweddarach yn hanes yr hen blas, dywedir yr arferid cyrchu iddo i addoli ymhell cyn codi Capel Dinorwig yn 1883 na'r Ysgoldy yn yr Allt Ddu, ac os felly, yr oedd yr enw yn addas iawn ar gilfach neilltuedig i addoli.

Gan nad oedd capel yn Ninorwig cyn 1824, arferai y trigolion fynd oddi yno i Gapel Coch, Llanberis ar y Sul ac felly y gwnai hynny o drigolion oedd yn byw yn y Fachwen. Ychydig iawn o bobl oedd yn byw yn y Fachwen cyn canol y ganrif ddiwethaf - ond tua 1848-9 codwyd amryw o dai yn yr ardal ac ymlaen hyd 1862 codwyd amryw eraill a rhai yn ddiweddarach na hynny. Yr achos, wrth gwrs, oedd fod y chwarel ar gynydd.

Yr oedd Capel Dinorwig ar ei draed erbyn hyn er 1833 ac amryw o'r bobl wedi ymaelodi yno gan fynd i'r moddion yn selog iawn. Ond o dipyn i beth teimlai'r trigolion oddi wrth bellter y ffordd o'r Fachwen yn enwedig y rhai a fynychai'r moddion dair gwaith y Sul - teimlent fod unwaith y Sul yn ddigon.

Yn 1851 penderfynwyd peidio â mynd i Ddinorwig i'r Ysgol Sul ond yn hytrach cynnal Ysgol Sul yn y tai yn y Fachwen. Dechreuwyd cynnal yr Ysgol Sul mewn pump o dai ar gylch, yr ysgol i fod am fis ymhob tŷ yn ei dro. Dyma'r tai y cynhelid yr Ysgol Sul ynddynt: Rhos-y-bel (Padarn Stores); Bryn Bela; Craig-y-bela; Craig-y-Fachwen.

Cynhaliwyd yr ysgol gyntaf yn Rhos-y-bel Chwefror 16, 1851. Anodd gwybod sut y llwyddent i gynnal ysgol mor lluosog mewn tai mor fychan ond gwyddys eu bod yn llenwi pob ystafell yn y tŷ. Yr oedd nifer yr aelodau y pryd hwn yn 65. Cariwyd ymlaen fel hyn am ysbaid. Yna daeth cais o Ddinorwig am iddynt ddod yn ôl oherwydd bod yr Ysgol Sul yno wedi gwano. Penderfynwyd mynd yn ôl, ond am flwyddyn yn unig y bu hyn. Torrwyd cysylltiad â'r Ysgol yn Ninorwig unwaith eto a chadw ysgol yn Rhos-y-bel yn unig y tro hwn.

John Roberts, Bryn Bela oedd yr arolygwr cyntaf ar yr ysgol yn Rhos-y-bel - perthynai tua 20 o aelodau iddi ac yn eu plith yr oedd rhai athrawon da iawn. Ond

ynghwrs amser aeth Rhos-y-bel yn rhy gyfyng i'r ysgol, er defnyddio pob ystafell.

Dechreuwyd mynd i Ddinorwig eto yn 1858 a'r flwyddyn ganlynol torrodd Diwygiad 1859 ac ysgubodd ei ddylanwad a'i effeithiau drwy'r ardaloedd, daeth pawb bron yn y Fachwen yn aelodau eglwysig. Bu effeithiau y Diwygiad hwnnw yn fawr ar yr ardaloedd a pharhaodd ei effeithiau yn y Fachwen i raddau am



flynyddoedd lawer. Yr oedd Capel Dinorwig yn orlawn erbyn hyn a rhaid oedd meddwl am ei helaethu neu godi capel yn y Fachwen, yr hyn oedd ym meddwl y trigolion ers tro. Wedi ymdrafod a phwyllgora brwd penderfynwyd yn 1860 godi capel newydd yn y Fachwen.

Adeiladu Capel Cae Coch

Dyma enwau rhai o'r pwyllgor a ddewiswyd i ofalu am y gwaith o adeiladu'r capel - John Roberts, Bryn Bela; Owen Roberts, Craig-y-Fachwen; William Morris, Bryn Bela; John Pritchard, Bryn Ffynnon; Thomas Griffith, Fuches Isa; Thomas Davies, Tanrallt;

Robert Jones, Tan-y-Bryn. Cafwyd prydles ar ddwy ran o dair o acer o dir gan y Faenol am 99 o flynyddoedd - o 1862. Cynlluniwyd y capel gan Robert Parry, Ty'n Fawnog ac ef a ofalodd fod y gwaith yn cael ei wneud. Y saer maen oedd Evan Jones, Dolydd a'r saer coed oedd William Davies, y Waunfawr, ac aeth y gwaith rhagddo yn foddhaol. Swm y gost oedd £925.8.4. Roedd y Fachwen i dalu £427.2.1½ o'r gost a Dinorwig y gweddill (sef cyfran y Fachwen yn adeiladau Dinorwig).

Pregethwyd yn y Fachwen am y tro cyntaf gan y Parch Morris Hughes, y Felinheli Chwefror 23, 1862 gan y Parch Robert Ellis, Ysgoldy, Clwt-y-Bont. Cafwyd Seiat ar ôl yr oedfa a

oeddynt heb ddim manteision addysg. Yr oedd llafur mawr ymhlith y bobl ieuanc hefyd - dysgent rannau helaeth o'r Beibl ar eu cof ac roeddynt yn selog gyda'r achos. Enynnodd y capel newydd sêl a brwdfrydedd tuag at achos yr Arglwydd yn yr ardal.

Yn y flwyddyn 1873 codwyd bachgen ifanc i ddechrau pregethu, sef Mr O.I. Owen (Rock Ferry).

Ymhen 18 mlynedd ar ôl agor y capel talwyd y £5 olaf o'r ddyled, ac yn yr un flwyddyn galwyd y Parch R.O. Williams i ddod yma fel gweinidog a bu hyn yn ddechrau cyfnod newydd yn y Fachwen.

Tua'r flwyddyn 1884 teimlad yr aelodau oedd y dylid symud ymlaen i wneud rhywbeth i'r hen gapel gan ei fod yn edrych yn 'hen ffasiwn', a'i ben yn ymollwng a llawer o waith atgyweirio arno.

Yn nechrau 1885 galwyd ar y Parch David Williams, Cwm-y-glo i helpu atgyweirio'r capel. Gosodwyd y gwaith i Mr Humphrey Williams a'i fab, Clwt-y-Bont am £400 a thalwyd £6.10.0 i'r Parch David Williams am y planiau.

Pregethwyd gyntaf yn y capel newydd ar Ionawr 17, 1886 gan John O. Jones, Capel Coch. Cliriwyd yr holl ddyled eto erbyn diwedd y ganrif. Ar gais y Parch Morris Hughes, y Felinheli, newidiwyd yr enw o Gapel Cae Coch i 'Fachwen' - clywais fod y garreg y torrwyd yr enw 'Capel Cae Coch' arni ym Mrynrefail ers blynnyddoedd.

Roedd y Fachwen ar un amser yn cael ei alw yn Caeau Cochion. Y rheswm am hyn oedd, fod trigolion Llanberis yn sylwi fod gwrid coch ar y caeau yr ochr arall i Lyn Padarn.

Mae'r hen gapel annwyl wedi cau erbyn hyn, ac fel y crybwyllwyd ar y dechrau mai 'cilfach' i neilltuo iddo yn yr haf oedd ystyr wreiddiol y Fachwen, dyna'n union yw hanes y lle heddiw - yr hen fythynnod wedi eu prynu gan estroniaid sy'n dod bob penwythnos i fwynhau'r olygfa, ac yn fwy na dim i fwynhau'r tawelwch a geir yno.



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

DEINIOLEN

C Gwasanaeth 24 awr -
A unrhyw bellter
B Eich rhedeg i'r Maes
S Awyr neu'r Porthladd

Ffôn: Llanberis

871591

JIM WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

PENISARWAUN

Gohebydd Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

CAPEL BOZRA: Bydd y trip Ysgol Sul yn mynd i'r Rhyf. Mae y Sadwrn cyntaf yng Ngorffennaf. Mae yna ddwy bus yn mynd ac mae yna le os dymunir rhywun fynd. Bydd Mr J. Munro, Tŷ Capel yn casglu'r enwau ac yn trefnu fel bob blwyddyn.

CYMANFA: Yng Nghymanfa'r Wesleiaid yng nghapel Bethel Llanfairfechan yn ddiwedd cathod Dylan Edwin Jones, Jonathan Vincent Richardson a Dyfed Jones bar ar eu medal a thystysgrif am gasglu at y Genhadaeth Dramor. Rhoddwyd Tystysgrif i Kenneth Vincent Richardson a Mark Steven Porter hefyd. Yn dechrau'r gymanfa roedd parti o blant Ysgol Sul Waun Penisarwaun. Yn cyflwyno yn yr hwyr oedd Miss Bronwen Rees Hughes, 1 Bryn Hyfryd, Penisarwaun.

Bu Cymanfa'r Annibynwyr yng nghapel Jerusalem. Cymerodd plant yr Ysgol Sul ran yno.

SANTES HELEN: Bydd trip Ysgol Sul Santes Helen yn mynd i'r Rhyf ar Orffennaf 2. Unrhywun sydd eisieu dod gyda ni rhoddwch eich enwau i Mrs A. Paterson neu Mrs M. Davies.

Cafwyd cyfarfod hapus iawn nos Sul, Mai 8 Dydd Gŵyl a Rhodd. Roedd llawer o blant yr eglwys o bell ac agos wedi dod i'r cyfarfod. Y pregethwr gwadd oedd y Parch Ganon Robert David Roberts, Tai Croesion gynt, ond yn byw yn awr yn Llanfairpwllgwyngyll. Roedd lluniaeth wedi ei baratoi yn y Neuadd. Diolch i'r rhai a fu'n paratoi ym mhob ffordd i wneud yr Ŵyl yn llwyddiannus.

Llongyfarchwn y plant am eu llwyddiant yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn Llandinorwig prynhawn Sul Mai 15, sef Amanda ac Yvonne Orrok; Sioned, Nia a William Lewis; Joanna a Mathew Jones; Andrea a Berwyn Paterson.

UNDEB Y MAMAU: Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Mai 9. Y wraig wadd oedd Mrs Turner, Tyddyn Difyr. Fe roddodd sgwrs ar 'Angylion'. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Pritchard, Pensarn. Bydd Noson Goffi nos Lun, Mehefin 6 ac fe fydd yr elw yn mynd tuag at Gymorth Cristnogol. Croeso i bawb.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs M. Roberts, Pen-y-gaer yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, y diweddar Mr H. Roberts.

Hefyd fe gydymdeimlwn â Mrs A. Ellis, Gors, Brynrefail wedi colli ei brawd yng nghyfraith.

A hefyd gyda Heather Jones, hithau wedi colli ei nain yn Nant Peris.

Dymunwn yn dda i Mr Sam Parry, Cefn Coed a Mrs Owen Thomas, Tai Newyddion, sydd yn yr ysbyty. Rydym yn falch o glywed fod Mrs M. Evans, Bod Idris a Mr Peter Williams, Llwyn Derw yn gwella ac adref o'r ysbyty. Mae Mrs L. Jones, Perthi ym Mhlas Pen-gwaith, ac hefyd mae Mrs N. Pritchard yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs N. Roberts, Vine Cottage sydd wedi colli ei brawd yn ddiweddar; â Mrs D. Lamb wedi colli ei nain. Hefyd mae Mrs Humphries, Winllan wedi colli perthynas yn ddiweddar.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd cyfarfod dydd Mawrth, Mai 17. Nid oedd siaradwr ond fe gafwyd sgwrs a phaned wedi cael ei threfnu gan Mrs Rose Jones a Mrs J.P. Jones. Enillodd Mrs N. Williams, 2 Bryntirion y raffl. Bydd y trip blynyddol yn cychwyn am 1.30 o'r gloch ar Fehefin 30 ac yn mynd o amgylch Sir Fôn. Bydd y cyfarfod nesaf ar brynghawn dydd Mawrth, Mehefin 21 pryd y disgwylir y Parch

E. Blainey i annerch.

DIOLCH: Dymuna Wil a Nerys Thomas, 10 Bryntirion ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymudiadau am yr anrhegion a'u dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

CLWB Y MERCHED: Cafwyd cyfarfod o'r Clwb nos Fawrth, Mai 24. 'Moes a Phryn' oedd gennym. Dymunwyd yn dda i Mrs E. Jones, Heather Bank sydd yn mynd i'r ysbyty i Fangor yr wythnos hon. Bydd y trip blynyddol yn mynd i Landudno ddydd Sadwrn, Gorffennaf 16. Bydd y bws yn cychwyn am 1.00 o'r gloch - os oes rhywun o'r pentref yn dymuno dod mae digon o le. Byddwn yn cael mynd i Theatr yr Arcadia yn yr hwyr. Rhoddwch eich henwau i Mrs M. Davies, 9 Llys y Gwynt. Croeso i unrhyw un ymuno â ni.

Rhoddwyd y te gan Mrs J.P. Jones a Mrs E. Jones. Enillodd Mrs P. Williams y raffl. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs M. Thomas, Bod Awen a fydd yn 80 oed ar Fehefin 1af.

YR YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd noson Arwerthant yn Neuadd yr Eglwys nos Fawrth, Mai 3 er budd yr Ysgol Feithrin. Carai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y noson, yn nwyddau a chacennau ac yn rhoddwch ariannol hefyd. Diolch rhaf i bawb ddaeth i brynu gennym a gwneud ein noson yn llwyddiannus. Gwnaethpwyd elw o tua £60. Enillwyd y raffl 'Hamper' gan Mrs J.P. Jones, 13 Bryntirion, a'r 'Gateaux' gan Emyr Williams, Glyn Euron. A Glenn Lamb ddaeth o hyd i Drysor y Môr Ladron a'i wobwr oedd boc o Siocled 'All Gold'.

EISTEDDFOD BENTREF PENISARWAUN

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Penisarwaun yng nghapel y Glasgoed nos Wener, Mai 20. Y beirniaid oedd - Cerdd: Mrs Eurgain Eames, Llanwnda, Adrodd a Llên: Mr W. Lloyd Davies, Bangor, Arlunio: Mrs Cadi Thomas, Caernarfon, Gwaith Llaw a Choginio: Miss Eleri Morris, Penisarwaun, Cyfeilyddes: Miss Eirian G. Evans, Abersoch, Arweinyddion: Mr Tony Elliot a Mr Len Jones, Penisarwaun.

Dyma restr o'r enillwyr:
Adrodd: dan 4 oed: 1. William, 2. Lois, 3. Tristan, Eryl, Dafydd ac Aled. 4-6: 1. Llion ac Eleri, 2. Sioned a Rhys, 3. Louise. 6-8: 1. Llŷr, 2. Hefina, 3. Osian ac Andrea. 8-10: 1. Iola, 2. Rebecca, 3. Bedwyr. 10-12: 1. Sioned Roberts, 2. Eurgain Haf, 3. Sioned Williams. 12-15: 1. Sharon Owen, 2. Carys. Ail iaith dan 4: 1. Gwenllian. ail iaith 4-6: 1. Matthew, 2. Caitlin Wroe. ail iaith 8-10: 1. Stephane.

Canu - dan 4: 1. William a Lois, 2. Gwenllian, 3. Dafydd ac Eryl. 4-6: 1. Eleri a Manon, 2. Rhys, 3. Huw a Nia, 4. Rhys a Sioned. 6-8: 1. Sioned, 2. Hefina, 3. Joanne ac Andrea. 8-10: 1. Dyfed, 2. Bedwyr, 3. Stephane. 10-12: 1. Dylan Pierce, 2. Sioned Roberts, 3. Eurgain Haf.

Parti Adrodd - oed cynradd - cwpan er cof am Mr Bob Williams, Tan y Gaer: 1. Parti Iola, 2. Parti Nathan, 3. Parti Sioned. Parti Adrodd Uwchradd: 1. Parti Bethan.

Parti Canu dan 10 oed - cwpan Miss Phyllis Ellis er cof am ei thad: 1. Parti'r Waun, 2. Parti'r Eglwys, 3. Parti Glenn. Parti canu 10-12: 1. Parti Sioned, 2. Parti Dylan, 3. Parti Iola. Canu dros 50 oed: 1. Mrs Katie Williams. Wythawd: 1. Parti Orpheus West End, 2. Parti Llys y Gwynt. Deuawd dan 15 oed: 1. Eurgain a Sioned.

Arlunio - dan 4 (meithrin): 1. Ynyr Gruffydd, 2. Gwenllian Turner, dan 4 (babanod): 1. Eira Wyn Jones, 2. William Lewis, 3. Lois Dafydd. 4-6: Cyd. 1: Esther Kiely ac Eleri Llwyd, cyd 2: Matthew Jones a Manon Eryllt, cyd 3: Huw Tegid, Louise Jones a Caitlin Wroe. 6-8: cyd 1: Sioned Lewis a Hefina Jones, cyd 2: Mórigan Ellis ac Andrea Lewis, 3. Susan Williams. 8-10: 1. Bethan Evans, 2. Andrea Turner, 3. Iola Williams. 10-12: cyd 1: Lawrence Turner ac Angharad Crewe, 2. Dylan Pierce, 3. Amanda, Dylan Rhys, David Edwards,

Mark Porter, Berwyn a Michael Wroe. 12-15: 1. Gareth Parry, Llanrug, 2. Sharon Owen, 3. Delyth. 15-18: 1. Fiona Lloyd Jones, 2. Sandra Jones.

Gwaith Llaw: dan 4 oed: 1. Lois Dafydd, 2. Gwenllian Turner, 3. Ynyr Gruffydd. 4-6: 1. Huw Tegid, 2. Louise Jones ac Arwel Jones, 3. Nia Lewis ac Eleri Llwyd. 6-8: 1. Owen Turner, 2. Hefina Jones, 3. Osian Dafydd. 8-10: 1. Glenn Lamb a Bedwyr Evans, 2. Andrew Turner, 3. Dyfed Jones a Rebecca Thomas. 10-12: 1. Mark Porter, 2. Lawrence Turner a Sioned Roberts, 3. Darren Lamb ac Eurgain Haf. 15-18: 1. Claire Louise Graham.

Coginio: dan 13: 1. Sioned Roberts, 2. Eurgain Haf. 13-18: 1. Meirwen Williams, 2. Carolyn Jones.

Cwpan Morgan Evans i'w chadw am flwyddyn a Thlws yr Eisteddfod am y cynnyrch gorau o blith y cystadlaethau Barddoniaeth a Llenyddiaeth: Eurgain Haf Evans.

BARDDONIAETH - 8-10 oed: 1. Dylan, 2. Bedwyr, 3. Andrew. 10-12: 1. Eurgain Haf, Dylan Rhys, 3. Michael Wroe. 12-15: 1. Dylan Edwin.

RHYDDIAITH - 4-6 oed: Cyd 1. Sioned Wyn Jones, a Manon Jones, 2. Nia, 3. Louise. 6-8: 1. Hefina, 2. Sioned, 3. Ceirion. 8-10: 1. Bedwyr, 2. ET, 3. Dylan. 10-12: 1. Eurgain Haf, 2. Nathan, 3. (cyd) Rhian Williams ac Amanda.

RHYDDIAITH, DYSGWYR - 4-6: 1. Caitlin Wroe, 2. Jonathan. 6-8: 1. Seth Nichols, 2. Morrigan, 3. Samantha. 8-10: 1. Stephanie, 2. Corrina, 3. Glenn.

CYDYMDEIMLWN: â'r Parch Aled Edwards yn ei brofedigaeth o golli ei ewythr yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs R. Turner, Tyddyn Difyr ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

DWY O LANBERIS YN 80 OED
Llongyfarchiadau i Mrs Nesta Jones, Hirron ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fai 22. Hefyd i Mrs Mary Thomas, 7 Rock Terrace ar ei phenblwydd yn 80 oed ar Fehefin 11. Dymuniadau gorau yr ardal i'r ddwy.

CYFLE I FFERMWYR IEUAINC CYMRU


Lansiwyd Cynllun i Ffermwyr Ieuainc Cymru Hydref diwethaf i'w hannog i roi ar gof a chadw hanes rhai o gymeriadau eu bro. Ystyriwyd y byddai Cynllun o'r fath o wir ddiddordeb i'r cyhoedd ac yn gasgliad archifol gwerthfawr i genedlaethau'r dyfodol. Mae'n sicr na sylweddolir gan y mwyafrif ohonom pa mor amryfal a chyfoethog yw'r cynllun hwn yn gyfle i aelodau alw i gof rai o gymeriadau nodedig eu cymdogaeth.

I chi'r Ffermwyr Ieuainc sydd â diddordeb yn y Cynllun, anfonwch yn union am ragor o fanylion gan gofio fod yn rhaid i'r cynlluniau gorffenedig fod i law erbyn 1 Hydref, 1983. Nid oes unrhyw amodau ynglŷn â hyd y Cynllun - gadewir hyn yn gyfan gwbl yn nwylo'r aelodau. Mae'n sicr y byddai golygydd eich Papur Bro yn falch iawn o gynnig gwagle o fewn y papur pe baech am ddefnyddio'r cyfrwng i hysbysebu am wybodaeth, lluniau ac ati.

Apeliad atoch felly i gefnogi'r Cynllun gwerth chweil hwn o gofio pe anwybyddir y cyfle, y gellid hwyrah, ei golli am byth.

Am fanylion pellach, cysylltwch â Mrs Lyn Evans, Ysgrifenyddes y Cynlluniau, Canolfan Clybiau Ffermwyr Ieuainc Cymru, Llanelwedd, Llanfair ym Muallt, Powys. LD2 3SY. Rhif ffôn: 0982 (553502-3)

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

PENSIYNAU YSWIRIANT MORGAI

Gwasanaeth newydd i bobl y fro

Robert Jones a'r Cwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais

SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR,

PENYGGROES


Ffôn: 880027 (24 awr)

Codwch y ffôn heddiw am bris

Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau, Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau, Ceir etc. ar gyfer pawb

ASiantaeth Leol Cymdeithas Adeiladu'r Halifax

YSGOL DOLBADARN LLANBERIS



BATHODYN YR YSGOL

Mae bathodyn ysgol Dolbadarn yn un hardd iawn. Y mae pethau diddorol iawn ynddo.

Mr. Pritchard luniodd y bathodyn, syllwch ar y bathodyn a chewch weld coed. Dyna sut cawsom ni yr enw 'Dolbadarn' am fod yr ysgol wedi cael ei hadeiladu ar ddôl goediog.

Enwir y ddôl ar ôl Sant Padarn.

Cewch weld llyfr ynghanol y bathodyn. Mae'r llyfr yn golygu bod yr ysgol yn dysgu'r plant.

Wedyn cewch weld grisiau yn arwain i fyny i'r mynyddoedd. Mae'r grisiau yn golygu ein bod yn tyfu mewn gwybodaeth ac yn dysgu llawer o bethau newydd bob dydd.

Hefyd gwelir mynyddoedd Eryri ar y bathodyn am ein bod yn byw wrth droed yr Wyddfa sef y mynydd uchaf yng Nghymru.

Barry Jones

Barn rhai o blant Safon 3 am eu pentref:

'Rwy'n falch fod rhywun wedi penderfynu adeiladu canolfan chwaraeon i bobl Llanberis o'r diwedd, ond dwi'n gobeithio na fydd yn rhy ddrud i fynd i mewn.

Helen Thomas

Mae yma lawer o bobl heb waith. Efallai y dylai rhywun ail agor y chwarel.

Nerys Hughes

Buasai'n braf petai'r cyngor yn tarmacio'r ffyrdd yn iawn yn lle gwneud eu hanner nhw, ac yna eu gadael.

Julie Wyn Baylis

Mae Llanberis yn le braf i fyw ynddo er gwaeth y tywydd.

Hannah Rudkin

Mae yna ormod o fynyddoedd o gwmpas Llanberis. Maent yn denu cymylau ac yn gwneud iddi fwrw bob dydd.

Justin Torr

Mae yna ddau gae chwarae, un ymhob pen i'r pentref. Rwyf i yn meddwl fod hyn yn syniad da, mae'n cadw'r plant rhag cwffio.

Christine Pitts

Mae llawer iawn o bobl yn byw yn Dol Elidir a Maes Padarn, ond nid oes un siop iddynt.

Stephen Jones

Mae Ysgol Dolbadarn yn le da i blant, yr unig le da iddynt yn y pentref.

Jennifer Clarida



Gwenlli Davies a Geraint Thomas yn cwblhau model Safon 3 o waith trydan Dinorwig.

Bu cryn dipyn o sôn yn ddiweddar am waith trydan Dinorwig ar y teledu ac yn y papurau newydd. O'r diwedd mae'r gwaith bron yn barod i gychwyn cynhyrchu trydan. Bu Safon 3 yn darganfod sut bydd y cynllun yn gweithio ac yn edrych ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Dyma rhai ffeithiau diddorol:

o dunelli o lechi o grombil Elidir.

Mae wedi cymryd saith mlynedd o waith caled i gwblhau'r cynllun.

Bu'n rhaid adeiladu clawdd 600 metr o hyd i ddal y dŵr ym Marchlyn.

Bu'n rhaid gwneud dros bedair kilometr o dwneli.

Bu'n rhaid symud miloedd o dwneli o sbwriel chwarel Dinorwig i wneud Llyn Peris yn fwy.

Bu'n rhaid tynnu dros ddwy filiwn



Dylan Parry a Bethan Jones yn astudio model Safon 4 o'r chwarel fel yr oedd mewn blynyddoedd a fu.

Rhai o Gymeriadau Hynod Ardal Llanberis

MARGED ACH IFAN

Roedd Marged yn byw yn Penllyn ger Brynrefail. Bu farw yn 1795 yn 92 oed. Roedd gan Marged 12 o filgŵn a daergŵn. Roedd yn lladd mwy o lwynogod mewn blwyddyn nag a laddai helwyr eraill mewn deg. Roedd Marged hefyd yn adeiladu ac yn rhwyfo cychod. Roedd hi yn cario Copr o ben uchaf Llyn Peris i Gwm-y-glo. Roedd yn medru gwneud telyn a ffidil a'u canu, roedd hi'n medru gwneud troell a nyddu gwlan.

Pan oedd Marged yn 70 oed roedd hi'n medru ymaflyd ag unrhyw ddyn a'i daflu i'r llawr. Mr Smith oedd perchennog y chwarel. Un diwrnod roedd Mr Smith yn dod i'r chwarel am dro. Teithiai yng nghwch Marged, meddyliai y buasai yn cael dipyn o hwyl. Dyma fo yn trio gwthio Marged i'r dŵr. Trodd Marged arno a'i daflu ef dros ochr y cwch. Ni adawodd Marged iddo ddod yn ôl i'r cwch nes oedd wedi talu gini iddi. Er bod llawer eisiau ei phriodi dewisodd yn yr ardal. Ei enw oedd Richard Morris ac roedd yn delynor.

Trystan Thomas

CADI'R CWMGLAS

Enw iawn Cadi oedd Cathrin Thomas. Roedd Cadi yn byw yn y Cwmglas. Mae Cwmglas yn ymyl Pont y Gromlech. Cafodd Cadi ei geni a'i magu yn y Cwmglas. Ei gwaith oedd bugeilio'r defaid.

Roedd Cadi yn debyg i ddyn. Roedd ganddi farf hir ac roedd ei llais yn debyg i lais dyn. Buasech yn

meddwl mai dyn wedi ei wisgo mewn dillad dynes oedd hi.

Un diwrnod gwelodd Cadi leidr yn mynd i'w thŷ wrth iddi fugeilio'r defaid. Wedi i'r lleidr ddod allan aeth Cadi i'r tŷ a gwelodd fod llawer o bethau wedi cael eu dwyn. Aeth allan. Gafaelodd mewn pastwn lliidiart ac aeth ar ei ôl. Wedi iddi ei ddal rhoddodd y bag i Cadi a dyna Cadi yn rhoi clustan iddo gan ddweud "Paid byth a dod y ffordd yma eto neu mi gei rhywbeth gwaeth." Rhedodd am ei fywyd.

Un diwrnod aeth Cadi i lawr at y cei i weld y copar yn cael ei lwytho yno. Roedd Thomas Jones yno. Ei waith oedd rheoli'r gwaith copar. Roedd Thomas eisiau chwarae tric arni felly gafaelodd ynddi a dwedodd "Sut fasat yn hoffi mynd i'r dŵr yna?" Rhyddhaodd Cadi ei hun yn hawdd a dyna hi'n gafael yn Thomas a'i ddal uwchben y dŵr a dweud, "Sut fasat ti yn hoffi mynd i'r dŵr, Thomas?"

Roedd gan Cadi frawd enwog. Ei enw oedd Abraham Thomas. Bardd oedd Abraham a elwid yn Bardd Du Eryri. Ymfudodd Abraham i America i fyw.


Julie Wyn Baylis

FFOWC Tŷ DU

Roedd Ffowc yn medru cario un pen i goeden fawr tra bod eisiau pedwar dyn i gario'r pen arall. Roedd yn medru dal tarw hefo un llaw gerfydd ei gyrn. Hefyd roedd yn medru cario llo un oed ar ei ysgwyddau.

Un diwrnod pan oedd Ffowc yn hen ŵr, daeth dyn mawr cryf o Sir Ddinbych i ymladd â Ffowc. Ond taflodd Ffowc y dyn dros y clawdd i'r ffos yn y cae. Buan iawn y dihangodd y dyn dieithr yn ôl i Sir Ddinbych.

Geraint Thomas




BLODAU GWYLLTION

Gellir dod o hyd i flodau gwylltion ym mhobman bron, yn y trefi yn ogystal ag yn y wlad.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn brydferth iawn, ac yn hawdd iawn eu hadnabod.

Gwaith y blodyn yw cynhyrchu hadau, ac o'r hadau hyn mae blodyn newydd yn tyfu. Tyfa'r hadau hyn ar ôl i'r blodyn gael ei beillio. Mae'r pail yma yn cael ei gario o flodyn i flodyn gan y gwynt, neu gan bryfed. Rhaid peidio torri a chasglu gormod o'r blodau gwylltion neu ni fydd digon o hadau ar ôl i wneud blodau newydd yn y dyfodol.



DAIL

Cyn i'r petalau agor gellir adnabod y blodau yn ôl eu dail, ond mae'r dail yn amrywio o flodyn i flodyn. Mae hyn yn dibynnu ar ble mae'r blodyn yn tyfu.

Mae gan flodyn sy'n tyfu mewn lle cysgodol ddail mwy o lawer na blodyn sy'n tyfu mewn man agored. Fel rheol mae'r dail yn dalach hefyd.

Gwers Natur Safon 2-3

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CASGLIAD O WAITH PLANT SAFON 1 YSGOL DOLBADARN LLANBERIS

DWYLO BABAN

Dwylo bach meddal heb ddim gwythiennau.
Dwylo bach brwnt yn cripio a thynnu gwallt.
Dwylo tew a meddal fel pwddin siwat.
Dwylo gwyn, gwyn fel brechdan.
Dwylo meddal fel ysbwng heb siâp yr un asgwrn i'w weld.
Dwylo bach yn agor a chau yn trio gafael ym mhob peth.
Dwylo llyfn a chigog. Dwylo gwyn fel yr eira.
Dwylo meddal fel cwshin.
Dwylo bach yn mynd i bob man yn chwilio ac yn chwilio.

FY NAWYLO I

Un llaw lân, ac un llaw yn fudur efo marciau inc.
Dwylo ffeind yn anwesu ci a chath.
Ysgwyd llaw gyda fy ffrind.
Dwylo cas yn cwffio a brifo.
Dwylo prysur, prysur fel y morgrugyn.
Dwylo efo dolur.
Dwylo efo plaster.
Dwylo gweithgar yn gwneud rhywbeth bron bob munud.
Mae dwylo yn bethau 'handi'.
Dwylo yn cario negas i mam.
Dwylo yn dysgu pethau newydd.
Dwylo bach, ond nid rhy fach.

DWYLO MAM

Dwylo annwyl sydd gan mam.
Dwylo sydd yn gwella briwiau.
Dwylo prysur, yn rhedeg ras o gwmpas y tŷ.
Dwylo ffeind.
Dwylo yn sychu dagrau.
Dwylo yn gwnio, coginio, llau a smwddio.
Dwylo cynnes, cynnes.
Dwylo sydd yn anwesu.
Dwylo yn mynd â phoen bol i ffwrdd.
Dwylo efo marciau llosgi arnynt.
Dwylo blin sydd yn gallu rhoi cweir.
Dwylo sydd byth yn llonydd.
Gwythiennau fel edafedd glas.
Dwylo mam yn gwneud y tŷ yn braf.
Dwylo sydd yn fy ngharu.

DWYLO DAD

Dwylo mawr, caled.
Dwylo cryf.
Dwylo blewog.
Dwylo garw.
Dwylo sydd yn medru trwsio dodrefn, car, beic a theganau.
Dwylo gydag ôl gwaith adeiladu.
Dwylo caredig, yn rhoi bwyd i'r babi.
Dwylo yn eich twcio i'r gwely.
Dwylo dad sydd yn rhoi bwyd yn eich bol a dillad amdanoch.
Dwylo dad yn rhoi pres i mam.
Dwylo dad yn ein cadw yn ddiogel.
Dwylo medrus.
Dwylo creulon yn rhoi chwip dîn.
Dwylo sydd yn cosi.
Dwylo sydd yn fy ngwasgu i yn dynn.

DWYLO NAIN A TAID

Dwylo oer.
Dwylo crychiog.
Croen fel papur trasio.
Dwylo efo cryd cymalau.
Dwylo sy'n cropian i bob man yn araf, araf.
Dwylo caredig.
Gwythiennau fel pryfaid genwair glas.
Dwylo di-siâp yn gafael mewn rhywbeth sydd ddim yna.
Dwylo yn crynu.
Pob asgwrn i'w weld drwy y croen tenau.
Dwylo yn rhoi pethau i mi.

LLIWIAU – CASGLIAD O WAITH SAFON 2

COCH YW LLIW PERYG!

Dihangodd cwningen Dylan o'i chawell, llamodd ar draws y lawnt a thrwy'r ffens.
Tu draw i'r ffens roedd cae, ac yn y cae porai clamp o darw du. Doedd Dylan ddim wedi sylwi ei fod yno. Pan welodd y tarw ei siwmpwr fflamgoch aeth yn gynddeiriog a rhuthrodd yn wyllt tuag ato. Erbyn hyn, roedd hi'n rhy hwyr i ddianc a chafodd ei dwlcio i'r llawr a'i ladd yn y fan a'r lle.
Ar ôl ei angladd daeth ei gwningen fach ac eistedd wrth ei fedd. Llifai dagrau i lawr ei gruddiau.

Euron Thomas

Y mae lliw coch yn gwneud i mi feddwl am ddydd Nadolig. Tynnu cracer oeddwn gyda Delyth, fy chwaer, ond doedd y gracer ddim yn torri. Wrth dynnu â'm holl nerth gollyngais hi ac fe ddisgynnodd Delyth yn ôl ar y soffâ ond fe syrthiais i ymlaen a tharo fy mhen yn erbyn y teledu. Llifai'r gwaed i lawr fy wyneb.
Rhedodd mam nerth ei thraed i'r ystafell ymolchi i nôl cadach, a throiodd y cadach gwyn yn gadach coch. Yn syth â ni wedyn i'r ysbyty ym Mangor a chefais bwythau yn fy mhen.
Ond yr wyf yn dal i dynnu cracers!


Lyn Davies

Mae dad fel arfer yn gwisgo trowsus brown. Ond pan mae'n trwsio'r modur, ofarôl gwyrdd sydd amdano. Pan fydd yn mynd i bwyllgor pwysig yn Llundain mae'n gwisgo siwt, smart ddu.

Helen Jean Gartside

Rydw i'n cysylltu Mam â'r lliw gwyn am nad yw hi byth yn gwahanu â'r siwmpwr wen gafodd hi'n anrheg gan dad.

Bruce Turner



AR DRAWS:

- 300 + 200
- (1500 x 2) + (50 x 2) + 7
- 5 x 5
- 237 ÷ 3
- (500 x 6) + (500 x 6) + (160 x 2)
- 15 x 5
- 100 + (50 x 4) + 90
- 5 + 5 + 9
- 36 - 20
- 200 - 50 - 38
- (200 x 4) - (40 x 2)
- (350 x 3) - 133
- (150 x 2) + 300 + (21 x 2)
- 272 ÷ 4
- 11 x 2

I LAWR:

- (250 x 2) + 60
- (800 ÷ 2) - 8
- 10,000 - 2361
- (100 x 5) + (11 x 5)
- 1460 ÷ 2
- (12 x 5) + (3 x 3)
- (200 ÷ 4) + 20
- 200 + (5 x 40) + 16
- 17 + 0
- 800 - 177
- 100 + 6 + 23
- (400 x 9) + 3272
- 6 x 2

Safon 2-3

Mae du yn gwneud i mi feddwl am mam pan mae hi'n mynd allan.

Bydd hi'n gwisgo siaced ddu, sgert neu drowsus du ac esgidiau du sodlau uchel. Dros y dillad yna mae'n gwisgo côr ffwr ddu ac mae'n cadw mam yn berffaith gynnes.

Debbie Hughes

Mae gwyn yn gwneud i mi feddwl am nain. Bob tro pan edrychaf ar ei gwallt rydw i'n ei weld yn troi yn wyn, wyn.

Dywedais hyn wrth nain a lliwiodd ei gwallt yn felyn. Ond yn fy meddwl i rwy'n dal i'w weld yn troi yn wyn.

Debbie Hughes

Gwyrdd yw'r dail sydd ar y coed
Gwyrdd yw'r glaswellt dan fy nhroed
Gwyrdd yw coes y lili wen
Gwyrdd yw lliw llygaid Gwen.

Lyn Davies

Glas yw'r awyr uwch y mynydd
Glas yw lliw y môr aflonydd
Glas yw'r llechi ar y toeau
Glas yw lliw fy llygaid innau.


Nia, Bruce, Lyn ac Euron

Du yw lliw y wrach sy'n sgrechian
Du yw lliw ei chath a'i chrochan
Du yw gwisg y lladron drwg
Du yw'r glo a du yw'r mwg.

Ruth, Kevin, Bethan, Sharon

Coch yw lliw y gwaed sy'n llifo
Coch yw'r afal sydd yn sgleinio
Coch yw'r ddraig ar faner Cymru
Coch yw'r rhuddem ar y fodrwy.

Fawn, Ruth, Euron, Nia



CAPTEN HARRI MORGAN

Ganwyd Harri Morgan yn 1635. Roedd ei dad yn ffermwr cyfoethog, ond nid oedd Harri yn hoffi gweithio ar y tir, ac aeth i fyw i Jamaica at ei ewythr. Yno daeth yn ffrindiau hefo môr-ladron ac ymuno â hwy. Ymhen ychydig o amser daeth yn gapten ar y criw. Roeddynt yn hwylio o gwmpas

Môr y Caribi yn ymosod ar longau ac yn dwyn aur a gemau gwerthfawr. Yn y diwedd daliwyd y môr-ladron a'u rhoi yn y carchar. Gyrrwyd Harri Morgan i Lundain i sefyll ei brawf, ond yn lle ei grogi, maddeuodd y Brenin Siarl II iddo ef a'i ollwng yn rhydd. Dychwelodd Harri Morgan i Jamaica, a bu'n Reolwr ar yr ynys hyd ddiwedd ei oes.

Gwers Hanes – Safon 2-3

Y PYSGODYN AUR

Yn ddiweddar cawsom set deledu lliw yn yr ysgol ac un rhaglen ddiddorol a welais arni oedd rhaglen am y pysgodyn aur. Y mae miloedd o bysgod aur yn y byd, ond maent i gyd yn dod o'r un teulu.

Y mae'r jar yn dodwy llawer o wyau ond nid ydynt i gyd yn tyfu. Dechreuodd hanes y pysgodyn aur fil o flynyddoedd yn ôl yn China. Ei enw cyntaf oedd y Carb Llwyd, ond yn fuan gwelodd pobl fod ychydig o goch arno. Y mae rhai pysgod aur yn cael eu gwerthu mewn siopau ac mewn ffair.

Y mae pyllau mawr o ddŵr ar fferm bysgod. Mr Dick Price oedd yn gweithio yno. Roedd o yn rhwydo'r pysgod a'u rhoi mewn pwll arall er mwyn iddynt gael dodwy wyau. Un gelyn mawr sydd gan y pysgodyn aur a hwnnw yw Glas y Dorlan.

Maria Willis

AR LAN Y MÔR

Cerdded ar hyd y traeth,
A'r tonnau yn torri ar y creigiau
Tynnu fy esgidiau a cherdded i'r dŵr,
Hwnnw'n cosi bysedd fy nhraed.
Y tywod yn felyn fel aur –
Draw ar y gorwel gweld llong yn hwylio
Os gwn i ble mae'n mynd?
Efallai i'r gogledd oer, neu
I heulwen y de.
Rhyw ddydd efallai yr af i hefyd
I heulwen y de.

Wendy Rowlands

LLANBERIS

Rwy'n hoffi Llanberis mewn llawer o ffyrdd. 'Rwy'n hoffi trên bach yr Wyddfa sy'n mynd i fyny ac i lawr y mynydd bob dydd. Mae llawer o bethau i'w gwneud yn Llanberis. Gellwch fynd i'r stablau i farchogaeth neu cewch fynd i ddringo'r Wyddfa neu fynd am dro wrth ymyl y llyn.

Cewch fynd draw at ochr arall y llyn i weld hen ysbyty'r chwarel. Mae yna drên bach sy'n mynd o amgylch Llyn Padarn.

Mae Llanberis yn le hyfryd iawn. Yn yr haf mae llawer o bobl ddiethr yn dod yma.

(Samantha Lowe)

FY HOFF LE

Fy hoff le yw y cae chwarae yn y pentref. Byddwn ni yn galw'r cae chwarae yn 'Gas'. Yma roedd gwaith nwy pentref Llanberis ers talwm. 'Rwyf i yn cofio'r tair drwm fawr oedd yn dal y nwy. Chwalwyd y gwaith nwy er mwyn gwneud cae chwarae ond mae arogl y nwy yn dal yno. Mae'r giât yn anodd ei hagar, mae fel ceisio gwthio trol. Pan fyddaf i a'm ffrindiau ar ben y sleid, neu'r ffrâm ddrinog byddwn yn dychmygu ein bod mewn fforest fawr, a bod anifeiliaid gwyllt oddi tanom. Mae yno dair siglen rwbwr wedi cael eu plygu fel gwaedol wy. Bydd rhai plant yn hoffi neidio oddi ar y siglen a gweiddi nerth eu pennau, ond mae'n well gen i fod ar y si-so a dychmygu fy mod yn carlmanu'r wyllt ar gefn ceffyl.

Christine Pitts

DEINIOLEN

Gohebydd: Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DIOLCH: Dymuna Joyce a Peter Kasperek, Llanfair P.G. (26 Hafod Oleu gynt) ddiolch o galon i'w ffrindiau, a'r teulu, a phawb o fro'r Eco am eu rhoddion ac anrhegion, ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Sara. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mr a Mrs Alun Wyn Evans, 55 Pentre Helen ddiolch o galon i'r wraig ifanc a fu mor hynod garedig wrth Mrs L. Evans pan syrthiodd a thorri ei braich yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Mae Mr a Mrs Evans yn mawr obeithio ei bod yn derbyn yr Eco gan na chawsant ei henw na'i chyfeiriad er mwyn iddi dderbyn eu diolch diffuant. Diolch yn fawr iawn iddi am ei gofal caredig yn aros gyda Mrs Evans ar ôl ei damwain.

LLONGYFARCHIADAU: i Julie, merch ieuengaf Mrs Nancy Thomas, a'r diweddar Gordon Thomas, 62 Pentre Helen ar ei dyweddiad â Richard, mab hynaf Mr a Mrs Michael James o Rygbi.

Y SEINDORF: Mewn pwyllgor a gynhaliwyd yn Ystafell y Seindorf ar Ebrill 6 dan lywyddiaeth Mr Gwyn Parry pasiwyd fod y Seindorf i gystadlu yn Nosbarth C yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni eleni. Eu hyfforddwr proffesiynol fydd Mr G. Childs. Mae Mr Childs ar hyn o bryd yn arweinydd Band Glofa Corlton Swydd Efrog. Ond un o Dde Cymru ydyw yn wreiddiol, sef cyn-arweinydd Seindorf Tredegar cyn symud i Loegr.

Cofiwch am y Bingo sydd yn cael ei gynnal yn Ystafell y Seindorf bob nos Wener (arian parod).

Enillwyr Clwb y Seindorf 200 am fis Ebrill: 1. £26: Rhif 24, Mr D. Jones, 23 Hafod Oleu, 2. £15: Rhif 143, Mr D.W. Jones, 3 Rhydfadog, 3. £5: Rhif 149, Mr M. Parry, 27 Lôn Llwyd, Pentraeth. **Enillwyr am fis Mai:** 1. £25: Rhif 180, Miss O. Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis, 2. £15: Rhif 57, Mrs Ellen Williams, 1 Pentre Helen, 3. £5: Rhif 120, Miss K. Williams, Arfon House, Deiniolen.

DIOLCH: Dymuna Mr Denis Hughes, 98 Y Wern, Y Felinheli ddiolch o galon i'w ffrindiau, cymdogion a'r teulu i gyd, hefyd i'w gydweithwyr gyda chwmni Crosville am eu caredigrwydd a'u ffyddlondeb iddo tra bu'n Ysbyty Môn ac Arfon ac Ysbyty Eryri ac wedi iddo ddod i aros at ei rieni yn Neiniolen. Diolch yn arbennig i'r meddygon a'r gweinyddesau yn y ddwy ysbyty am eu gofal di-ffino. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Siân Wyn Gibson, 17 Hafod Oleu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd iddi ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch am yr holl gardiau, a'r anrhegion a dderbyniodd. Diolch yn fawr i bawb.

SNWCER - Deiniolen Blacks - Llongyfarchiadau i Eurwyn Grindley a Gareth Grindley ar ennill y Gwpan Cynghrair Adran Gyntaf. Eu gwrthwynebwyr oedd Caernarfon Crosville Blacks. Mewn cystadleuaeth gyffrous iawn enillodd y ddau hyn eu gem terfynol, ym mhencampwriaeth yr adran gyntaf. Barry Thomas a Gwyndaf Jones oedd yn chwarae yn yr ail ran. Bydd y rhai hyn yn cael eu gwobrwyo yng Nghlwb Cymdeithasol Bangor nos Wener, Mai 27.

Dymuna Mrs Mary Jones, 4 Bwthyn ben-blwydd hapus iawn i'w brawd, Ifan Parc yn 80 oed.

Mae Ifan Parc o blwy Llanrug Yn bedwar ugain oed A hithau, Meri Jones, ei chwaer Fel pioden ar ei throed.

Nid oes yn aros ond y ddau

O deulu hen y fro

Ond diolch wnawn o weld y ddau Yn ddyddiol ar y go.

Trwy holl dreialon blin eu taith

Bu'r ddau mor sionc â'r hydd

Yn dilyn holl orchwylion byd

Yng ngolau lamp eu ffydd

Am flwyddi hir ar graig eu ffydd

Bu Ifan wrth ei waith

Yng nghwmni hen chwarelwyr dewr

Dan ludedd llawer craith.

Mor felys yw cael dod ynghyd

I wledda yn gytûn

Y plant a'r wyrion wedi dod

Mor llawer bob yn un

I ddathlu dydd pen-blwydd eu taid

A sôn am ddyddiau gynt

Atgofion ddoe yn dod i'r cof

Fel newydd ar eu hynt.

Dymuno 'rym fendithion fyrrd

I'r ddau ar hwyrnos oes

A llawer blwyddyn eto i ddod

Heb unrhyw awel groes

Er newid ar arferion byd

Trwy lawer tref a llan

Fe erys cof am ddyddiau fu

Fel rhyw annatod ran.

*John David Evans (Joni'r Iard)
Maes y Dref
Clwt-y-bont
Deiniolen*



John ac Annie Williams, Gwydryn, Llansadwrn, Ynys Môn ar achlysur dathlu eu priodas aur. Merch yw Mrs Williams i'r diweddar John a Margaret Elin Williams, 10 New Street. Gadawodd yr ardal i weini ym Miwmaris ac wedi pridi un o Sir Fôn.

DIOLCH: Dymuna Mr Jacob James, Regent House, Deiniolen ddiolch i bawb a bleidleisiodd iddo yn Etholiadau ar gyfer Cyngor Arfon (Wardiau Deiniolen a Dinorwig) ac i'r cyfeillion hynny fu'n cynorthwyo ar ddiwrnod yr etholiad ac yn dosbarthu pamffledi. Diolch hefyd am y llythyrau, cardiau a galwadau ffôn yn ei longyfarch ar ei lwyddiant. Neges Mr James i chwi oll yw: "Rwy'n addo y byddaf yn parhau i wneud fy ngorau fel Cynghorydd Arfon i'r ddwy ward yma dros y bedair blynedd nesaf."

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fai 9 dan ofal y llywydd. Darllenwyd y llythyr misol a'r cofnodion o'r mis diwethaf gan yr ysgrifennydd. Croesawodd y llywydd y wraig wadd sef Mrs Cemlyn Williams, Caernarfon y 'V.C.O.' a thraddododd y penderfyniadau sydd i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn Llundain ar Fehefin 2. Miss Beti Williams fydd yn ein cynrychioli yn y cyfarfod. Diolchwyd i Mrs C. Williams gan Mrs E. Williams, 2 Y Bwthyn, a hefyd cydymdeimlwyd â Mrs E. Williams ar golli ei brawd yn ddiweddar. Croesawyd aelod newydd hefyd sef Mrs Beti Williams, 85 Pentre Helen. Enillwyd y raffl gan Mrs Maureen Evans. Yr enillydd am y

gwpan a soser mwyaf deniadol oedd Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen. Rhoddwyd y te gan Mrs J. Eilys Williams a Mrs Beti W. Davies. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 7 pryd y bydd Mrs M. Hughes, Glynllifon yn rhoddi arddangosiad coginio.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Owen John Jones, 1 Maes Gwylfa ddiolch o galon am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd eu mab Paul Martin ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Katie, Will a Dewi, 13 Pentre Helen ben-blwydd hapus iawn i'w mam, a llawer o hapusrwydd i'r dyfodol gyda phob dymuniad gorau iddi.

CHWILOTA: (Rhifyn mis Mai): Dangoswyd llun o fws Crosfille wedi mynd i'r wal yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco' a gofynnwyd ymhle yn ardal Deiniolen y digwyddodd y ddamwain. Mae Mrs Doris Fleming, 12 Maes Gwylfa, Deiniolen ymhlith nifer o bobl sy'n cofio mai ar dro Penlan, Gallt-y-foel y digwyddodd y ddamwain. Roedd Mrs Fleming yn byw yn Nhan y Clogwyn ar y pryd. Roedd y bws, neu'r 'car gwyllt' wedi cludo gweithwyr Caernarfon i'r chwarel ac yn brysi'n wyllt at lyfrgell Deiniolen i gludo gweithwyr Deiniolen i'r chwarel. Yn ôl Mrs Fleming, byddai'r bws wedi mynd dros yr ochr oni bai am bolyn telegraff, a dorwyd gan y bws yn y ddamwain. 1938 oedd y flwyddyn medda hi. Y bachgen a'i gefn at y camera yw Fwythr Nowi, sef Mr Owen Parry, 14 Hafod Oleu, Deiniolen.

Gwyn Parry

PLAID CYMRU: Cyfarfu pwyllgor y gangen nos Lun, Mai 2 ac ers hynny cynrychiolwyd y gangen mewn cyfarfodydd cychwyn yr ymgyrch etholiad. Ymddiheuraf i aelodau'r gangen oherwydd gorfod gohirio cyngerdd Dafydd Iwan, Mai 20. Yr etholiad cynnaf a oedd yn gyfrifol am hynny. Enillwyr Clwb Cant mis Mai oedd, Rhif 6: £10, Mr Gwyndaf

Roberts, Crud yr Awel, Porth y Gogledd, Rhif 22: £8.50, Miss Mair Rees Jones, Tan y Caerau. Cynhelir y daith ddirgel flynyddol nos Wener, Mehefin 24. Gofynnir i'r aelodau ac eraill roi eu henwau i Mr Goronwy Jones, Mr David Wyn Williams neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Ganolfan nos Lun, Mai 16. Y llywydd oedd Mrs Miriam Lewis. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan yr Ysgrifennydd. Y wraig wadd oedd Miss Jane Jones, Swyddog Iechyd. Siaradodd ar y 'Ffordd o Fyw Bywyd lach'. Dangosodd, trwy gyflwr ffilm, y gwahanol agweddau sydd yn achosi afiechydon. Diolchwyd iddi gan Mrs Dilys Hughes. Cafwyd adroddiad cryno gan Mrs Jane Eirlys Williams am y pwyllgor anabl a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn, Ebrill 23. Rhoddwyd y te gan Mrs Margaret Jones, Mrs Margaret Roberts a Mrs Dilys Williams. Enillwyd y raffl (rhoddedig gan Mrs D. Williams) gan Mrs Dilys Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Mehefin 20 yn y Ganolfan. Taer erfynnir am bresenoldeb yr holl o'r aelodau i'r Cyfarfod Blyneddol.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn y Clinkig nos Wener, Mai 13. Dymuna aelodau'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn nwyddau ac arian er llwyddiant y noson. Enillwyd y raffl gan y rhai canlynol: Mrs Elin W. Williams, 1 Pentre Helen, Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen, Mrs Rita Jones, Becw, Mrs Beti Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig, Mrs Elin Williams, 15 Hafod Oleu, Mrs Beti Roberts, 48 Rhydfadog. Gwnaed elw i law o £305. Diolch hefyd i rhai o aelodau'r Clwb a fu'n gwasanaethu wrth y byrddau. Diolch yn fawr iawn i bawb.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

SIOP HELEN

CHESTER HOUSE

DEINIOLEN

FFÔN: 870386

Dillad ysgol ar gyfer
Ysgol Brynrefail 1983
ar werth yma o Fehefin ymlaen.
Esgidiau a dillad plant o bob math.

CYMRU YN AWSTRALIA

Yn ddiweddar treuliodd Alys Eileen Williams, Brynrefail, sydd yn enwog trwy Gymru gyfan fel hyfforddwraig Dawnsio Gwerin, gyfnod yn Awstralia yn cyflwyno dawnsfeydd traddodiadol Cymru i Gymry Awstralia. Aeth yno ar wahoddiad Dorothy Pretty, merch oedd yn un o ddisgynyddion John Thomas, Llanddeiniolen.

Yn ystod ei harhosiad sefydlodd ddsbarthiadau yng Nghanolfan y Carlton, Melbourne. Yn naturiol cafodd gyfle i deithio o gwmpas y wlad yn ogystal gan aros gyda Dorothy Pretty a'i chwaer Bronwen a'i theulu.

Bu yn Awstralia yn ystod cyfnod y tanau mawr erchyll. Arhosai ar y pryd gyda'r Parch a Mrs J.D. Griffiths (gweinidog Capel Cymraeg Melbourne). Ar y nos Fercher ofnadwy hwnnw y gwelwyd y tanau am y tro cyntaf (dydd Mercher Llundw i bobl Awstralia) roedd Alice yn y pwll nofio yng ngardd Mr a Mrs Griffiths. Yno ar y pryd roedd aelodau eraill o'r teulu, ond nid oedd Mr Griffiths gartref. Roedd o wedi mynd i ymarfer gyda Chôr Cymraeg Melbourne y noson honno. Yn sydyn gwelodd Alice olygfa anhygoel - fel "yr haul yn gwaedu" oedd ei disgrifiad hi.

Wedyn daeth mwg, hudduyg, llwch a baw dros bob man - i'r ardd ac i mewn i bob cornel o'r tŷ. Wrth gwrs roedd y newyddion ar y teledu. Nid oedd Alys yn gallu cysgu llawer y noson honno felly arhosodd ar ei thraed. "Ofn mae'n debyg," oedd ei hesboniad. Treuliodd y rhan helaeth o'r nos yn gwrandao ar y newyddion cyn cael ychydig o gwsg, ond cododd am 6 o'r gloch gan dacluso ychydig o gwmpas y tŷ ar ôl llwch a baw y noson gynt.

Canodd y ffôn cyn 7 o'r gloch, a chlywodd Alys lais Doris Jones Roberts (modryb Gerallt a Geraint Lloyd Owen). Roedd hi'n poeni am ei mab, Ieuan, oedd yn byw yn ardal y tanau.

Wedyn daeth ail alwad ffôn, o Gymru y tro yma, gan Nerys, nith Alys o Langefni. Roedd y teulu wedi gweld y tanau ar y teledu, ac yn bryderus iawn.

Erbyn hyn roedd Mr a Mrs Griffiths wedi codi ond nid oeddynt yn poeni llawer ynglŷn â'r tanau.

Yn ystod y dydd gwelwyd y golygfeydd erchyll ar y teledu, a gwelwyd hefyd yr elfennau da a drwg

sydd yn llechu ym mhob un ohonom. Rhai pobl yn dangos caredigrwydd eithriadol gan gynnig llety, bwyd ac yn y blaen ac eraill yn manteisio ar y sefyllfa i ddwyn ac i elwa. Mae'n arferiad gan bobl y 'Bush' i guddio'u trysorau mewn blwch dan y llawr neu'r ddaear pan ddeuai tanau "Bush", ac roedd y rhan fwyaf wedi gwneud hyn y tro yma, ond gwelwyd rhai diegwyddor yn mynd o gwmpas gyda pheiriant i ddarganfod metel gan chwilio am y trysor.

Ar y Sadwrn canlynol cafodd Alys gyfle i helpu'r anffodusion mewn ffordd ymarferol. Roedd dawnsyr Melbourne wedi trefnu i ddawnsio i lawr Bourke Street yn y ddinas i ddathlu Gŵyl Ddewi, ac roedd plant o'r ardaloedd cyfagos yn cael ymuno â nhw. Alice oedd wedi hyfforddi'r dawnsyr, ac fe drosglwyddwyd yr arian a gasglwyd i helpu'r anffodusion gan chwyddo Cronfa'r Tanau.

Roedd teimlad naturiol ymhlith pawb mai doeth fyddai cadw draw o ardal y tanau, ond roedd gwyliau ar ôl gan Alys felly dyma gyfle iddi ymweld â New South Wales, Queensland a'r Capital Territories.

A hithau o fewn mis i deithio yn ôl i Gymru cynyddodd yr awydd ynddi i weld "Dadeni" neu Adfywiad Ardal y Tanau. O'r diwedd cafodd gyfle i deithio gyda Cyril a Luned Platt (fo o Benmachno, hi o Rosgadfan).

Wythnos cyn iddi ddod yn ôl aeth y tri ohonynt i Fynyddoedd y Dandenong i ymweld â phentref Cockatoo, neu'n hytrach i weld lle bu'r pentref - 'roedd pob man yn ddu. Doedd dim tai yn sefyll, dim ond coedwig ddu a daear ddu. Ond yn wyrthiol wrth ddod yn nes gwelwyd gwyrddni yn mynnu ymddangos - brigau, dail, rhedyn yn tyfu ar foncyffion oedd yn ddu fel y fagddu. Ym mhob man roedd sŵn morthwylio ac ailgodi. Roedd rhai yn trin eu gerddi, a dim tai ganddynt!

Yng nghanol hyn i gyd ar groesffordd y pentref gwelodd Alys arwydd ar foncyff - sef y gair 'CYMRU'. Ar ôl stopio a holi a chael dim eglurhad, daeth merch allan ar falconi yr unig un o dai'r pentref oedd yn sefyll ar ôl y tân. Galwodd i lawr:

"Can I help you?"

"I'm interested in the sign," oedd ymateb Alys.

"I'm Welsh and that's the name of

Wales in Welsh," meddai'r ferch. "My name is Rhiannon."

Dyma ddechrau sgwrs rhwng pedwar o Gymry yng nghanol y Bush yn Awstralia ond o'r eiliad honno newidiodd yr iaith o'r Saesneg i'r Gymraeg. Roedd tad Rhiannon yn ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Glyn oedd enw ei gŵr ac roedd un mab, Tomos, ganddynt. Roedd mam Rhiannon yn cychwyn yn ôl i'r Barri drannoeth. Rhaid oedd cael paned - sospan ar stôf paraffin - doedd dim trydan.



Adroddodd Rhiannon ychydig o'u profiadau ddiwrnod y tanau. Roedd Glyn yn ei waith, Rhiannon yn gweithio yn Swyddfa'r Groes Goch yn Melbourne, a Tomos yn cael ei warchod. Glyn oedd y cyntaf i gyrraedd adref a gwelodd y tân fel "byddin yn martsio i lawr y bryn". Aeth allan o'r tŷ a gwlychodd y waliau a'r to gyda pheipen ddŵr o'r ardd. Wedyn rhoddodd y gath, y ci, Albwm o luniau teuluol yn y car a'i chychwyn hi. Ymhen ychydig cafodd ei stopio gan yr heddlu a'i droi'n ôl. Aeth adref a rhoi mwy o

ddŵr dros y tŷ. Clywodd gi yn udo ac aeth i chwilio amdano. Roedd cymdogion wedi dianc gan adael eu cŵn yn y tai. Aeth â rhai yn ôl efo fo i'w dŷ. Erbyn hyn roedd y tân yn nesáu. Daeth ar draws y ffordd, a daeth pelen o dân a chyffwrdd â wal y tŷ cyn mynd heibio. Treuliodd Glyn ei amser yn gweddio, ac yn wyrthiol doedd dim difrod i'r tŷ. Roedd pawb "yn nwylo Duw" yn ôl un o'r Swyddogion Tân. Doedd Glyn ddim yn gwybod bod Rhiannon a Tomos yn fyw tan y dydd Sul. Doedd Rhiannon ddim yn gwybod beth oedd wedi digwydd i Glyn 'chwaith.

Yr argraff a gafodd Alys oedd bod pawb yn falch o gael tystio bod daioni wedi dod o'u profiadau erchyll.

Yr oedd eu ffydd a'u cred yn Nuw yn gadarnach a dyfnach. Codwyd eglwys newydd, ysgol newydd a Swyddfa'r Heddlu newydd, ond yn bwysicach daeth ysbryd newydd i bentrefwyr Cockatoo.

(Bydd Alys Eileen Williams yn cyfrannu cyfres o erthyglau i'r Eco yn olrhain ei phrofiadau ar ei thaith. Diolch yn fawr iawn iddi.)



W.J. GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP

 Aelod o'r National Association of Plumbers and Mechanical Contractors.
Dim un dasg rhy fychan, Dim un dasg rhy fawr..

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd

Bistro
45 Stryd Fawr LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871 278
(Danny a Nerys Roberts)
Pryd gorau'r fro

TROI ORGAN YN DDIDDANWCH

Bu'r Parch Idris Thomas, Trefor yn sgwrsio â **WILLIAM HUXLEY THOMAS**, organydd Eglwys Sant Padarn, Llanberis

TEULU A GWAITH

Dydd Llun y Pasg ydoedd ac er bod y gwynt yn oer, yr oedd rhai ymwelwyr yn crwydro ar hyd a lled Llanberis. Cynnes iawn oedd y croeso a gefais yn Bryn Myfyr, Stryd Newton pan es i sgwrsio â Mr William Huxley Thomas a rhyfeddu at ei ddycnwch mawr. Y peth cyntaf a ddywedodd wrthyf oedd, "Byddaf yn 85 oed pan ddaw Gorffennaf y trydydd." Yn Llanberis y ganwyd ef a bu Bryn Myfyr yn gartref iddo drwy'i oes. Roedd ei dad, George Huxley, yn dod o Brynrefail a Margaret, ei fam, o Brynsiencyn, Ynys Môn, ef oedd yr unig blentyn.

Chwarelwr yn Chwarel Dinorwig fu ei dad drwy'i oes, bu farw yn 65 oed. Cyfnod tlawd oedd cyfnod plentynod Huxley Thomas fel ag yr oedd yn holl bentrefi'r chwarel a dywed mai achlysur trist a dweud y lleiaf oedd pan oedd ei dad ar ôl gweithio mis yn y chwarel ac wedi talu'r hyn a'r llall o'i gyflog, yn dod i'r tŷ gyda hanner coron ar ôl. Roedd y teulu yn aelodau yng Nghapel Presywlf, Llanberis gyda'i dad yn athro Ysgol Sul ar ddosbarth o 16 o ferched: i Ysgol Sul y Capel hwn yr âi Huxley Thomas pan yn blentyn.

Yn Ysgol Llanberis y cafodd ei addysg ffurfiol i gyd o 6 oed hyd nes yr oedd yn 15 oed; yr ysgolfeistr yr adeg yma oedd Mr Gabus Jones. Yn 15 oed aeth i weithio i Iard y Chwarel sef Gilfach Ddu lle y cafodd ei brentisio fel ffitar am bum mlynedd.

Ond torrodd y Rhyfel Cyntaf allan a gorfu iddo fynd i Lundain i weithio. Hanner blwyddyn yn unig y bu yno. Bu rhaid iddo adael oherwydd afiechyd. Yna aeth i ddinas Caer fel ffitar ar y Rheilffyrdd am dair blynedd cyn dychwelyd yn ôl i iard Gilfach Ddu lle y bu'n gweithio weddill ei oes gan ymddeol yn 1963. Roedd yn hoff o'i waith ac yn mwynhau cwmni'r hogiau. Bu farw priod Huxley Thomas, sef Mary, chwe blynedd yn ôl, roedd yn hanu o'r Fachwen, yr ochr arall i Lyn Padarn; bu'r ddau yn briod am 45 mlynedd a bu marwolaeth Mary yn golled fawr iawn iddo. Roedd dau fab ganddynt sef George ac Elgar; boddwyd George mewn trychineb pan yn 41 oed a gweithia Elgar heddiw yn Ysbyty Abergele.

CARIAD AT GERDDORIAETH

Roedd gan Huxley Thomas gariad at fiwsig pan yn hogyn bach a daeth ei ddawn cerddorol i amlygrwydd yn gynnar iawn. Cafodd wersi piano ar y cychwyn cyntaf gan ddau o organyddion Capel Presywlf sef Mr Johnny Lloyd Hughes ac yna gan Mr Richard Jones (Alaw Mai) a roddai wersi ar yr organ iddo hefyd. Yn 18 oed daeth yn un o organyddion Capel Presywlf gan rannu'r dyletswyddau, un Sul ar y tro, gyda Mr William Hughes.

Pan oedd yn 25 oed cafodd gynnig i chwarae yng Nghapel Ebeneser (Wesleiaid) Caernarfon gan Mr Walter Thomas a derbyniodd y cynnig gan fod yn organydd y capel am ddeng mlynedd gan chwarae bob

Sul a chanol wythnos pan fyddai cyfarodydd pregethu. Yna cafodd wahoddiad i ddod yn organydd Capel Tabernacl (M.C.) Bangor i ddilyn Mr John Williams, organydd o fri. Bu ym Mangor am 7 mlynedd gan ddod adref o'r Tabernacl ambell i amser cinio rhwng gwasanaethau; Dr Parry Williams oedd ei olynydd yn y capel fel organydd.

ORGANYDD YN YR EGLWYS

Bu rhai o aelodau St Padarn, Llanberis yn holi a fedrai ddod i'r Eglwys i chwarae'r organ a chlywodd fod Rheithor y pentref ers blwyddyn, y diweddar Canon Alun Jones, eisiau ei weld ynghylch y mater. Aeth Huxley Thomas i'r Rheithordy i weld "y Person ifanc dymunol". Roedd organydd presennol St Padarn sef Mr Watkyn Jones (mab Alaw Mai) am fynd yn organydd i Eglwys St Iago, Bangor ond arhosodd gyda Huxley Thomas am fis yn St Padarn er mwyn iddo ei gyfarwyddo hefo'r gerddoriaeth Eglwysig canys roedd y cyfan yn ddiethr iawn iddo. "Er bod siantio yn Tabernacl" meddai "profiad chwithig oedd chwarae yn St Padarn ar y cychwyn cyntaf." Ond gwnaethpwyd gwaith Huxley Thomas yn hawdd canys yn Eglwys Llanberis roedd cynulleidfaoedd llusosog yn bresennol yn y gwasanaethau, y canu yn ardderchog, gyda chôr campus o ferched a hogiau ifanc. "Roedd y gwaith," meddai, "a bu ers hynny yn bleser llwyr."



FFRIND

Ni allai ond siarad yn uchel am y Canon Alun Jones gan eu bod yn ffrindiau personol. Lle bynnag yr âi'r Canon ar ei deithiau o'r plwyf, gyda'i waith neu hamdden, byddai bob amser yn rhoi gwybod i Huxley Thomas a byddai cerdyn post yn dod iddo oddi wrth y Canon o bobman. Yna pan ddychwelai'r Canon gartref cawsai wybod ganddo am ei hynt a'i helynt. "Roeddem yn dallt ein gilydd yn iawn," meddai, "ac ni fu twrw bach na mawr rhyngom."

Roedd y newydd am ei lofruddiaeth erchyll mis Hydref diwethaf yn loes mawr i Huxley Thomas gan ei ddychryn yn arw. Hoffai'r Canon gerddoriaeth ac yng nghwrs y blynyddoedd tapiodd Huxley Thomas yn chwarae'r organ gan roi gwefr iddo pan chwaraeai hwy wedyn. "Timladau trist yn naturiol sydd yma," meddai, "ar ôl

yr hyn a ddigwyddodd iddo, ac ni fydd y lle byth yr un fath."

CYFEILIO

Yn naturiol bu galw am ddawn Huxley Thomas fel cyfeilydd mewn eisteddfodau a bu "yn cyfeilio o Aberdaron i Ddinbach." Bu'n cyfeilio mewn dwy o eisteddfodau Rhosgadfan, Methodistiaid a'r Annibynwyr, un yn Ionawr a'r llall yn Chwefror am 14 mlynedd a chofia yn dda am un hanesyn diddorol pan ddaeth adref o un o'r rhain.

"Roedd yn hanner nos ar y steddod yn dod i ben ac ar ôl mynd ychydig gyda'r cafwyd trafferthion. Darganfyddais fod y beipen betrol wedi torri a chan na allai'r car symud penderfynais mai mynd i sedd gefn y car a cheisio cysgu yno fyddai raid. Ond deuthum o hyd i 'insulation tape' a medrais glymu'r ddwy beipen ynghyd a medrodd y car fynd, neu yno y buaswn wedi bod drwy'r nos a hithau yng nghanol gaeaf."

Bu'n cyfeilio droeon yn steddod Dwyran, Ynys Môn, a hynny bob Calan, "Roedd hon yn steddod dda gyda chantorion o fri yn perfformio." Cyfeiliai mewn tua 25 o eisteddfodau y flwyddyn yn aml.

Bu'n cyfeilio i Gôr Llanberis gan wneud hynny unwaith yn y Picton Hall yn Lerpwl; bu'n cyfeilio i Gôr y Chwarel, 80 o ran rhif gyda phob aelod ohono yn gweithio yn Chwarel Dinorwig. Cofia yn dda pan fuont yn cystadlu yn y Central Hall a'r gymeradwyaeth fyddarol a gawsant ar ddiwedd eu perfformiad. Bu'n

hogyn ifanc ar yr organ, y dôn 'Dundee' neu'r 'French' mewn rhai llyfrau, fyddai yn ei hoffi. Cawsai Huxley Tomas encôr ar hwn bob amser pan yn chwarae mewn cyngherddau megis yn Lerpwl, Llandudno a Chaergybi; rhoddai saith o amrywiadau i'r dôn. Mae Huxley Thomas wedi cyfansoddi ambell i ddarn cerddorol a rhoddodd ddatganiad i mi ar ei biano yn Bryn Myfyr o'i waith 'Humoresk'.

HEDDIW

Er yn dathlu ei ben-blwydd yn 85 oed pan ddaw Gorffennaf, mae am ddal ati fel organydd St Padarn, ond teimla fod y gwaith cyfeilio yng ngwasanaethau'r bore a'r hwyr yn ormod o waith i un weithiau. Cafodd ei anrhegu deng mlynedd yn ôl am ei waith a derbynna gan punt y flwyddyn o dâl, "Ond mae'r pleser yn fwy na'r cyflog." Drws nesaf i Bryn Myfyr mae 'Goleufryn' sef tŷ gweinidogion capel Gorffwysfa, Llanberis ar un cyfnod. Cofia yn dda am lawer ohonynt, yn eu mysg yn y cyfnod cynnar, y Parch John Pritchard o Cesarea - "dyn da yn wir." Mewn cyfnod diweddar bu'r Parch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli a'r Parch John Owen, Rhuthun yn byw yno gyda Mr Owen yr olaf ymhlith y gweinidogion i fyw yn Goleufryn.

Mynd am ginio a wna Huxley Thomas ar ddydd Sul, Llun, Mercher a Gwener i gartref henoed y pentref sef Plas Pen Gwaith. "Caf yno," meddai, "ginio ardderchog a sgwrs gyda hwn a'r llall, gan fy mod yn adnabod llawer yno." Nid hawdd yw i ddynd ddygymod â bywyd ar ben ei hun a gwêl y gwaith o lanhu yn broblem. Tra yr oeddem yn sgwrsio ar brynghawn Llun y Pasg roedd y gath o'r enw 'Pwdi' yn cysgu'n drwm; cath drws nesa yw ond bu'n gwmni iddo ers rhai blynyddoedd.

Wrth holi aelodau a gyfrannodd i fywyd yr Eglwys yn y plwyf yn y gyfres hon o ysgrifau, ondi yw cyfraniad y cyfan, fel un Huxley Thomas, yn dra gwerthfawr wrth gyfrannu dawn arbennig i Dduw yn ei Dŷ.

Cyplysaf ran o englyn William Morris i gerddor arall, i'r organydd hynaws hwn wrth droed yr Wyddfa:

'Troi organ yn ddiddanwch - yn Nhŷ Dduw,

Dyna'i ddawn a gofiwch.'

cyfeilio i Gôr Crosville, Caernarfon yn Iwerddon pan gafodd y cyngerdd ei recordio ar y Radio yno. Rhoddodd ddatganiad ddwywaith ar organ hyfyrd Eglwys Clynnog, a gyfrifai fel organ Eglwys St Padarn, yn un ardderchog.

EI HOFF DŌN

Nid cwestiwn hawdd i ŵr sydd wedi chwarae rhai cannoedd o donau oedd gofyn i Huxley Thomas pa dôn a hoffai yn well na'r un arall. Y dôn yr hoffodd erioedd yw 'Caerllyngod' - Emynau'r Eglwys Rhif 354 gyda'r geiriau:

**"Caed modd i faddau beiau,
A lle i guddio pen,
Yng nghlwyfau dyfnion Iesu,
Fu'n gwaedu ar y pren."**

Iddo ef mae'r dôn yn un hiraethus a melodaidd iawn ac mae wedi gwneud folyntari arni. Chwaraeai'r dôn yn St Padarn ar Sul y Pasg eleni. Pan yn

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

**PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG**

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

WAUNFAWR

Gohebydd : Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626).

CLWB GWYRFAI: Bydd trip aelodau'r clwb yn mynd eleni, dydd Iau Mehefin 9, cychwyn oddi wrth y llythyrdy am hanner dydd.

CLWB 300: Cronfa Canolfan Waunfawr: Dyma restr o enillwyr am fis Ebrill: 1. £40: T.J. Griffiths, Ty'n'ronnen, 2. £25: R. Eaglestone, Tremallt, 3. £10: Julia Roberts, 10 Aelybryn.

Enillwyr mis Mai: 1. £40: Mrs J. Morley Williams, Fronllwyd, 2. £25: G.L. Parry, 7 Bryn Golau, 3. £10: L.G. Davies, Tros y Groes Uchaf.

YR URDD Hoffai blant yr Urdd ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu cefnogaeth a'u dymuniadau da, ac yn arbennig i 'genod' y dosbarth cadw'n heini am eu rhodd o £93.

Rhaid egluro nad dirwyon am fethu â cholli pwysau oedd hyn, ond arian a gasglwyd ganddynt ar ôl trefnu taith noddedig. Diolch i'w hymdrechion hwy, bydd gennym arian dros ben i gynnal ein gweithgareddau pwysicaf, sef y cyfarfodydd wythnosol drwy'r gaeaf.

MERCHED Y WAWR: Ymunodd cangen Llandwrog â changen Waunfawr yng nghyfarfod Ebrill (28) - cawsom gwis o dan ofal John O. Huws. Roedd yn gystadleuaeth glos a'r sgôr terfynol - Tim 'A' - 149, Tim 'B' - 146.

Yn llywyddu'r noson (ac yn cadw sgôr) roedd Mrs Irene Roberts. Cyhoeddodd elw stonidn Waunfawr yn y Ffair Wanwyn eleni sef £80.07. Bydd yr arian yn mynd i gronfa Rhanbarth Arfon, i'w rannu at wahanol achosion ar ddiwedd y tymor. Yn diolch ar ran cangen Waunfawr roedd Gillian Wyn. Diolchodd Mrs Alwena Lloyd Owen, llywydd Llandwrog, am y gwahoddiad i'r Waun a'r croeso a gawsant. Rhoddwyd y raffl gan Glenys Jones a Mrs Mary B. Davies. Enillwyd gan Mrs Roberts, Bod Idris a Beryl Lloyd Jones. Aelodau'r pwyllgor oedd yn gyfrifol am banded.

Fe fydd taith a swper Mehefin 23. Fe drefnir bws a bwyd mewn basged. Manylion pellach ar bosteri yn lleol. Enwau i Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon neu Glenys Jones, Rhandir Mwyn.

YR EGLWYS: Mewn cyfarfod o Gyngor Plwyf Eglwysig Llanbeblig a gynhaliwyd yn ddiweddar, enwebwyd Mrs Idris Jones, Goleufrin gan y Rheithor y Parch Barry W. Thomas, yn is-warden iddo am y flwyddyn sydd i ddod. Yn yr un cyfarfod etholwyd Mr Donald Roberts, Sŵn y Gwynt yn is-warden y bobl. Bydd y wardeiniaid newydd yn bresennol ac yn gwneud y datganiad o flaen yr Esgob yn ystod Ymweliad yr Esgob yn Eglwys Gadeiriol Bangor.

Bu Mrs Mary Griffiths, Bodlondeb yn cynrychioli'r eglwys trwy gymryd rhan mewn gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghapel Croes y Waun fore Sul Mai 15. Bu nifer o aelodau'r eglwys yn y gwasanaeth.

Daeth erthyg, 'Y Wraig o Is-Eilian' a ymddangosodd yn 'Eco'r Wyddfa' fis Ebrill, o'r 'Llan' - papur pythefnosol yr Eglwys yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at groesawu Curad newydd i'r plwyf ddiwedd Mehefin. Bydd *Deiniol Prys*, brodor o Flaenau Ffestiniog, yn cael ei urddo'n Ddiakon gan Esgob Bangor yn y Gadeirlan, ddydd Sadwrn, Mehefin 25.

YR YSGOL: Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ymunodd y Ficer, y Parch Trefor Jones â'r plant mewn gwasanaeth arbennig. Cyflwynwyd sic o £20 i'r mudiad ar ran plant ac athrawon yr ysgol.

Yn yr Ymgych Gwerthu Llyfrau Cymraeg, gwerthwyd 175 o lyfrau, gwerth £270. Y gwerthwyr eleni oedd Siân Llwyd Jones, Karen Roberts, Debra Roberts, Tina Parry, David Lewis, Gwyndfa Francis Williams, Aeron Wyn Jones ac Euros Wyn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Y mae'r plant iau, dan hyfforddiant Mrs Eames, wrthi'n brysur iawn yn paratoui ar gyfer eu cyngerd 'Noson Gerddorol' yng Nghapel Croesywaun, nos Wener, Mehefin 17 am 7 o'r gloch. Y canwr gwadd yw Dafydd Iwan a'r gŵr gwadd Mr Iolo Huws Roberts. Bydd yr elw at y Ganolfan.

Ar y 24-25 o Fehefin bydd y plant hynaf yn mynd am drip dau ddiwrnod i Gaerdydd. Trefnwyd iddynt ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd a'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

CYNGOR CYMUNED: Mai 17 yn Ysgol y Waun cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Cymuned newydd. Yr aelodau dros ward Waunfawr yw Robert Eaglestone, Dafydd Iwan, Dic Jones, Mary Vaughan Jones, Edgar Owen, Lleufer Pritchard, Gwilym Williams, Stanley Williams ac Eurig Wyn.

Etholwyd Peter Thomas, Bontnewydd yn Gadeirydd ac Eurig Wyn, Waunfawr yn Is-gadeirydd. Diolchodd y cyn-Gadeirydd, Lleufer Pritchard, i'r Cyngor a fu am eu gweithgarwch yn ystod eu tymor.

YSGOL FEITHRIN: Nos Wener, Ebrill 22 yn Neuadd yr Eglwys cafwyd noson i ddewis Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd am y flwyddyn 1983-84. Tynnwyd yr enwau o het gan Sandra, y cyn-Frenhines a'r canlyniad oedd: Brenhines - Felicity Duncan, Morwyn - Amanda Griffiths, Blodeuferch - Heledd Elfryn, Gwas y Llŷs - David Elias Owen. Coronir Felicity yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Gorffennaf 1af.

Cynhaliwyd bore agored yr Ysgol Feithrin ddechrau Mai. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i Dr H.L. Roberts, y gŵr gwadd ac i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Gwnaed ymweliad gan rieni a phlant yr Ysgol Feithrin â Pharc Eirias, Bae Colwyn ar Fai 11. Yno dathlwyd yr Ŵyl Feithrin a chafodd y plant amser hyfryd wrth gyfarfod â Siwper Ted, Wil Cwac Cwac ac amryw o gymeriadau eraill.

MENCAP - Cynhelir Noson Goffi, nos Wener, Mehefin 10 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys. Buasai unrhyw gyfraniad tuag at y stondinau, sef cacennau, teganau, pethau newydd a 'White Elephant' yn dderbyniol iawn.

CANOLFAN: Cafwyd Berbecyw llwyddiannus iawn ym Metws Garmon a gwnaed elw da ar gyfer Cronfa Canolfan Waunfawr. Diolchir i deulu Ty'n Weirglodd ac i ardalwyr Betws Garmon am drefnu'r noson mor effeithiol.

Mae Pwyllgor y Ganolfan mewn, cysylltiad â nifer o gronfeydd ac elusennau y dyddiau hyn yn y gobaith y gellid denu mwy o gyfraniadau ariannol i'r coffrau.

Gofynnir i unrhyw un sydd am gynorthwyo gyda'r gwaith o gwblhau adeiladu'r Ganolfan i gysylltu â Mr Gwilym Williams neu Dic Jones.

GWYLIAU YN Y WAUN: Balch iawn oedd gweld Margaret, merch Mrs C.A. Pritchard, Tref Eilian adef am wyliu o Whiby, Ontario, Canada yn ddiweddar ar ôl 19 mlynedd yno. Cafodd groeso mawr gan ei theulu a'i ffrindiau a braf oedd ei chlywed yn siarad Cymraeg mor drwyadl.

LLONGYFARCHIADAU:

I Ann a Bryn Jones, Haulfryn ar

enedigaeth mab, Hywel Tudur, brawd i Sioned Eleri.

I Malcolm Roberts, 9 Bryn Golau ar ei lwyddiant yn Stafford a Coventry yn ddiweddar hefo'i gi, 'Snowdonia Lady'.

I John a Grace Dawson, Bro Waun ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach, Annwen, i Susan a Vernon. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Jones, Eilian Terrace ar fod yn hen-nain unwaith eto.

I Alison Jones, Bod Gwilym ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed.

I Dic Jones, Llwyn Onn, ein cynrychiolydd newydd ar Gyngor Arfon.

CYDYMDEIMLWN: â Gwilym Hughes, Tref Eilian yn ei brofedigaeth o golli mam; a chyda theulu'r diweddar Goronwy Wyn Jones, Treflys.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw gweld rhai o drigolion y pentref, a fu'n cwyno mewn ysbtyai yn ddiweddar, adref yn gwella, sef Mr Eric Jones, Tref Eilian, Mrs Greta Hughes, Tref Eilian, Mr Bil Owen, Tef Eilian, Mrs Gwen Roberts, Bro Waun. Ein dymuniadau gorau am lwyf wellhad buan i bawb ohonynt, ac hefyd i Mrs Hughes, 11 Bryn Golau sydd yn yr ysbty o hyd.

Bu Hywyn Parry, mab bychan Mr a Mrs Gwynedd Parry, Bron Llywelyn dan driniaeth lawfeddygol yn Alder Hey, Lerpwl yn ddiweddar, ac ar hyn o bryd mae yn ysbty Minffordd Bangor. Anfonwn ein cofion a'n meddyliau at y teulu i gyd.

Gwnaeth nifer helaeth o blant y pentref yn dda iawn yn eu harholiadau Ysgol Sul yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r plant a lwyddodd yn yr Arholiad Llafar, eu henwau sy'n rhy niferus i'w rhestru. Canlyniadau'r Arholiad Ysgrifenedig y Gymanfa sydd fel â ganlyn:

Dan 9: Gwennan Jones a Rhys Sion, Capel Croes y Waun. 9-11: Telor Hedd, Euros Wyn, Karen Roberts a Sian Llwyd Jones, Croes y Waun. Dan 14: Adrian Owen, Capel Bethel.

Yr Arholiad Sirol: Derbyniodd Karen Roberts a Siân Llwyd Jones, Croes y Waun Dystysgrif Dosbarth I a chafodd y ddwy de barti a'u gwobrwyo yng Nghapel Seilo. Derbyniodd Gwennan Jones ac Euros Wyn Dystysgrif yr Ail Ddosbarth.

Da iawn chi blant - daliwch ati.

CLWB 100: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Mai: 1. Meirion Jones, Crud yr Awel, 2. Emlyn Williams, Aneddle, 3. Mrs A. Hughes, Gwastadfaes.

COFEB Y WAUN



Dyma'r llun y cyfeiriwyd ato o dan y pennawd "Llythyr o'r Amwythig" yn y rhifyn diwethaf. Llun ydyw o'r gwaith o adeiladu Cofeb y Waun.

DEWCH I FERLOTA GYDA

Snowdonia Riding Stables



WAUNFAWR CAERNARFON

I'R DYSGWYR: Hwyl hamddenol hawdd I'R PROFIADOL: Carlamu cyflym cynhyrfus

Gwersi . Gemau . Teithiau Picnig . Helfeydd Trysor
Cyrsiâu "Ceffyl am wythnos"

Dewiswyd ein ceffylau hardd i berfformio yn y Mabinogi yng Nghastell Caernarfon

Am fwy o fanylion cysylltwch â:

**RENEE neu SIÂN THOMAS
WAUNFAWR 342**



YR HEN YSGOL FABANOD

"MAE hogia bach drwg, drwg yn haeddu chwip dîn iawn."

SLAP.

"Rei por bloda wedi torri. Tri cofiwch."

SLAP.

"Os gwela'i rhywun yn chwarae hefo potia bloda eto, mi ceith o hi."

SLAP.

Sefwn wrth y bwrdd, ofn nes bron marw. Roedd y dosbarth yn ddistaw, ddistaw, fel y bedd. Dim ond rhyw bedair oed oeddwn, ac ar yr ochr arall i'r bwrdd, safai Miss Fôn Williams, y brifathrawes, yn ei gwisg laes ddu. Gwgai arnaf dros ei sbectol. Nid arna' i roedd y wialen yn disgyn, diolch byth, ond ar wyneb y bwrdd, a bob tro y deuai'r wialen i lawr, jingliai'r bwnsh o oriadau oedd yn ddieithriaid wedi'u clymu wrth ei gwregys, a suddai 'nghalon innau rhyw droedfedd arall i sodlau fy esgidiau. Roeddwn yn ddigon cyfarwydd â chwerwder gwialen mam adre, a doeddwn ar yr un cyfrif cisiau blasu un y brifathrawes. Chwarae teg, ni chofiaf neb yn cael eu curo gan yr athrawesau. Credaf ar y cyfan ein bod yn blant bach hawdd iawn ein trin, a'r merched a ofalai amdanom yn bur garedig. Ar yr un pryd, anodd dychmygu prifathrawes ysgol fabanod heddiw yn berchennog gwialen fedw. Bai yr oes a'r sefydliad, nid bai yr athrawesau, ydoedd.

Anfonwyd fi i sefyll wrth y wal.

Roedd y potiau blodau wedi'u gosod yng nghornel yr iard fach, i gael tropyn o law. Rhyw fodd neu'i gilydd, llwyddais i gerdded rhwng y wal a nhw. Sefwn yno, dwy law ar led yn clochdar,

"Fy ngardd i ydy hon."

Un funud, roeddwn yn destun cywreinerwydd edmygol nifer o'm cyfoedion. Y funud nesaf, roeddwn ar fy wyneb yng nghanol y darnau, a'r llu edmygwyr wedi troi yn fyddin o garwyr clew, i gyd fel defaid yn rhedeg i mewn i'r ysgol i "deud wrth teacher". Dyma fy mhrofiad cyntaf o wamalrwydd y dorf, a diolchaf am ddysgu'r ffaith mor gynnar.

Roeddwn yn eithaf hapus yn yr Ysgol Fach. Cofiaf y bore cyntaf yr es yno, a'm dau frawd yn fy nghario ar eu cefnau, dros Allt Fron Olau. Roedd mam wedi prynu pâr o gloisiau bach coch, i gadw fy nhraed yn sych ac roeddwn yn meddwl y byd ohonynt. Am fy mhen, roedd cap

gwlan gwyrdd hefo tosl arno, a gwisgwn bâr o 'gaiters' oedd yn cyrraedd dros fy mhennau gliniau. Roedd mam, fel pob mam, am i di ddechrau'r ysgol mewn steil.

Miss Williams, Ceunant Coch, oedd athrawes y Babanod. Mantais fawr i mi oedd fy mod yn ei hadnabod yn barod yn yr Ysgol Sul. Faint o blant heddiw sy'n cael yr un ffrain? Ar feinciau trwsgwl yr oeddem yn eistedd, yn tynnu lluniau hefo sialc gwyn ar fyrddau du bach, a chwarae hefo clai llwyd, diliw. Ond, rhywbryd yn y flwyddyn, daeth byrddau bach drwg, a chadeiriau bach crwn, i'r dosbarth, a diflannodd yr hen ddodrefn. Dyna'r ysgol yn troi'n fyd gwahanol.

Yna, i "Second Class", ie, dyna'r enw swyddogol, lle roedd Miss Thomas, merch ddistaw dros ben yn ein dechrau ar Saesneg. Yr unig gymorth oedd ganddi oedd un llun mawr o ystafell grand, wedi'i dodrefnu hefo celfi na welsom ni mo'u tebyg yn ein cartrefi. Dim ond un peth naturiol i mi oedd yn y llun, sef cath fach yn chwarae hefo pellan o wlan, ar y llawr. Pwyntia Miss Tomas at y darlun hefo ffon a dywedai,

"Cat, wool, chair, door," a llafer gannem ninnau'r enwau ar ei hôl.

'Rwy bron yn siŵr mai yn Saesneg y dechreuodd yr ysgol ein dysgu i ddarllen hefyd. Gartre ac yn festri Capel Coch y dysgais ddarllen Cymraeg.

Pan symudwyd fi i fyny i "First Class", gosodwyd fi i eistedd wrth ochr merch, efallai yn y gobaith o fy nghadw yn ddistaw, ond doedd hi na fi yn fodlon ar y sefyllfa. Ni pharodd y trefniadau yna yn hir.

Y flwyddyn hon hefyd, darfyddodd Miss Fôn Williams ei gyrfa, ac fe gawsom brifathrawes ifanc, newydd yn ei lle. Cawsom ni blant agwedd hollol wahanol yn Ysgol Dolbadarn, o hyn ymlaen: dysgu dawnsio a mynd allan i'r iard i wneud tipyn o ymarfer corff. Daeth i de un tro, te bach, dim ond y hi a mam a finnau, cyn i'r gweddill o'r teulu ddod adre am swper chwarel.

"Wyt ti'n gallu sleidio i lawr y polyn mawr?"

"Nag ydw."

"Mi ydwi. Tyrd mae o'n hawdd."

"Dw i ofn."

"Na, i afael yn dy law. Wyt ti'n



dod?"

Glenys Llainwen Uchaf yn fy nenu i eangu fy ngorwelion. Doedd hi ond blwyddyn yn hŷn na fi. Mawr yw ffydd plant bach yn ei gilydd, ac maen nhw'n dysgu llawer oddi wrth eu cyfoedion, onid ydynt? Faint ohonoch sy'n cofio'r esgynfa i ddrws yr Ysgol Fach, y 'railings' dur ar ei hochr a'r ddau bolyn oedd yn eu hatgyfnerthu, dau bolyn ar eu hosgo, oedd wedi'u llyfnhau gan ddwylau a dillad plant y pentra am ddwy neu dair cenhedlaeth. Doedd yr adeiladwyr erioed wedi dychmygu y byddai cannoedd o blant yn cerdded i fyny ar yr ochr allanol i'r ffens, er mwyn hongian hefo'u dwylo a'u traed o dan y polion, a llithro i lawr i'r gwaelod am sbort. "Mini ffiremen" fyddai'r disgrifiad modern.

Roedd 'na gwmp o rhyw bedair troedfedd ar y polyn cynta, a rhyw ddeg ar yr ail, ac wrth gwrs, ar yr un mawr roedden ni i gyd yn amcanu mynd. Welais i neb yn disgyn oddi arnynt, ac fe gawsom ni oriau o bleser. Yn yr un modd, byddai'r genod mwyaf yn troi tŷn dros ben ar y ganllaw ddrwg oedd yn gwarchod ochr yr esgynfa i'r "Cookery". Doedd dim angen "jungle Jim" arnom. Ar ôl yr ysgol, roedd 'na goed a chreigiau i ddringo drwy'r ardal. Ysgwn i sawl trowsus welodd eu

"Waterloo" ar sglefr fawr Tai "Cristmas", ond roedden ni'n magu hunan hyder digymharol. Wedi'r cyfan, onid oedd ein tadau yn drinog'r graig i ennill eu bywoliaeth!

Roedd 'na drên bach a theganau yn yr ysgol, nid i ni'r plant wrth gwrs, ond i'r bobl bwysig ddeuai i archwilio a chanmol, nawr ac yn y man. Syllai doliau a thedi arnom yn bryfoclyd trwy ddrws gwydr cwpwrdd cloedig. Wrth "farchio" heibio iddynt, caem gipolwg arnynt a dyna'r cyfan. Welais i neb 'rloed yn chwarae hefo nhw. Os gwn i wnaeth 'na rhywun rhywbryd weindio'r injan fach goch 'na?

Goronwy Owen

GWAHODDIAD I GARNIFAL LLANBERIS, 1983

Carwn estyn gwahoddiad i Ddawnsywyr Morus a Majorettes Cylch Arfon i Garnifal Llanberis, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 16.

Bydd y dawnswyr yn cael eu beirniadu yn yr orymdaith ac yna fe fydd yr enillwyr ynglŷn â dawnswyr Llanberis yn dawnsio yn y cylch ar y maes.

Am fwy o fanylion cysylltwch â: Ifor Jones, 2 Llainwen Isaf, Llanberis. Ffôn: Llanberis 870190.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, cloiciau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd crefftau lleol eraill: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. Arddangosfa o hen luniau chwarel.

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis

FFERMDY HYNAFOL COEDMAWR



BOB OWEN a'i briod a welwch yn y darlun yn eistedd wrth y simdde fawr yng nghegin Coedmawr. Wrth sylwi ar y trawst derw, du, cadarn gellir credu fod Coedmawr yn un o dai hynaf yr ardal. Penderfynais ymwchilio i hanes y tŷ, a'r teulu, wrth gwrs, a mynd i holi Gwilym Roberts, Fron Oleu, un sydd wedi troi a throsi ymhob man i olrhain hanes ei deulu. Cefais awr ddifyr yn ei gwmini a mawr yw fy niolch iddo am dorreth o wybodaeth.

Wedi chwilio'r llyfrgell a'r swyddfa cofnodion yng Nghaernarfon darganfod a wnes fod Coedmawr yn glwm â hanes yr Esgob Goodman. Dyma ysgrifennwyd yn un o lyfrau ei hanes, "The poor cottage to which Goodman was forced to flee was Coedmawr, from whence on June 20th 1647 he wrote a letter to James, Earl of Middlesex, explaining where he lived. With Tŷ Du his other tenement it amounted to about 698 acres."

Dengys hyn fod Coedmawr a Tŷ Du yn ystâd fechan, ac ar yr ystâd dri neu bedwar o dyddynnod bychain. Yn ystod rhan o'r cyfnod rhwng 1643 a 1647 y daeth yr Esgob Goodman i geisio lloches i Gymru a phrynu'r ystâd. Felly, mae Coedmawr fel Tŷ Du dros 350 oed. Roedd dau dyddyn, neu ddwy fferm fechan yn Coedmawr a dau deulu'n byw ynddynt am flynyddoedd lawer. Cymerodd teulu Bob Owen y ddau dyddyn a'u gwneud yn un tŷ fferm, gan godi llofft ar un o'r tai a'i wneud fel ag y mae heddiw, gan gadw'r simdde fawr fel ag yr oedd hi pan adeiladwyd y tyddyn ar y dechrau.

Mae teulu Bob Owen wedi byw yng Nghoedmawr er pan briododd Gras Williams, merch William Edward ac Elinor Morris, y Foulk Morris, Hafod Gynfor a dod i gartrefu yno. Bu Gras Williams fyw



Coedmawr o'r cefn yn dangos y ddau dŷ yn un.

hyd 1801 a'i phriod hyd 1806, ac mae mab neu ferch o'r teulu wedi byw yma hyd heddiw, a chredaf fod saith cenhedlaeth wedi eu codi yng Nghoedmawr. Dyma'r unig deulu drwy'r holl ardal, y gwn i, sydd wedi byw gyhyd yn yr un cartref. Tipyn o gamp.

M.B.H.

YN EISIAU

Ffrâm ddringo neu Sglefr i blentyn ifanc. Cysylltwch â Jones, Melbourne House, Llanrug. Ffôn Caernarfon 3971.

O BANTRI BETH



CHOPS PORC WEDI EU STWFFIO

4 chopen fawr o'r lain
Stwffin
1 wynwynsyn wedi ei falu
2 owns prunes (wedi eu gwlychu dros nos a'u malu'n fân)
1 afal bwyta wedi ei ratio
1 owns cnau walnut
2 owns o friwsion bara
1 wy wedi ei guro

Cynheswch y ffwrn i Nwy 5

I wneud y stwffin:

Toddwch $\frac{1}{2}$ owns o fargarin mewn padell ffrio ac ychwanegu'r wynwns am 5 munud.

Rhowch y prunes a'r cnau, yr afal a'r briwsion mewn powlen ac ychwanegwch y wynwns. Trowch yn dda. Defnyddiwch yr wy i'w hel at ei gilydd.

Holltwch y chops ar hyd y cefn, h.y., drwy'r brasder. Llenwch y twll gyda'r stwffin a'u cau efo sciwer.

Rhowch y chops mewn tun yn y ffwrn am 20 munud. Wedyn gorchuddiwch y tun efo foil am 30 munud ychwanegol. Cofiwch dynnu'r sgiwer cyn eu bwyta!

RHIWBOB MEWN JELI

1lb rhiwbob wedi eu torri'n ddarnau tua 1" o hyd
 $\frac{1}{4}$ peint o ddŵr
5 owns o jeli oren
 $\frac{1}{2}$ owns o siwgr castor

Rhowch y dŵr a'r rhiwbob i ferwi mewn sospan â chaead am tua 10 munud. Tynnwch oddi ar y gwres ac ychwanegwch y jeli a'r siwgr i'r rhiwbob. Trowch y cyfan tan fod y jeli wedi toddi a'i adael tan yn oer. Mae hyn yn bwysig neu fydd y rhiwbob yn suddo i'r gwaelod.

Wedyn rhowch y cyfan mewn siâp priodol a'i adael i galedu.

Trowch y jeli allan ar blât ac os ydi'r pwysau'n caniatáu, addurnwch efo hufen.

"O GWM-Y-GLO I GWM YR AUR"

Mike Owens, a welwyd mewn rhaglen deledu a ddarlledwyd ar S4c ar Fai 5. Hon oedd y drydedd raglen mewn cyfres o dair oedd yn dilyn hynt a helynt y Cymry sydd yn byw yn Ne Affrica. Yn y rhaglen, oedd yn dwyn y teitl 'O Gwm-y-glo i Gwm yr aur', cafwyd stori Mike Owens ers pan adawodd Gymru 60 mlynedd yn ôl.



Roedd ei dad wedi bod yn gweithio mewn gwaith aur yn Pilgrim's Rest ers 1912, a bu Mike ei hun yn gweithio ym mhwl aur y Jubilee hyd iddo ef ymddeol ac i'r pwell gau yn 1972.

Ar wahân i fod yn siarad Cymraeg a Saesneg, mae Mike yn rhugl hefyd yn Africaans a Fanaglo, ac mae'n dal i dderbyn papurau newyddion Cymraeg oddi wrth ei nai Eirwyn Williams sy'n dal i ffermio Llwyncoed, Cwm-y-glo, cartref ei rieni a'i deulu cyn iddynt ymfudo i Dde Affrica. Mae'r fferm wedi bod yn y teulu ers dechrau'r ddeunawfed ganrif.

Erbyn hyn Mike yw'r unig un sydd ar ôl o'r Cymry sy'n byw yn Pilgrims' Rest, ac yn wahanol i'w dad a enillodd hanner siâr yn raffl Lourenco Marques a fu'n fodd iddo fynd yn ôl i fyw i Llwyncoed, nid yw'n bwriadu dychwelyd i fyw yng Nghymru.

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsî a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

ARHOLIADAU: Mae tymor yr arholiadau wedi cychwyn eto - onid yw amser yn mynd yn gyflym? Dros yr wythnosau nesaf bydd llawer o ddisgyblion yr ysgol yn eistedd arholiadau Lefel 'A', Lefel 'O' a T.A.U. Pob hwyl i chi oll.

GANDHI: Yn ystod y mis aeth rhai o'r pedwerydd dosbarth i weld y ffilm enwog Gandhi yn sinema'r Plaza. Mwynhawyd y ffilm yn fawr iawn.

SCIŌ: Ddydd Gwener, Mai 20, cynhaliwyd gala sciŌ i ysgolion Gwynedd ym Mhlas y Brenin. Bu tri tîm o'r ysgol yn cystadlu ond yn anffodus ni chafwyd crystal hwyl ag yn y gorffennol. Daeth tîm dosbarthiadau 3 a 4 yn ail, a'r tîm hŷn yn bedwerydd. Enillwyd y bencampwriaeth unigol gan Tim Lloyd ac fe enillodd Philip Ingle y dosbarth ieuengaf.

TAITH OXFAM: Ar ddydd Sadwrn gwlyb yn ystod y mis bu 60 o ddisgyblion yr ysgol ar daith gerdded, i hel arian i Oxfam. Ar ôl cerdded yr 16 milltir o gwmpas Coedwig Gwydyr, roedd pawb wedi blino'n lân, ond wedi mwynhau'r fenter. Diolch i Mrs Jean Fleming a Mr Gomer Davies am gerdded gyda'r plant, a diolch yn arbennig i bawb a noddodd y plant am eu cefnogaeth.

HAMLET: Aeth aelodau o ddosbarth Saesneg Lefel 'A' gyda'r prifathro, Mr Thomas, i weld perfformiad gwych o 'Hamlet' yn Theatr Gwynedd. Cafwyd cynhyrchiad cofiadwy, gyda Hilton McKae yn arbennig o dda fel un o arwyr mwyaf Shakespeare.

CADAIR CAERNARFON: Cadeiriwyd Nia Fôn Griffiths, o Ysgol Dyffryn

Nantlle, fel llenor buddugol yn y gystadleuaeth flynyddol am gadair Eisteddfod Caernarfon 1979. Ni enillwyd y gadair yn y brifwyl y flwyddyn honno ac yn awr mae disgyblion o Ysgol Syr Huw Owen, Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Brynrefail yn cystadlu amdani. Y flwyddyn yma cynhaliwyd y seremoni yn Ysgol Brynrefail a ffurfiwyd yr orsedd gan aelodau'r chweched.

MABOLGAMPAU

Athletau: Llwyddwyd i gynnal mabolgampau'r ysgol eleni rhwng cawodydd o law. Dyma'r prif ganlyniadau. Elidir oedd y tŷ buddugol gyda 208 marc, yna Gwyrfaei (203 a hanner), Eryri (159 a hanner) ac Eilian (153). Bydd y lluniau yn dweud gweddill y stori.

Diolch i aelodau'r staff a fu'n helpu ac i enethod y chweched a fu'n helpu Mr Fleming i gadw'r marciau.



Capteiniaid Elidir y tŷ buddugol, Meirion Jones a Margaret Roberts.



Y Victor a'r Victrix Ludorum, Paul Grant a Melanie Sellars, y ddau o Elidir. Dyma'r pedwerydd tro i Melanie ennill yr anrhydedd - sy'n record ysgol! Llonyfarchiadau iddi.



Cafwyd perfformiadau arbennig o dda gan y tri yma sef: Gareth McGuinness (ennill 21 1/2 o farciau i Elidir); Michael Coombes (26 marc i dŷ Eryri) a Martin Roberts (ennill 3 cystadleuaeth: 800 metr, 1500 metr a'r naid hir).



Mae'r genethod yma wedi torri 4 record. Alice Jones (200 metr a chyfartal â record y 100 metr); Nia Griffiths (y bicell); Meirwen Williams (disgen); Petula Williams (naid uchel).



Paul Lomas 1967-1982

Yr haf diwethaf digwyddodd trychineb yn hanes yr Ysgol. Fe fu Paul Lomas, 14 oed o Fethel fodd i yn Llanberis er holl ymdrechion ei gyfeillion, Daniel Crowe, Stephen Riley, Neil Wannop a Michael Coombes i'w achub. Yr oeddynt oll yn nofwyr profiadol ac nid oes eglurhad boddhaol eto ar sut y digwyddodd y fath ddamwain erchyll.

Yr oedd Paul yn fachgen bywiog, egniol, mewn gweithgareddau corfforol a meddyliol. Yr oedd yn benderfynol o lwyddo yn ei waith ysgol ac mewn chwaraeon - ac yr oedd eisioes wedi gwneud enw iddo'i hun fel cricedwr. Teimlai ei gyfeillion yn drist iawn ynglŷn â'r digwyddiad ond yr oeddynt hefyd yn teimlo y dylai ysbryd egniol a phenderfynol Paul gael ei goffáu mewn rhyw ffordd. Gyda chaniatâd a chefnogaeth yr ysgol aethant ati i drefnu raffl i godi arian. Prif wobwr y raffl oedd pel-droed wedi ei arwyddo gan dîm pel-droed Lerpwl a chafwyd hon gan dad Michael Coombes, ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddo.

O ganlyniad i'r raffl gwnaed elw o tua £280. Fe fu Mrs Lomas, mam Paul, yn yr ysgol Rhagfyr 20 yn tynnu y tocynnau buddugol mewn cyfarfod yn Neuadd yr Ysgol yn y bore.

Penderfynwyd mai y peth gorau i'w wneud â'r arian fyddai rhoi tlws a gwobr i un neu fwy o ddisgyblion a oedd wedi cyflawni rhywbeth tu hwnt i'r cyffredin mewn unrhyw faes yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Dewisir y rhain gan bwyllgor yn cynnwys ffrindiau Paul, y prifathro, a'r dirprwyon. Fe fydd hyn i barhau yn unig hyd y bydd ffrindiau Paul wedi gadael yr ysgol h.y. am y 4 blynedd nesaf.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh
Development Agency**

Mae
**G.
JORDAN**
CEFN ELAN
LLANRUG

wedi prynu
busnes

**ERIC GOVER
LLANBERIS**

I fenthyg
cymysgwyr
concrit, cludo
llwythi ysgafn,
clirio safleoedd a
sbwriel ac am
dywod, gro, brics
ynghyd â gwaith
trydanol fel o'r
blaen

Ffoniwch:
**CAERNARFON
3581**

TAN-Y-COED

Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tanycoed (Llanberis 870030)

DIOLCH: Dymuna Mrs Ellen Jane Parry, Groeslon ddiolch i'w theulu a'i chyfeillion am bob caredigrwydd a gofal dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn Ael y Bryn, Tan-y-coed ac ar ôl hynny.

Da deall fod Mrs Parry wedi gwella'n ddigon da erbyn hyn i ddychwelyd i'w chartref yn Groeslon. Iachad llwyr a buan iddi.

Bu Mrs Lola Butler, Haddef yn Ysbyty Eryri am driniaeth lawfeddygol. Dychwelodd i'w chartref ddydd Gwener, Mai 20 ond aeth i Ysbyty Môn ac Arfon ddydd Sadwrn Mai 21 a bydd raid iddi aros yno am ychydig ddyddiau. Adferiad iechyd llwyr iddi hithau ac i'w chymydog Garry Wynne, Llety Llwyd, yntau wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, ac ar ôl ysbaid yn Ysbyty Eryri wedi dod adre. Brysiwch wella eich dau.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gardiner, Becws, Bryngwyn ar enedigaeth eu mab, Robin, ar Fai 3; ac i Mr a Mrs Arfon Jones, 6 Tai Bryngwyn ar enedigaeth eu hail wyl, Owain Arwel, brawd i Dyfan.

Pob hwyl i Annwen Parry, Rebeca Hughes, Lona Roberts, Ffion Williams ac Wyn Parry a'u Parti

Dawns Greadigol fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yr wythnos nesaf.

Yn y Gymanfa yng Nghapel Mawr Llanrug gwobrwydd am eu llwyddiant yn yr Arholiad Llafar y plant a ganlyn o Dan-y-coed:

Dan 6: Catrin Ann Williams. **Dan 5:** Carwyn John Humphreys. **Dan 7:** Jonathan Prys Williams. **Dan 8:** Ronna Mai Humphreys, Tudor Wyn Jones ac Aled Parry. **Dan 9:** David Richard Jones a Robert Cenwyn Humphreys. **Dan 10:** Annwen Parry. **Dan 11:** Bethan Lewis Parry. **Dan 12:** Wyn Parry; a gwobrwydd John Wyn Jones a David Richard Jones dan 9 ac Annwen Parry, Wyn Parry, Lona Roberts a Ffion Williams dan 11 oed am eu gwaith yn yr Arholiad Ysgrifenedig.

Yn y cylch Gwobrwyd yn Seilo Caernarfon Mai 17, derbyniodd y plant a ganlyn Dystysgrifau am eu gwaith yn yr Arholiad Sirol: **Dan 9:** David Richard Jones (Dosbarth 2); **Dan 11:** Ffion Williams (Dosbarth 1), Annwen Parry (Dosbarth 1), Lona P. Roberts (Dosbarth 1), Wyn Parry (Dosbarth 1).

Pob dymuniad da i Mr a Mrs Rhiannon Stokes a Sion Arfon yn eu cartref newydd yn Llanrug. Bydd chwithdod ar eu hôl yn Nhan-y-coed.

Ein cofion a'n dymuniadau da i Mr Dafydd Hughes, 1 Tai Trefor a gymerwyd yn wael yn ddiweddar. Da deall ei fod yntau yn gwella.

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Katie Hughes, 2 Maes Eilian; Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian; Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir; Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol a Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar eu gwaith yn dysgu ar gof, ac yn ennill tystysgrifau Dosbarth Cyntaf yn Arholiad Llafar Cymanfa M.C. Dosbarth Llanberis, Deiniolen a Dinorwig yn Brynrefail ar Mai 1af eleni.

Dymuniadau da a llongyfarchiadau ar ei phen-blwydd yn 85 mlwydd oed ar Fehefin 4 i Mrs Nesta Jones, 2 Llys Gwynt, Penisarwaun (gynt o Tan y Bryn, Dinorwig) - oddi wrth aelodau Eglwys M.C. Dinorwig.

CROESO ADREF: Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch ar ôl arhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon. Parhaed i wella.

ENNILL TIR DIFFAITH: Mae trefniadau wedi eu cychwyn ar y gwaith o ad-ennill tir oddi ar tomenni rwbwl y chwarel yn yr Allt Ddu, Dinorwig.

CYMANFA GANU BEDYDDWYR SIR GAERNARFON: Ar ddydd Sadwrn, Mai 7 eleni fe gynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr Sir Gaernarfon, yn addoldy Penuel Bangor. Roedd cynulliad eithaf boddhaol yng nghyfarfod y plant am 2 o'r gloch. Daeth ychwaneg o oedolion i'r oedfa 6 o'r gloch. Mrs Elena Hughes, B.A., Y.H., Pwllheli oedd yn arwain, a gwasanaethpwyd wrth yr organ gan Mrs Enid Griffith, Porthaethwy. Llywyddwyd oedfa'r pnaun gan Mr Rhys G. Roberts, Tyddyn Shôn. Llywydd oedfa'r hwyr oedd y Parch Ifor L. Williams, B.A., Bangor. Arbrofi yr ydym eleni, a'r flwyddyn nesaf, a chynnal y Gymanfa Ganu mewn dau ganolfan, Penuel Bangor a Chaersalem Caernarfon. Ein hymdrech yw ail-ennyn brwdfrydedd sdegawdau'r gorfennol, ac atgoffa

ein gilydd o'r hyn a wnaed gan yr Almaenwr Martin Luther i roddi bri ar ganu ein capeli. Byddai'n resyn i ni iildio'r gân yn ôl i'r offeiriad yn unig. Mawrygwn yr ymddiriedaeth a roddwyd i ni a chofiw'n mai er clod i Dduw y gwneir y cyfan. Hoffwn feddwl bod pennod newydd yn ymagor, a'r dyfodol yn ymddisgleirio.

Plant Sardis Dinorwig a lwyddodd i ennill Seren Aur, ac ennill Tystysgrif yn yr Arholiad Llafar, - Dan 6 oed: Sian Wyn Evans ac Eleri Wyn Evans. O 6 i 8 oed: Sara Wood. Gwobrwydd y tair yn ystod oedfa'r Sul canlynol yn Sardis (B). David John Thomas, yw Ysgrifennydd Pwyllgor y Gymanfa Ganu.

LLONGYFARCHIADAU: i Miss Alison Jayne Jones, Foel Gron ar gael ei derbyn i ddilyn cwrs nrysio yn Ysbyty Llandudno. Mae ar hyn o bryd ar fin gorffen ei chwrs yng Ngholeg Technegol Gwynedd Bangor.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mary E. Jones, Tŷ Fawng, ddiolch i bawb a gofiodd amdani ddydd ei phen-blwydd. Diolch yn fawr am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd. Cafodd ddiwrnod wrth ei bodd!

Dymuna Mrs Medwen Griffiths ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at y rhai dan anfantais feddyliol. Cyfanswm y casgliad oedd £36.97.

CROESO'N ÔL: i Mrs Maggie Roberts am ychydig siebiant i gartref ei merch a'r teulu, Mr a Mrs Llewelyn Jones, 4 Bro Elidir.

GŴYL BREGETHU SARDIS (B): Dydd Sul, Mai 22 cynhaliwyd Gŵyl Bregethu Eglwys Sardis (B). Y gennad yn yr oedfaon am 10, 2 a 5.30 oedd y Parch Wynn Vittle, Caerdydd, Trefnydd Cymorth Cristnogol dros Gymru. Cafwyd pregethu dymunol a chynulleidfaoedd da trwy'r dydd.

COFION: Ein cofion at y rhai sy'n wael, ac wedi bod yn cwyno. Gobeithio i'r iechyd wella yn y dyfodol agos.

NANT PERIS

GOHEBWYR - Mr a Mrs J.W. Elis, Glanrafon

PROFEDIGAETH: Yn dawel yn Ysbyty Eryri ar Ebrill 26 ar ôl cystudd hir a blin bu farw Mrs Nancy Jones, 2 Glanrafon, gweddwr diweddar Goronwy Wyn Jones, mam Ken a nain Heather. Bu'n byw yn y Nant gydol ei hoes ac yn aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Peris lle y bu'r gwasanaeth ddydd yr angladd. Gwasanaethwyd gan y Parch R.M. Jones, y Felinheli a Mr Gwilym Parry Bethesda. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir â Ken a'i hwyres, Heather yn eu colled a'u hiraeth, ei dwy chwaer, Mrs Bessie Roberts, Wrecsam a Mrs Eluned Owen, Dolwen a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli un a oedd mor annwyl iddynt.

LLONGYFARCHIADAU: i Helen Mai, Tŷ Isa ar ei llwyddiant yn yr Arholiad Sirol, cafodd farciau uchel iawn a dderbyniodd dystysgrif yn y Cyfarfod

Misol yn Seilo ddydd Mawrth. Mae Helen wedi bod yn llwyddiannus mewn tair arholiad y piano yn ddiweddar hefyd. Da iawn Helen!

Llongyfarchiadau hefyd i'w brawd Kefin ar ei ben-blwydd yn ddeunaw ar Fehefin 10.

CROESO ADRA: i Mrs J.M. Williams, Cae-perthi, gobeithiwn ei bod wedi cael adferiad iechyd ar ôl ei harhosiad hefo Gwenda a'r teulu. Balch ydym hefyd fod Elwyn Searell, Dwyfor wedi gwella yn ddigon da i gael dod adra o'r ysbyty a bod David Emrys Griffiths, Bro Glyder yn gwella ar ôl damwain i'w goes.

GADAEI: Chwith gennym orfod ffarwelio â Mrs Nerys Roberts ac Elin, Tŷ'r Ysgol sydd wedi symud i fyw i Fangor ond dymunir pob hapusrwydd a llwyddiant iddynt yn eu cartref newydd.

DIOLCH: Dymuna Ken a theulu'r ddiweddar Mrs Nancy Jones, 2 Glanrafon ddiolch o galon i ffrindiau a chymydogion am yr holl garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

BRYNREFAIL

GOHEBYDD - Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyr mis Ebrill:

Ebrill 1 - 1. Islwyn Jones, 2. Carol Houston, 3. Megan Jones.

Ebrill 8 - 1. Moira Ellis, 2. Dafydd Price, 3. Celt.

Ebrill 15 - 1. Meurig Jones, 2. Colin Wager, 3. Norma Green.

Ebrill 22 - 1. Bertie Roberts, 2. Betty Owen (Tros Afon), 3. Megan (Sir Fôn)

Ebrill 29 - 1. Helen Roberts, 2. Sheila Williams, 3. Haydn Lewis.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, dan arweiniad Mrs Vera Hughes o Fethesda, trafodwyd y materion a fydd gerbron y gynhadledd flynyddol yn Llundain. Bydd Carol Houston yn cynrychioli'r gangen yn y cyfarfod yn Llundain. Darparwyd y te gan Moira Ellis a Mrs Hasson. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i enillwyd gan Jinnie Roberts.

CLWB Y MAMAU - Unwaith eto yn ystod y mis, cafwyd cwmni Mrs Vera Hughes o Fethesda yn arddangos lluo o debotiau a gasglodd ar hyd y blynyddoedd. Darparwyd y te gan Sheila Williams a Peggy Davies. Rhoddwyd anrheg y mis gan Shirley Roberts ac fe'i enillwyd gan Audrey Roberts.

CROESO ADREF - Wedi teithio rhai misoedd yn ymgyrdd â'i gwaith ymchwil gyda dawnswyr cenedlaethol Awstralia, estynnwn groeso cynnes iawn i Alys Williams sydd adref gyda'i chwaer, Mrs Jenny Hughes.

HELYNT Y LLYN - Fe gofiwch mae'n siŵr am y frwydr a enillwyd i gadw'r hen bont ar agor. A'r newyddion hyn ar fin mynd i'r wasg, daeth gwybodaeth i law am fwriad y Bwrdd Dŵr, i wahardd y cyhoedd rhag mynd i lannau'r llyn, ac hefyd eu gwahardd rhag ymdrochi yn y llyn. Mae llawer o ardalyddwyr eisoes wedi datgan eu pryder am wahardd o'r fath, heb ymgynghori o gwbl â phobl leol. Mae ymweld â Phen-llyn ac eistedd wrth y glannau wedi bod yn un o weithgareddau amser hamdden traddodiadol y fro i genedlaethau o bobl - a ydych yn barod i golli yr hyn a gymerwyd yn hawl ers canrif - cyn bodolaeth y Bwrdd Dŵr!

DIOLCH - Dymuna Mrs Margaret Closs-Parry, Brynudi ddiolch o galon i'w theulu, cymydogion, a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion, a dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed.


YR ARHOLIAD SIROL - Llongyfarchiadau i Catrin Gwyn ac Eira Wyn Evans, aelodau o Ysgol Sul Brynrefail M.C. ar ennill safleoedd yn y Dosbarth Cyntaf yn Arholiad Sirol Henaduriaeth Arfon. Derbyniasant eu Tystysgrifau yng Nghyfarfod Gwobrwyd'r Henaduriaeth yn Seilo, Caernarfon ar Fai 17.

CYMANFA GANU'R YSGOLION SUL - Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Unedig Dosbarth Deiniolen a Llanberis ym Brynrefail ddydd Sul, y cyntaf o Fai. Yr arweinydd oedd Mrs Glent Griffith, Bethel a'r organyddes Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mrs Ifanwy Jones, Brynrefail ac yr oedd y rhan ddefosynol yng nghyfarfod yr hwyr dan ofal Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth. Gwnaeth aelodau o ddsbarth Miss Annie May Williams eu rhan yn anrhydeddus yn y gwasanaeth agoriadol yng nghyfarfod y prynhawn; llongyfarchwn hwynt am eu gwaith ynghyd â'u llwyddiant ymhlith holl blant Ysgol Sul Brynrefail a wobrwyyd yn y Gymanfa.

Arholiad Llafar: Dan 4 oed: Rhian Davies a Lola Davies; dan 5: Martin Owen; dan 7: Marian Ll. Jones a Dafydd Euron Williams; dan 8: Owain Gwyn a Nicola Houston; dan 9: Eira Wyn Evans; dan 10: Catrin Gwyn a Maria Evans; dan 12: Caron Haf Jones, Glenda Walters, Eimir Gwyn, Nerys Ann Williams a Joanne Evans; dan 13: Jacqueline Walters. Gwobrwydd Parti Cydadrodd dan 11 oed a than 16 oed a llongyfarchwn Mrs Mair Griffith, Ael-y-Bryn ar ennill y safle gyntaf yn yr arholiad i rai dros 50 oed. Yn yr arholiad ysgrifenedig bu'r canlynol yn llwyddiannus: dan 9 oed: Eira Wyn Evans; dan 11: Catrin Gwyn, Maria Evans a Paula Walters; dan 14: Eimir Gwyn, Joanne Evans a Nerys Ann Williams. Mae gair o ddiolch yn ddyledus i nifer o aelodau'r Eglwys am eu cyfraniad tuag at lwyddiant y Gymanfa ymhob rhyw fodd. Gwerthfawrogi yr holl roddion a dderbyniwyd gan unigolion tuag at y lluniaeth ac mae ein diolch yn arbennig i ysgrifenyddes yr Ysgol Sul, Mrs Carol Houston a Mrs Pat Jones fu'n llywio'r trefniadau ac am gymorth diflino'r gofalwyr Mr a Mrs O.J. Williams, Bryn Melyn. Ein braint fel Eglwys fu croesawu'r Gymanfa Unedig gyntaf hon.

SEIAT DOSBARTH - Mewn Seiat Dosbarth a gynhaliwyd yn Ninorwig, nos Fercher Mai 25, agorwyd y mater gan Mr D.G. Ellis, Gweledfa. Testu y seiat oedd 'Crefydd mewn perthynas â throseddwyr'.

LLUN I'R PLANT I'W LIWIO



DEUGAIN MLYNEDD WEDYN – COFIO BRYNREFAIL YNG Nghanada

“Wel sbia, Dr Dan a Francis a Catherine a Sarah. Beti ydy hon dwad? Beth ddaeth ohoni hi?”

“A dyma Bos myn dian i. Wyt ti'n cofio ni yn ei chael hi ganddo fo ers talwm am smocio ...”

“Ydy llun 'Rhen Gêr gin ti?”

Dyna'r math o drafod atgofus sy'n gyffredin pan fo hen ddisgyblion cyfnod y Rhyfel yn Ysgol Sir Brynrefail yn cyfarfod ac yn edrych ar hen luniau. Y peth anghyffredin y tro hwn oedd mai yn Ottawa, prifddinas Canada bell yr oedd yr atgofion yn llifo!

TREULIO'R PASG YN CANADA

Aeth criw o 30 o athrawon a gweinyddwyr addysg o Wynedd a Chlwyd drosodd i Ganada yn ystod gwyliau'r Pasg eleni i weld sut mae taleithiau Qubec ac Ontario yn ymwneud â dwyieithrwydd – Ffrangeg - Saesneg, wrth gwrs. Gwnaed y trefniadau yn Ottawa gan Mr a Mrs Tal Griffiths a sioc pleserus i Dafydd Orwig, un o'r criw, oedd sylweddoli mai Shirley Violet o Lanberis oedd Mrs Griffiths!

Trefnodd Mr a Mrs Griffiths barti yn eu cartref moethus a gwahodd

nifer o aelodau Cymdeithas Gymraeg Ottawa yno. A phwy oedd yn eu mysg ond Morris a Ronald Jones, meibion Mr a Mrs William Hugh Jones, cigydd, Deiniolen. Roedd Shirley, Dafydd a Morris yn cydoesi fwy neu lai yn Ysgol Brynrefail yn y blynyddoedd 1939-43 ond roedd Mr a Mrs Ronald Jones (a Mrs Jones yw Ceridwen Roberts o Lanberis!) yn perthyn i do ieuengach. Bu'r atgofion am yr hen ysgol ac am Ddeiniolen a Llanberis yn dylifo yn Ottawa dros y Pasg. Roedd hi'n 'forty years on' o ddifrif ar y criw bach yn cofio'r amser difyr gynt.

GWNEUD DIS

1. Torrwch â siswrn ar hyd y linell ddu sydd o amgylch y dis yn ofalus iawn.
2. Rhaid torri ar hyd y linell ddu o A i B.
3. Plygwch pob llinell doredig yn ofalus iawn.
4. Plethwch y stripyn gan gofio bod sgwâr arno yn mynd dros sgwâr clir bob tro.

Dyna chi wedi gwneud dis.

Diolch i rai o blant Ysgol Dolbadarn, Llanberis am y llun ac am y wybodaeth ar sut i wneud dis.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

- £10: “Un o Lanberis oddi cartref”
 £5: Y Cynghorydd Jacob James, Deiniolen
 £3: Mr a Mrs H.T. Lewis, Ermington, Awstralia.
 £2: Mrs Alice Jones, 4 Nant Ffynnon, Nant Peris
 £2: Mrs M.E. Jones, Ty'n Fawnog, Dinorwig
 £1.50: Mrs C. McCarthy, Childwall, Lerpwl; Ronnie 'Llanbabs' Williams; Mrs H. Tilda Owen, Llandysul.
 £1: Meurig Owen, Llundain; Mrs M.W. Griffiths, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
 £1: Mr a Mrs P. Kasprek, Llanfairpwll
 Mrs N. Thomas, 62 Pentre Helen, Deiniolen
 50c: Miss M. Munro, Corby
 50c: Mrs M. Jones, 4 Bwthyn, Deiniolen

LLYFRAU

Cyrhaeddodd dau lyfr clawr meddal o Gyhoeddiadau Mei, Penygroes ddiwedd mis Mai – y naill yn ddrama a'r llall yn gyfrol o atgofion. Gareth Miles sy'n hanu o'r Waunfawr ac Ellen Jones o Fethel yw'r ddau awdur.

Nid oedd amser yn caniatáu adolygiad manwl o'r llyfrau felly dyma ddyfynnu oddi ar eu siacedi llwch.

Atgofion Nel Bach Lôn Glai gan Ellen Jones.

“Wedi llwyddiant ei chyfrol gyntaf” (Hunangofiant Nel Bach Lôn Glai) “dyma Nel Bach, yn ei ffordd afaelgar ac agos atoch ... yn ein tywys yn ôl am sbec ar ardal Pont Rug a Bethel.

“Trwy gyfrwng lluniau a hanesion bywiog cyfarfyddwn â rhai o gymeriadau'r fro: Annie Williams, Llwyn Bedw ... Mrs Mary Ursula Jones ... Richard Owen, Disgwylfa yr hen yrrwr trên ...

“Hefyd hanes profiad doniol o blentyndod un o enwogion Cymru ...”

Cyhoeddiadau Mei. Pris £1.50.

Diwedd y Saithdegau gan Gareth Miles.

“Drama real, gigog a chignoeth ... ac mae'n cynnwys peth o'r sgrifennu mwyaf cyhyrog ym myd y ddrama yn y cyfnod diweddar ...

“Mae'r ddeialog grafog, y plot cynhyrfus a'r portreadu aeddfed yn gwneud darllen y ddrama hon yn brofiad ysgytwol.”

Cyhoeddiadau Mei. Pris £1.00.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL




BECWS DEINIOLEN (D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

CROESAIR MEHEFIN



ar draws

1. Distryw ddaw i greu tawelwch (10)
2. Y gronyn lleiaf yn dod i'n cyfeiriad ni (6)
3. Yn y bachgen a'i dad gwelir y rhan ysbrydol (5)
4. Siôn y llwynog (6,3)
5. Peiriant i ddangos ffilm neu luniau (8)
6. Gwynnu (5)
7. Golau cefn beic (4,2)
8. Fe'i cenir mewn oedfa (4)
9. . . . wen fach (4)
10. Ger yr un dde, neu'r un chwith - mae'n agos (3,3)
11. Perthynas (5)
12. Waldo yma? Na, mae'n ymadael (8)
13. Yn amserol fel yr haf a'r lleill? (9)
14. Y tir gwair ger y tŷ (5)
15. Cerfio neu torri (4)
16. Unig gan Dei - heb frawd na chwaer! (10)

un yn pwdu (5,3)

13. Digwyddiad anffodus, efallai'n ddoniol wedyn (3,7)
15. Pethau da (8)
17. Cefnogwyd (9)
18. Rhif anlwcus i rai, medden nhw (8)
21. Cario'r cynhaeaf i'r ysgubor (6)
24. Budr, ffaidd.

Un llythyren ydi Ch, Dd, Ff, Ng, Ll, Ph, Rh, Th.

Anfonwch eich cynigion i: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

ATEBION CROESAIR MAI:

AR DRAWS:

3. Awstria, 7. Mawredd, 8. Ymweld, 9. Bendithio, 11. Deio, 12. Gwarchodlu, 17. Boddi, 18. Edrychiad, 19. Ocsiwn, 20. Modryb, 21. Lluosog.

I LAWR

2. Malu awyr
3. Bro (5)
4. Aderyn lliwgar (5,3)
5. Coeden dywyll! (4,2)
7. Mae'n cochic awyr y gorllewin ar noson braf (6,4)
8. Mae'r anifail yn llond ceg pan mae

I LAWR:

1. Mam Ebol, 2. Ychwaneg, 3. America, 4. Twyllo, 5. lawndal, 6. Cydio, 19. Iechyd, 13. Weithiau, 14. Dwyfoli, 15. Unigryw, 16. Rhod y Byd, 17. Broga, 18. Ernes.
- Enillydd: Meinir Roberts, Gwyneryn, Bethel.

Dyddiadur y Mis

MEHEFIN:

1, Mercher: LLANBERIS, Bingo yn y Ganolfan am 7.30 - er budd y Gymdeithas i Rai â Chlefyd Siwgr.
 2, Iau: LLANBERIS, Cymdeithas y Merched yn y Ganolfan am 7.30
 Gwener, 3: DEINIOLEN, Bingo yn Ystafell y Seindorf
 LLANBERIS, Clwb yr Henoed
 Sadwrn, 4: LLANRUG: Gêm Bêl-droed - Dynion v Merched, Cae Eithin Duon. Yr elw at Gronfa MENCAP
 Ras Eryri - 1000 metr. Gorffen yn Llanberis
 Llun: 6: DEINIOLEN, Sefydliad y Merched - Arddangosfa Coginio gan Mrs M. Hughes, Glynllifon
 PENISARWAUN: Noson Goffi Undeb y Mamau. Yr elw tuag at Gymorth Cristnogol.
 LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
 Mawrth 7, DEINIOLEN: Clwb Elidir Mercher, 8: BETHEL, Gwibdaith Merched y Wawr
 Iau 9: WAUNFAWR, Gwibdaith Clwb Gwyrfa
 Gwener, 10: DEINIOLEN, Bingo yn Ystafell y Seindorf.
 WAUNFAWR, Noson Goffi er budd Cronfa MENCAP yn Neuadd yr Eglwys am 6.30
 Sadwrn, 11: LLANRUG, Taith Hanesyddol y Gymdeithas Undebol

Llun, 13: LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
 Mawrth 14: LLANRUG, Taith Ddirgel Merched y Wawr
 BETHEL, Gwibdaith Clwb Bro Rhos i Gaer
 Iau, 16: CWM-Y-GLO: Pleserdaith Clwb Pobol y Cwm i Fae Colwyn a'r Cylch
 LLANRUG, Cymdeithas Chwirydd Pontrhythallt
 Gwener, 17, DEINIOLEN, Bingo yn Ystafell y Seindorf
 WAUNFAWR: Noson Gerddorol gyda Dafydd Iwan a Phlant yr Ysgol Gynradd yng Nghapel Croesywaun am 7.00. Yr elw at y ganolfan.
 LLANBERIS, Clwb yr Henoed
 Sadwrn, 18: LLANBERIS, Gwibdaith Clwb yr Henoed i'r Rhyll
 BETHEL-WAUNFAWR, Gwibdaith Sefydliad y Merched i Gaer
 LLANRUG, Trip Ysgol Sul plant Capel Mawr i Butlin's Pwllheli
 Llun, 20: DEINIOLEN, Cyfarfod Blynnyddol Merched y Wawr yn y Ganolfan am 7.00
 LLANRUG, Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd am, 7.00. Yr elw at Gronfa'r Eglwys.
 LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
 YR ARDAL: Oriol Eryri ar agor i'r cyhoedd
 Mawrth 21, DEINIOLEN: Clwb Elidir

LLANRUG: Helfa Drysor y Carnifal
 PENISARWAUN, Clwb yr Heulwen
 Mercher, 22: LLANRUG: Disgo'r Carnifal i blant yr Ysgol Gynradd yn yr Ysgol Gynradd
 Iau, 23, WAUNFAWR: Taith a Swper Merched y Wawr
 Gwener, 24: DEINIOLEN, Bingo yn Ystafell y Seindorf
 Taith Ddirgel Cangen Plaid Cymru
 LLANBERIS, Bingo a Lluniaeth er budd yr Orsaf Ddan yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30
 Sadwrn 25: LLANRUG, Carnifal
 YR ARDAL, Gwibdaith flynyddol Clwb Eryri o amgylch Eifionydd
 LLANBERIS, "Ffair Fefus" tu allan i

Westy Dolafon am 2.00. Yr elw tuag at Gronfa 'Operation Portox', dan nawdd Cymdeithas y Merched
 BETHEL, Trip Ysgol Sul plant Capel Bethel i'r Rhyll
 Mehefin 26 - Gorffennaf 2: Wythnos Garnifal Bethel
 Sul 26, BETHEL, Cymanfa Ganu y Carnifal
 WAUNFAWR: Cymanfa Ganu y Carnifal yng Nghapel Bethel
 Llun 28: LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
 Iau, 30: PENISARWAUN, Gwibdaith Clwb yr Heulwen o amgylch Ynys Môn




EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN 1983

Gorffennaf 30 - Awst 6

Psst! Eislau mynd i'r Eisteddfod heb dalu'r un geiniog? DEWCH YNO FEL STIWARD!

Ond bydd yn rhaid i chi weithio'n galed iawn am eich mynediad rhad - yn sicrhau bod trefn yn cael ei gadw tra'n gwarchod y drysau yn y Pafliwn, y Babel Lén a manau pwysig eraill.

Am ffurflen berthnasol, gyrrwch heddiw at **Swyddfa'r Eisteddfod Y Stad Ddiwydiannol Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA**
 Ffôn Llangefni 724444



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN 1983

Gorffennaf 30-Awst 6

Y DRAMAU

<p style="text-align: center;">THEATR GWYNEDD, BANGOR</p> <p style="text-align: center;">CWMNI THEATR CYMRU yn perfformio 'SIWAN' gan Saunders Lewis</p> <p>Nos Lun, Awst 1 Nos Fawrth, Awst 2 Nos Fercher, Awst 3</p>	<p style="text-align: center;">CWMNI DRAMA LLEOL yn perfformio 'TY MAWR' gan William Lewis</p> <p><small>(Drama Gynnar - Fforddau'r 1982)</small> Nos Iau, Awst 4 Nos Wener, Awst 5 Nos Sadwrn, Awst 6</p>
<p style="text-align: center;">NEUADD Y DREF, LLANGEFNI</p> <p style="text-align: center;">Cwmni Ysgol Sgr Thomas Jones, Amlych, yn perfformio Hars 'NYTH BACH DIRGEL A DIOGEL' gan Georges Feydeau</p> <p>Nos Lun, Awst 1 Nos Fawrth, Awst 2 Nos Fercher, Awst 3</p>	<p style="text-align: center;">Cwmni Drama Eryri, Caernarfon yn perfformio 'AC ETO NID MYFI' gan John Gwilym Jones</p> <p>Nos Iau, Awst 4 Nos Wener, Awst 5 Nos Sadwrn, Awst 6</p>
<p style="text-align: center;">YSGOL GYFUN LLANGEFNI</p> <p style="text-align: center;">Cystadlaethau</p> <p style="text-align: center;">CWMNI THEATR CYMRU yn cyflwyno 'Y TAIR CHWAER' Tsierec</p> <p>Nos Lun, Awst 1 Nos Fawrth, Awst 2 Nos Fercher, Awst 3</p>	<p style="text-align: center;">CWMNI THEATR CYMRU yn cyflwyno 'Y TAIR CHWAER' Tsierec</p> <p>Nos Iau, Awst 4 Nos Wener, Awst 5 Nos Sadwrn, Awst 6</p>

Brysiwch i archebu tocynnau oddi wrth **Swyddfa'r Eisteddfod, Y Stad Ddiwydiannol Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA**
 Ffôn Llangefni (0248) 724444



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN 1983

GARMON

Eleni, am y tro cyntaf erioed, bydd cyfle i chwi, bobl Cymru, ddewis Goreuon Cymru ym myd TELEDU, RADIO neu THEATR.

'GARMON' yw'r enw a roddir ar y tlysau unigryw hyn a fydd i'w cyflwyno yn ystod Wythnos yr Eisteddfod.
'GARMON' fydd uchafbwynt blwyddyn. Anrhydedd nad oes ei debyg.

Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd erbyn Mehefin 24

YR ACTOR GORAU

YR ACTORES ORAU

YR ACTOR MWYAF ADDAWOL

YR ACTORES FWYAF ADDAWOL

Y SGRIPTIWR/SGRIPTWYR GORAU

Y CYNHYRCHIAD GORAU

Eich enw a chyfeiriad

Swyddfa'r Eisteddfod, Y Stad Ddiwydiannol Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA

CHWARAEON

DIWEDD Y TYMOR PELDROED

Daeth tymor arall i ben i dimau bro'r 'Eco', ac am unwaith ni fu mor llwyddiannus â rhai'r gorffennol, er i dîm Llanberis gadw eu henw da drwy ymddangos mewn pedair gêm gwpan derfynol, ond yn anffodus, ennill dim ond un ohonynt. Am Fethel a Llanrug - wel, gwell anghofio tymor 82-83 ac edrych ymlae yn fwy ffyddiog i'r tymor nesaf.

Wedi eu buddugoliaeth yn erbyn y Felinheli yn rownd gyn-derfynol Cwpan Iau Gogledd Cymru, roedd Llanberis yn bur ffyddiog yn erbyn Llanfairpwll ar gae'r Oval, Caernarfon. Ond roedd anafiadau i Iwan Evans a Ken Griffith wedi eu hamddifadu o ddau chwaraewr allweddol, ac roedd eu colled yn amlwg. Colli fu eu hanes o'r unig gôl a sgoriwyd.

Colli fu eu hanes yn erbyn y Felinheli ar gae Llanrug yng Nghwpan Wil Evans, a hynny ar ôl methu sgorio o'r smotyn gwyn yn gynnar yn y gêm.

Yna, ar gae Nantlle daeth buddugoliaeth yng Nghwpan Alves yn erbyn Pwllheli. Bu'n rhaid chwarae amser ychwanegol yn y gêm hon, a'r hen ben, Gwilym Williams fu'n gyfrifol am y fuddugoliaeth gan sgorio tair gôl.

Ond yng ngêm olaf y tymor, unwaith eto ar gae Llanrug, daeth y cyfle i Bwllheli dalu'r pwyth yn ôl i Lanberis yng Nghwpan Moorings. Un gôl oedd yn ddigon i ennill y gêm, ac aeth y Cwpan i Bwllheli am y tro

cyntaf yn ei hanes. Gyda llaw, calonogol iawn oedd gweld torf mor dda wedi troi allan i wyllo'r gêm hon, arwydd nad yw diddordeb mewn gemau lleol wedi llwyr ddiplannu. Trueni na fyddai gymaint yn troi allan ar bwniau Sadwrn gydol y tymor i gefnogi eu timau lleol.

Mae golygon Llanberis bellach yn troi tuag at Cynghrair Gwynedd a safon uwch o chwarae. Yno, byddant yn ail-godymu â'u gelynyion o'r Felinheli a Phwllheli, a siawns na cheir cyfle i dalu'r pwyth yn ôl i Lanfairpwll, oherwydd byddant hwythau yn y gynghrair newydd hefyd.

Yn y cyfamser, rhaid fydd i Lanrug a Bethel gryfhau eu carfanau gogyfer â thymor newydd yng Nghynghrair Arfon. Oherwydd ffarwelio rhai timau â'r Gynghrair, bydd llai o gemau i'w chwarae, gan nad oes argoelion fod timau eraill i gymryd eu lle. Er hynny, mae si gref ar led fod Deiniolen am ailafael ynddi ac anfon tîm i Gynghrair Arfon. Os felly, bydd 4 tîm peldroed yn ardal yr Eco am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer.



Siom ar wyneb chwaraewyr Llanberis ar ôl colli'r gêm Cwpan Moorings yn erbyn Pwllheli.

DECHRAU'R TYMOR CRICED...

TÎM CRICED DYFFRYN PERIS

Yn ddiweddar daeth nifer o bobl y fro at ei gilydd gyda'r bwriad o ffurfio tîm criced. Casglwyd enwau tua phump ar hugain o rai awyddus i godi tîm yn y fro; hefyd penderfynwyd ar yr enw uchod i'r tîm.

Yr amcan am eleni yw cael nifer o gemau gyda'r nosau gyda thimau lleol yna cloriannu safon y tîm ac yna ystyried ymuno â chynghrair. Os oes ar rywun eisiau ymuno â'r tîm rhowch wybod i:

Edgar Jones, Gareth Roberts (Llanrug); neu Trystan Larsen, (Penisarwaun).



OND Y TYMOR RHEDEG ... YN DAL I REDEG

Cynhaliwyd Cinio Blynyddol Clwb Rhedwyr Eryri nos Wener Mai 27 yng Ngwesty Victoria Llanberis. Dyma benllanw'r tymor i'r rhedwyr a oedd yn cael eu gwobrwo am berfformiadau eithriadol yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae aelodaeth Rhedwyr Eryri wedi cynyddu llawer ers ei sefydlu, a bellach mae rhedwyr o bob rhan o Wynedd yn aelodau.



Paul Prydderch gyda'r darian sydd i'w dal am flwyddyn - a'r tlws i'w gadw am byth.

RAS ERYRI

Ddydd Sadwrn, Mehefin 4 bydd ras 1,000m ar draws mynyddoedd Eryri yn gorffen yn Llanberis - un o rasus mynydd caletaf y wlad. Gan gychwyn yn Aber, rhaid dringo mynyddoedd Eryri ar lwybr sy'n 25 milltir o hyd cyn diweddu â'r Wyddfa ei hun.

YMARFER

Mae aelodau ifanc (a hŷn) Rhedwyr Eryri wedi bod yn ymarfer yn galed yn ystod y mis diwethaf dan arweiniad Bob Roberts, Llanllyfni. Cafwyd sesiynau ymarfer ar foreau Sul ym maes parcio'r Gilfach Ddu, Llanberis, ac yn y Ganolfan Hamdden, Caernarfon. Cafwyd cymaint â 30 o aelodau yno ar rai cyfnodau. Bydd sesiynau eraill yn cael eu trefnu yn Ninas Dinlle, ac yn fuan, bydd yr aelodau'n dechrau ymarfer ar yr Wyddfa ei hun. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn rhedeg gysylltu â'r ysgrifennydd, D. Ellis, Gelert St., Caernarfon, neu ddod draw i'r maes parcio yn Llanberis erbyn tua 11.00 ar fore Sul.

CWPAN ECO'R WYDDFA

Cynhelir cystadleuaeth pêl-droed 6 bob ochr i blant oedran Ysgolion Cynradd yn ystod yr ail wythnos ym mis Gorffennaf.

Pwysleisir mai cystadleuaeth i bentrefi bro yr Eco ydyw ac nid o anghenraid i'r ysgolion.

Y bwriad yw cynnal y gystadleuaeth ar gae pel-droed Ysgol Gynradd Llanrug gyda'r nos - bydd manylion pellach ar gael yn nes i'r dyddiad.

Gwahoddir ceisiadau i'r pentrefi sydd â diddordeb yn y gystadleuaeth trwy gysylltu â'r isod. (Mae croeso i unrhyw bentref yrru dau dîm).

Edward Elias, Gwen-y-wawr, 21 Glanffynnon, Llanrug. (Ffôn: C'fon 3719)

TARIAN 5-BOB-OCHE CARNIFAL LLANRUG

Ar nos Wener yn ystod wythnos Carnifal Llanrug bydd cystadleuaeth ddiddorol yn cael ei chynnal ar gae peldroed Llanrug. Gwahoddir timau o bentrefi Llanrug a Chwm-y-glo i gymryd rhan mewn gêm beldroed 5-bob-ochr. Ond, mae'r rheolau'n wahanol i rai arferol gemau o'r fath. Rhaid i'r tîm gynnwys 3 o ddynion neu fechgyn a 2 ferch. Ond rhaid i un aelod o'r tîm (mab neu ferch) fod dros 40 oed! Bydd tarian, rhoddedig gan Glwb Peldroed Llanrug yn cael ei chyflwyno i'r tîm buddugol.

Am ffurflenni cystadlu a manylion llawn am y gystadleuaeth, cysyllter â D.W. Thomas, Bron-y-Nant, Llanrug (Ffôn C'fon 3515) neu unrhyw aelod o'r Clwb Peldroed.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i dîm Llanberis am ennill Pencampwriaeth Cynghrair Ieuentid Caernarfon a'r cych am yr ail dymor yn olynol. Yn anffodus ni fuont mor llwcus yn y gemau cwpan y tymor hwn.

DRAENOG



Wedi clywed fod Rheolwr Tim Peldroed Ieuentid Llanberis yn bwriadu cystadlu ar Ras yr Wyddfa eleni, ond fod rhyw Gwmni Drama yn amharu ar ei ymarfer. Beth am ladd dau aderyn ag un garreg a pherfformio'r ddrama "Loneliness of a Long Distance Runner"?

GÊM CODI ARIAN I MENCAP!

Brawn Sadwrn, Mehefin 4 ar Gae Peldroed Llanrug cynhelir gêm bêldroed od iawn gan dimau o ddynion a merched ardal Llanrug. Y bwriad fydd codi arian tuag at gronfa MENCAP. Trefnir y gêm gan ffyddloniaid y Glyntwrog, a bydd tâl mynediad a chasgliad ar y cae. Y dyfarnwr gwâdd yw Mr Pyrs Jones. Gobeithir y daw tyrfa fawr draw i'r cae er mwyn chwyddo'r gronfa leol.

BETWS GARMON

CYDYMDEIMLIR: a theulu'r ddiweddar Mrs N. Hughes, (Arwel gynt) Y Groeslon.

LLONGYFARCHIADAU: i Manon Wyn Evans, Bron y Graig ar gael marciau llawn mewn Arholiad Llafar yn y Gymanfa.

CHWARAEWR Y FLWYDDYN

Alan V. Owen a ddewiswyd yn chwaraewr y flwyddyn i dîm Llanrug y tymor hwn. Fe'i cyflwynwyd â'r tlws yng Nghinio Blynyddol Llanrug gan Mr Peter Casey.

AR WERTH

'Bunk Beds', 2'6" x 6'3".
Waunfawr 294 (gyda'r nos)